



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 10FED EBRILL, 2025

**(NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB A BWRIEDIR
CAEL TORIAD I GINIO AM 12.10YP – 1.00YP)**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol
drwy Zoom**

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Jasmine Jones

01286 679667

jasminejones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 2 Ebrill 2025)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Beca Brown
Iwan Huws
Gareth Tudor Jones
Gwynfor Owen
Huw Rowlands
Rhys Tudur

Jina Gwyrfai
Dawn Lynne Jones
Olaf Cai Larsen
John Pughe
Dyfrig Siencyn
Sian Williams

Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Beth Lawton
John Pughe Roberts

Gwilym Jones
Dewi Owen
Richard Glyn Roberts

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelodau Eraill a Wahoddwyd

AELODAU CYFETHLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

[sedd wag]	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
{sedd wag}	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd
Gweno Glyn Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor
Sharon Roberts	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon

Heb Bleidlais:

Elise Poulter	NEU
Gwilym Jones	NASUWT

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 13/02/25 fel rhai cywir.

5. GWASANAETH IEUENCTID

21 - 77

I roi arweiniad ar gyfeiriad gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid yn y dyfodol i drafod os ydyw dal yn cyfarch anghenion pobl ifanc Gwynedd ac yn cyflawni ei hamcanion yn dilyn yr ailstrwythuro yn 2018.

6. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN Y PRIF LIF AC YSGOLION ARBENNIG

78 - 92

I graffu'r ddarpariaeth addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i sicrhau mewnbwn a dealltwriaeth y Pwyllgor Craffu o'r cynnydd a wnaed i sicrhau bod Gwynedd yn barod ar gyfer y Ddeddf ADY a Chynhwysiad newydd.

Bwriedir cael toriad i ginio am 12.10yp – 1.00yp

7. POLISI IAITH ADDYSG

93 - 123

I gyflwyno drafft o'r polisi diwygiedig.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 13/02/25

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Dawn Lynne Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn a Sian Williams.

Aelodau Cyfetholedig: Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Gwilym Jones (NASUWT).

Swyddogion yn bresennol: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts a Jasmine Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 - Y Cynghorydd Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Economaidd) ac Osian Elis (Arweinydd Tîm Datblygu Busnesau Gwynedd).

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 - Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd) a Meirion Prys Jones (Ymgynghorydd). Hefyd, sylwedyddion o'r Pwyllgor Iaith – Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones ac Elfed Williams.

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 - Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) a Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

Yn bresennol ar gyfer eitem 8 – Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol).

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:-

- Aelodau newydd ar y pwyllgor - Y Cynghorwyr Beca Brown a Dyfrig Siencyn.
- Aelodau o'r Pwyllgor Iaith a wahoddwyd fel sylwedyddion ar gyfer eitem 6.

Cyn cychwyn ar y trafodaethau, mynegodd y Cadeirydd ei siomedigaeth nad oedd yr un o'r tair prif eitem ar y rhaglen yn cynnwys y wybodaeth a ddisgwyliid wrth raglennu'r eitemau ar gyfer y cyfarfod hwn. Ychwanegodd, er ei bod yn ddealladwy bod llif gwaith weithiau'n arafach na'r bwriad gwreiddiol, y byddai wedi bod yn llawer haws i'r pwyllgor petai rhag rybudd amserol wedi'i roi o hynny.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gwynfor Owen.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2024 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN ECONOMI GWYNEDD

Croesawyd yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor craffu ac fe'i longyfarchwyd ar ei benodiad. Croesawyd y Pennaeth Economi a Chymuned a'r swyddogion i'r cyfarfod hefyd.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet yn gwahodd mewnbwn yr aelodau ar y cynnwys ac ar faterion pellach y credir y dylid eu hystyried wrth greu Cynllun Economi Gwynedd.

Nododd yr Aelod Cabinet ar y cychwyn fod yr eitem hon yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth yng nghyfarfod y pwyllgor craffu ar 25 Ionawr 2024 ynglŷn â gweithredu'r Prosiect Datblygu Economi Gwynedd.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cadeirydd ar gychwyn y cyfarfod, eglurodd y Pennaeth Economi a Chymuned:-

- Ei bod yn deg dweud, pan gyflwynwyd yr adroddiad llynedd, y disgwyliad bod mewnbwn sefyllfa reit wahanol erbyn hyn.
- Mai'r gobaith hydref diwethaf, pan gafwyd trafodaeth yn y Tîm Arweinyddiaeth, oedd y byddai dogfen wedi'i chwblhau erbyn hyn i gael ei chraffu. Nid oedd hynny wedi digwydd, er bod llawer o waith wedi digwydd.
- Bod angen mynd yn ôl i'r Tîm Arweinyddiaeth, a chredid bod mantais cael mewnbwn y pwyllgor hwn heddiw i'r egwyddorion a'r cyfeiriad fel bod y ddogfen fydd yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth yn ymgorffori sylwadau'r craffwyr.
- Nad oedd drafft o'r ddogfen orffenedig yn barod heddiw gan fod yr Adran wedi ail-raglennu gwaith ers yr hydref. Roedd hynny wedi digwydd am sawl rheswm, gan gynnwys ail-gychwyn gosod cyfeiriad newydd yn sgil penodi Aelod Cabinet newydd ac ail-gynllunio blaenoriaethau gwaith i ymdopi â blwyddyn ychwanegol o waith yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i ymestyn y Gronfa Ffyniant Bro am flwyddyn ychwanegol.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun i'r adroddiad gan nodi:-

- Bod cadarnhad Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) y bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau am flwyddyn bellach i 2025/26 i'w groesawu, ond y gellid bod yn sicr y bydd y tirlun ariannol yn newid unwaith eto ar ôl Ebrill,

2026. O ganlyniad, roedd y gofyn i'r Cyngor hwn ystyried ei flaenoriaethau economaidd yn parhau.

- Y byddai sicrhau dogfen sy'n datgan ein dyhead yn glir hefyd yn arf pwysig i ddylanwadu ar y trafodaethau gan y ddwy lywodraeth o fewn Rhanbarth y Gogledd.
- Mai bwriad yr adroddiad gerbron oedd crynhoi'r negeseuon sydd i law a derbyn sylwadau ac adborth gan y craffwyr cyn symud ymlaen i gwblhau llunio Cynllun Strategol Datblygu'r Economi a'i fabwysiadu yn y flwyddyn ariannol newydd.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd y farn ei bod yn anodd craffu ar adroddiad cynnydd a bod yr aelodau wedi gobeithio craffu drafft o Gynllun Economi Gwynedd yn y cyfarfod hwn. Nodwyd na ellid bod yn siŵr a fyddai yna gyfle arall i'r pwyllgor hwn graffu'r cynllun cyn iddo fynd i'r Cabinet ym mis Ebrill. Pwysleisiwyd ei bod yn hollbwysig i Wynedd gael strategaeth lefel uchel gyda'r newidiadau tebygol yn y rhaglenni ariannu. Er hynny, nodwyd y cydnabyddid bod yna waith da iawn wedi'i wneud mewn rhai meysydd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y cytunid ei bod yn bwysig cael dogfen sy'n adnabod yn glir beth yw blaenoriaethau Gwynedd fel sir fel bod modd ei defnyddio i ddylanwadu a thargeddu arian i'r dyfodol.
- Bod pawb wedi disgwyl y byddai'r arian i gyd wedi dod i ben ar 1 Ebrill 2025 a bod angen y ddogfen eleni. Fodd bynnag, roedd ymestyn yr arian am flwyddyn ychwanegol yn golygu bod rhaid i'r staff ymdopi â chynllunio'r gwaith o baratoi'r ddogfen ochr yn ochr â rhedeg rhaglen ariannu newydd ar gyfer 2025/26.
- Y gobeithid gallu dod â dogfen ddrafft i'r pwyllgor i'w chraffu yn y misoedd nesaf. Anelid at gael dogfen wedi'i chytuno yn 2025/26 fel ei bod mewn lle i ddylanwadu ar raglenni 2026/27.

Holwyd a fyddai yna gyfle i'r pwyllgor hwn graffu'r drafft o'r Cynllun Economi cyn iddo fynd gerbron y Cabinet. Mewn ymateb, nodwyd y credid ei bod yn hanfodol gwneud hynny. Fodd bynnag, gan fod bwriad i gyflwyno'r ddogfen ddrafft i'r Cabinet ar yr 8fed o Ebrill a bod y pwyllgor hwn ddim yn cyfarfod eto tan y 10fed o Ebrill, awgrymwyd o bosib' y byddai'n rhaid symud yr eitem Cabinet yn ei blaen.

Nodwyd y dylid ystyried goblygiadau'r holl newidiadau sy'n digwydd yn y byd amaeth ar y funud a phwysigrwydd y maes i Wynedd. Mynegwyd yr angen i'r Adran fod mewn cysylltiad â'r undebau amaeth yng Nghymru. Pwysleisiwyd bod goblygiadau'r newidiadau yn enfawr i gefn gwlad Gwynedd ac yn bellgyrhaeddol hefyd i fusnesau gwledig sy'n ddibynnol ar y byd amaeth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y dadansoddiad o'r economi yn dangos gwerth a phwysigrwydd amaethyddiaeth ac y byddai angen i'r Cynllun Economi roi sylw i'r newidiadau a'r bygythiadau sy'n wynebu'r sector.
- Nad oedd trafodaethau wedi'u cynnal hyd yma gyda'r undebau amaeth, ond o ran y sector bwyd amaeth yn ehangach, y byddai'r Cynllun Economi yn cyfarch prosiectau blaenoriaeth sy'n cael eu cynllunio, megis Hwb Economi Wledig Glynllifon.

- Bod y ddogfen gychwynnol yn manylu ar broffil yr economi a pha rannau o'r economi sy'n bwysig er mwyn gallu adnabod risgiau a lle mae angen twf yn yr economi.
- O ran ymgysylltu'n ehangach, y cynhaliwyd trafodaethau gyda phartneriaid strategol y Cyngor, megis Prifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai a chyrrff sy'n cynrychioli busnesau, megis Ffederasiwn y Busnesau Bach, o ran darparu cefnogaeth i fusnesau yn y sir.
- Bod yr Arolwg Busnes y cyfeirir ato ym mharagraff 5.1 o'r adroddiad yn ymarferiad a wnaethpwyd llynedd i ymgysylltu gyda busnesau yn y sir, ac y derbyniwyd 130 o ymatebion i'r arolwg.
- Mai pwrpas yr ymarferiad oedd adnabod beth yw bwriadau ac amcanion y busnesau dros y cyfnod o'u blaenau, yr heriau sy'n eu hwynebu a'r cyfleoedd y dymunent fanteisio arnynt, fel bod modd gweld oes bwriad ganddynt i dyfu, neu ydyn nhw'n darogan y byddent yn crebachu.
- Mai heriau recriwtio yw un o'r prif heriau sy'n wynebu'r busnesau. Roedd hynny'n adlewyrchu tueddiadau ehangach o ran demograffi yn y sir, ac roedd yr Adran yn fyw iawn i'r rheini yn yr adroddiad.
- Bod negeseuon hefyd yn cael eu cyfleu, nid yn unig am hyfywedd y busnesau a sut rydym am allu ymateb i hynny, ond hefyd o ran sut y gallwn gefnogi'r busnesau hynny i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a gweledd y Gymraeg.
- Y bwriedid ymateb i negeseuon y busnesau yn y Cynllun Economi er mwyn sicrhau cynllun sy'n addas i'r amodau mae busnesau yn eu hwynebu yn y sir.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r amserlen. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd bwriad i fynd â'r Cynllun terfynol i'r Cabinet i gael ei fabwysiadu ddechrau Ebrill ac y byddai yna gyfle i'r aelodau graffu'r ddogfen ddrafft yn ystod y flwyddyn nesaf.
- Y dymunid cael mewnbwn y craffwyr i'r trafodaethau fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn rhwng y ddwy Lywodraeth a bod yr Adran hefyd yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn sicrhau bod llais awdurdodau lleol yn rhan o'r drafodaeth honno.

Pwysleisiwyd yr angen i roi ffocws neilltuol yn y Cynllun Economi i'r diwydiant adeiladu, yn benodol yn Nwyfor a Meirionnydd, o ystyried effaith polisiau eraill y Cyngor, megis y Premiwm Treth Cyngor, ar y diwydiant. Nodwyd hefyd y byddai'n fuddiol gwybod pa mor ddibynnol yw busnesau yn y gwahanol rannau o Wynedd ar lafur plant dibynnol (hy ieuengach nag 16), myfyrwyr ôl 16 a myfyrwyr 18-21, yn enwedig felly yn y sectorau lletygarwch a manwerthu, o gymharu ag awdurdodau eraill, yn genedlaethol ac ar lefel gwladwriaeth. Eglurwyd bod hyn yn rhan o gwestiwn ehangach, sef diffyg gweithwyr mewn diwydiannau penodol, gan y bydd y sefyllfa yn gwaethygu dros y degawdau nesaf wrth i gyfraddau genedigaethau ostwng. Cwestiynwyd pa mor hyfyrw yw rhai o'r busnesau hyn o gwbl a chwestiynwyd faint mwy o fusnesau o'r fath y dymunir eu cael o ystyried mai'r nod yw sicrhau twf i bwrpas, ac nid twf er ei fwyn ei hun. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na chredid bod y data sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng oed y gweithwyr.

- Bod y sefyllfa'n adlewyrchiad o ba mor dynn yw'r farchnad lafur yng Ngwynedd a bod llawer o ymdrech yn cael ei wneud drwy gynllun Gwaith Gwynedd i sicrhau bod pawb sy'n gallu gweithio yn gweithio ac i annog pobl i aros yn gynhyrchiol hefyd.

Holwyd a oedd yr Adran yn mynd i wrando ar ddymuniadau'r craffwyr a nodwyd y dylai'r Cynllun Economi gyfarch y materion isod:-

- Yr orddibyniaeth ar dwristiaeth sy'n gallu bod yn anwadal iawn.
- Yr angen i annog mwy o bobl i fentro mynd yn hunangyflogedig.
- Cynlluniau i ddatblygu ynni adnewyddol.
- Hyrwyddo diwydiannau gwerth uchel. Holwyd oni ddylai'r adroddiad i'r pwyllgor fod wedi cyfeirio at adroddiad ar y pwnc yma a baratowyd tua 5 mlynedd yn ôl?
- Yr holl faes digidol, sy'n faes lle gellir denu pobl i weithio o gartref yn hunangyflogedig.

Nodwyd ymhellach:-

- Y teimlid ein bod yn colli cyfleoedd a bod angen strategaeth oll-gynhwysol, yn hytrach na bratiog.
- Y croesawir y sylw a roddir i'r iaith yn yr adroddiad, ond dymunir gweld lle mae twristiaeth o ran effaith ar y Gymraeg gan na chredir bod y swyddi gwerth isel iawn yn y diwydiant twristiaeth yn ychwanegu at gadw ein hiaith a'n diwylliant, ond yn hytrach yn porthi tlodi a mwy o Seisnigrwydd.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau, nodwyd:-

- O ran y pwynt ynglŷn â siaradwyr Cymraeg o fewn y diwydiannau, bod canfyddiadau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn adnabod y 3 diwydiant yng Ngwynedd sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg lle mae canran y siaradwyr yn uwch na'r ganran sydd yng Ngwynedd yn gyffredinol o siaradwyr Cymraeg. Gan hynny, awgrymid bod lle o hyd i gynyddu defnydd a gweledd y Gymraeg yn y diwydiannau eraill, megis twristiaeth.
- O ran y sylw ynglŷn â'r ystod o wahanol ddiwydiannau a pha ddiwydiannau sydd â photensial twf yng Ngwynedd, bod yr adroddiad yn disgrifio beth ydi sefyllfa'r economi heddiw. Roedd hynny'n cynnwys twristiaeth ac amaethyddiaeth, ac yn sicr roedd lle i ychwanegu gwerth pellach o'r rheini.
- Bod yr adroddiad hefyd yn cydnabod bod lle o hyd i dyfu mewn diwydiannau newydd, megis diwydiannau creadigol a digidol, a dod ag ychydig o amrywiaeth i'r economi a chreu mwy o gyfleoedd i bobl weithio i adnabod swyddi newydd pe dymunent, ayb.

Awgrymwyd y gallai rhwystrau cynllunio fod yn broblem wrth geisio sefydlu busnesau newydd, a gofynnwyd i ystyriaeth gael ei roi i hynny yn y Cynllun Economi. Nodwyd hefyd y dylid ail-edrych ar ddod â swyddi gwerth uchel i Lanbedr, ynghyd â Thrawsfynydd, yn sgil newid polisi Llywodraeth y DU. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y ceisid sicrhau ffyniant a swyddi yn y sir fydd yn creu cyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf fedru aros yn eu cymunedau, a'i bod yn allweddol

bwysig cael amrywiaeth o swyddi yn y sir sy'n gofyn am amrywiaeth o sgiliau gwahanol, fel nad ydym yn ddibynnol ar unrhyw un sector.

- Bod materion cynllunio yn destun trafodaeth sy'n mynd yn ôl ychydig ac y byddai'r Adran yn sicr yn cydweithio gyda swyddogion yn yr Adran Amgylchedd i drafod y manylion cyn dod yn ôl.

Nodwyd bod y mwyafrif o ffermwyr ifanc yn rhannau gwledig y sir ynghlwm â thwristiaeth, a heb dwristiaeth, fyddai yna ddim trefn ar amaeth chwaith. Nodwyd ymhellach y dylai'r Gwasanaeth Cynllunio a'r Adran Economi a Chymuned gydweithio yn agosach a chyfeiriwyd at sefyllfa cwmni oedd wedi penderfynu lleoli ym Mhowys yn hytrach na De Meirionnydd gan eu bod yn derbyn mwy o gefnogaeth yno. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai prinder safleoedd addas ar ochr Gwynedd i'r ffin oedd wedi arwain at benderfyniad y cwmni dan sylw i sefydlu ym Mhowys.
- Y cydnabyddid bod yna rwystrau, ond byddai'r Cynllun yn edrych ar y dosbarthiad gofodol ar draws y sir er mwyn sicrhau bod yna gyfleoedd teg ar draws Gwynedd, yn hytrach na'u bod wedi'u cronni mewn rhai ardaloedd yn unig.

Nododd yr aelod ymhellach, er yn cydnabod bod prinder tir yn ffactor yn yr achos dan sylw, bod angen i'r Gwasanaeth Cynllunio fod yn fwy hyblyg, neu fel arall, bydd mwy o swyddi yn cael eu colli i Bowys.

Nodwyd y byddai'n fuddiol petai'r Cynllun Economi yn cyfleu rhyw fath o ddarlun o'r cyfraniadau mwy cudd mae pobl yn wneud yn eu cymunedau sy'n cyfrannu i'r economi mewn ffyrdd gwahanol i fod yn gynhyrchol yn y farchnad lafur. Mewn ymateb nodwyd:-

- Na roddwyd sylw i gyfraniad ehangach pobl i gymdeithas yn y Cynllun hyd yma, ond gellid edrych ar sut i ymgorffori hynny o ran y darlun ehangach.
- Bod hynny hefyd yn codi'r cwestiwn ai cynllun datblygu'r economi ydyw, neu gynllun cymunedau llewyrchus, ac o bosib' bod angen ail-edrych ar bwrpas y Cynllun.

Nodwyd bod y maes economi yn hollbwysig i gymunedau Gwynedd, ond fel maes anstatudol, y byddai'n rhaid i'r Aelod Cabinet frwydo'n galed drosto yn y Cabinet yn erbyn meysydd eraill pwysig o waith y Cyngor.

Croesawyd y bwriad i roi ffocws ar gadw'r swyddi da sydd gennym yn y sir yn barod wrth geisio gwneud ymdrechion recriwtio oherwydd bod y swyddi hynny yn aml yn cael eu gweld fwy fel troed nodyn mewn adroddiad neu strategaeth economaidd, yn hytrach nag yn brif strategaeth y cynllun economaidd.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Bod y Pwyllgor yn craffu Cynllun Economi Gwynedd Drafft pan yn amserol yn ystod 2025/26.**

6. POLISI IAITH ADDYSG – Y DREFN YMGYSYLLTU

Adroddodd yr Aelod Cabinet Addysg fod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor i dderbyn adroddiad am y drefn ymgysylltu yng nghyd-destun y Polisi Iaith Addysg newydd. Nodwyd bod yr adroddiad yn crynhoi'r drefn ymgysylltu mewn perthynas â Pholisi Iaith Addysg.

Gosodwyd y cyd-destun gan nodi bod Gwynedd yn awdurdod lleol â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a'r ganran uchaf o bobl ifanc sy'n cael addysg drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog. Nodwyd bod newidiadau ieithyddol yn y sir, ynghyd â dylanwad Llywodraeth Cymru ar addysg yng Nghymru, yn ei gwneud hi'n amserol adolygu Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd, a thrafod pa elfennau sy'n gweithio'n dda a pha newidiadau neu addasiadau allai fod eu hangen.

Esboniwyd bod yr Adran Addysg wedi mynd ati yn yr adroddiad i egluro'r drefn a'r broses. Nodwyd bod nifer o sesiynau ymgysylltu wedi'u cynnal gydag ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ym mhob rhan o'r sir, a hynny mewn ardaloedd â gwahanol ganrannau siaradwyr Cymraeg. Cynhaliwyd cyfarfod ymgysylltu ar gyfer cynrychiolwyr megis Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol yr Iaith a RHAG (Cymdeithas Rhieni ac Athrawon dros Addysg Gymraeg). Nodwyd ymhellach bod cynrychiolaeth o aelodau'r Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Iaith a Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd hefyd wedi bod yn rhan o'r broses.

Mynegwyd mai'r bwriad yw creu Polisi Iaith cadarn ac addas i amgylchiadau Gwynedd, gan sicrhau bod modd adeiladu arno a'i ddatblygu yn y dyfodol. Nodwyd bod y gwir sefyllfa'n dangos bod yna lithriad yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc yn y sir. Nodwyd ymhellach bod angen atal hynny a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Adroddodd Meirion Prys Jones (Ymgynghorydd) bod 29 o sgysiauw wedi'u cynnal yn ystod y broses ymgysylltu ym mis Hydref, 2024 gydag ystod eang o gynrychiolwyr o'r maes addysg a rhieni. Nodwyd, yn sylfaenol, bod 10 cwestiwn i'w gofyn yn ystod y trafodaethau, ond bod cyfranogwyr yn rhydd i fynegi barn ar unrhyw fater yn ymwneud â Pholisi Iaith Addysg Gwynedd a chyflwyno awgrymiadau ar gyfer y dyfodol. Mynegwyd bod ymateb adeiladol a phositif wedi dod i law gan bob cyfranogwr, yn enwedig gan y disgyblion eu hunain.

Nodwyd mai prif gasgliadau'r ymgysylltiad yw bod y Polisi Iaith yn gweithio'n dda ac yn arwain at lwyddiant. Nodwyd bod pawb yn cefnogi'r Polisi Iaith, er nad oedd neb wedi'i ddarllen yn ddiweddar, gan arwain at fwy o 'ethos' a theimlad fod Polisi Iaith da'n bodoli, ond heb sicrwydd llwyr ynghylch beth sydd ynddo.

Amlygwyd bod hyn yn arwain at ddehongliad ac at weithredu gwahanol ar y Polisi Iaith o ysgol i ysgol, yn enwedig ymhlith ysgolion uwchradd. Nodwyd fod gwahaniaeth amlwg rhwng y sector cynradd a'r uwchradd, gyda'r Polisi'n gadarn yn y cynradd ond yn fwy amrywiol yn yr uwchradd. Ymhelaethwyd bod teimlad ymhlith y sector cynradd fod y sector uwchradd yn eu siomi o ran cynnal Cymreictod plant, gan nad yw hynny'n parhau'n ddigonol pan fyddant yn cyrraedd yr uwchradd.

Adroddwyd mai'r prif gasgliad yw bod angen Polisi Iaith cryno, clir a chadarn, a fydd yn nodi'n eglur beth sydd angen ei gyflawni, a bod angen monitro hynny wrth iddo fynd rhagddo.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Bennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn manylu ar y sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd gan Sian Eurig (Cydlunydd Strategaeth Iaith Uwchradd) a Meirion Prys Jones. Nodwyd bod yr adborth canlynol wedi'i dderbyn o'r sesiynau ymgysylltu ynghylch y Polisi Iaith presennol:

- Bod cefnogaeth i'r Polisi Iaith ac awydd i'w ddiwygio ar draws y sir.
- Bod dim adborth penodol am sut i ddiwygio'r Polisi.
- Bod teimlad o falchder tuag at y Gyfundrefn Addysg Drochi.
- Bod awydd cryf am newid, gan fod teimlad fod y Polisi'n perthyn i gyfnod pan oedd y Gymraeg yn gryfach yn y sir, ac felly wedi dyddio.
- Bod angen esblygu'r Polisi, nid chwyldro llwyr.

Tanlinellwyd y prif negeseuon a godwyd:

- Bod canmoliaeth i'r sector cynradd am gynnal y Gymraeg.
- Bod teimlad cyffredinol o lithriad pan fydd disgyblion yn symud o'r cynradd i'r uwchradd.
- Bod y cwestiwn wedi codi ynghylch ehangu capasiti Unedau Addysg Drochi.
- Bod llais dysgwyr o blaid y Polisi.
- Bod anghysondeb ymhlith ysgolion uwchradd o ran gweithredu'r Polisi, a dymuniad i'w gysoni.
- Bod Ysgolion Friars a Thywyn wedi'u crybwyll sawl gwaith, gan danlinellu'r angen i gynllunio'n strategol dros amser i sicrhau polisi effeithiol sy'n cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Bod angen gwell perchnogaeth gan yr ysgolion a mwy o atebolrwydd gan y Cyngor, gan fod galwad gryf am gryfhau grym yr Adran Addysg i fonitro hyn.

Amlygwyd prif themâu'r sesiynau ymgysylltu o ran y Polisi ei hun, yr angen am hyfforddiant, yr her o allu recriwtio i wireddu'r Polisi a'r angen i edrych yn ofalus ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a rôl y gymdeithas ehangach i gynnal hynny.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd bod ymdeimlad ymysg yr aelodau etholedig o'r Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Craffu nad yw'r Polisi presennol yn cynnig gwarchodaeth ddigonol i ddiogelu'r Gymraeg yn y sir. Nodwyd mai'r prif wendid yw nad yw'n bolisi sy'n cynnal defnydd iaith, heb sôn am gynyddu hynny, yng ngoleuni'r newidiadau demograffig. Nododd yr aelod ei fod yn weddol gadarn ei farn am y gwendid o ran dilyniant o un cyfnod addysg i'r llall, a cyfeiriwyd at yr angen am atebolrwydd i weithredu'r Polisi a monitro'i weithrediad. Cyfeiriwyd at ddiffyg gweledigaeth yng nghyswllt targedau'r sir i gynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn pynciau TGAU ac uwch fel a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), gan nodi y gallai monitro'r Polisi'n ofalus fod yn fodd o weld cynnydd dros amser.

Nodwyd bod rhai yn credu y dylai'r Polisi Iaith Addysg fod yn bolisi sy'n cyfeirio at y Gymraeg yn unig. Ymhelaethwyd y gallai hynny gefnogi penaethiaid, yn enwedig wrth wynebu ceisiadau gan rieni i newid cyfrwng pynciau ar ddiwedd Blwyddyn 9. Holwyd a ddylid ystyried cynnwys cyfeiriad at sut i sicrhau gweithlu digonol o fewn y Polisi, a'r angen i gyflwyno manteision a phwysigrwydd dwyieithrwydd, gan y bydd hynny'n cyfrannu at sicrhau gweithlu digonol yn y sir yn y dyfodol.

Nodwyd, o ran Ysgolion Friars a Thywyn, fod cytundeb y dylai Polisi Iaith Addysg Gwynedd fod yn bolisi cynhwysfawr, gan gynnwys yr ysgolion hyn, ond gyda chynlluniau clir i arwain unrhyw newid yn llwyddiannus. Ymhelaethwyd bod ymwybyddiaeth o heriau daearyddol yn Nhywyn o ran recriwtio, a'r angen i gynllunio'n fwy strategol tuag at newid.

Amlygwyd nad oedd unrhyw awgrym na datrysiad pendant ynghylch sut y dylai unrhyw bolisi diwygiedig edrych, petai'n cael ei addasu. Mynegwyd mai'r neges glir yw bod angen newid, a bod angen Polisi sy'n sicrhau caffael iaith ac sy'n gorseddu'r iaith lafar oddi mewn iddo.

Holwyd sut y gellid llwyddo i gadw cymunedau mor Gymraeg â phosibl ledled y sir, a nodwyd fod angen strategaeth i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ar rieni i hybu ac annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol a thu hwnt. Nodwyd, yng nghyd-destun categorïddio ysgolion, fod sylwadau am yr angen i sicrhau dealltwriaeth o'r diffiniadau er mwyn cael gwaelodlin gadarn i unrhyw bolisi, ac i'r Cyngor ystyried beth arall ellir ei gyflawni o fewn y diffiniadau hynny.

Diolchwyd am y cyflwyniad. Mynegwyd balchder ar ran cynrychiolwyr o'r Pwyllgor a'r Pwyllgor Iaith am gael cyfle i roi mewnbwn. Nodwyd mai argraff gyntaf yr aelodau oedd y byddent yn rhan o greu'r Polisi newydd ond yn y cyfarfod, deallwyd nad hyn oedd y bwriad. Mynegwyd bodlonrwydd fod crynodeb wedi'i wneud o'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod ymgynghori, gan ofyn a fyddai'n bosibl cyhoeddi'r cofnodion hyn yn gyhoeddus a'u hatodi i'r adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor fel bod modd gweld y sylwadau.

Amlygwyd barn nad oedd yr ymgynghori a wnaed gyda'r ysgolion cynradd yn cynrychioli'n ddigonol yr ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf Cymraeg yn Arfon, Meirionnydd a Dwyfor.

Nodwyd fod gofyn cael strategaethau gwahanol ar gyfer ysgolion Dalgylch Tywyn ac ardal Meirionnydd yn gyffredinol, gan fod yr ysgolion hynny'n dymuno bod yn fwy uchelgeisiol, gan eu bod wedi'u hadnabod o ddifri fel categori un o'r categorïau cyfredol. Mynegwyd, wrth lunio un strategaeth ar gyfer pob ysgol, nad oes modd caniatáu i rai ysgolion fod mor uchelgeisiol ag y gallent fod.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad a oedd yn nodi'r casgliad bod angen "esblygu'r polisi" yn hytrach na chwyldro. Tanlinellwyd bod hyn yn cyd-fynd â'r pwynt nad yw pobl yn ymwybodol o'r polisi cyfredol ac yn teimlo nad yw'n ddigon clir. Mynegwyd bod hynny'n arwydd bod angen ailwampio'r Polisi Iaith yn llwyr, nid ei esblygu'n raddol. Nodwyd, yn ystod y sesiwn ymgynghori gyda Meirion Prys Jones, fod sylwadau pendant wedi'u cyflwyno ynglŷn â geiriad y polisi.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd:

- Bodlonrwydd i gynnwys cofnodion y sesiynau ymgysylltu i'r cyfarfod nesaf.
- Bod y sesiynau sy'n cael eu cyfeirio atynt yn rhai ymgysylltu, gyda'r bwriad o dynnu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosib at ei gilydd.
- Bod y wybodaeth o'r sesiynau ymgysylltu'n cael ei defnyddio i lunio'r Polisi Iaith, a wedyn bydd ymgynghori arno.
- Bod yr ysgolion wedi'u dewis er mwyn sicrhau croestoriad o'r ysgolion yng Ngwynedd.
- Ei fod wedi bod yn her i gael penaethiaid i fynychu cyfarfodydd ymgysylltu. Felly, bod cais wedi'i wneud i'r ffederasiwn i ofyn iddynt ddod â'u dalgylchoedd at ei gilydd i benderfynu pwy fyddai'n eu cynrychioli.
- Bod pob pennaeth wedi cael cyfle i fynegi barn o fewn eu dalgylchoedd, ac yna bod cynrychiolydd wedi cyflwyno'r safbwyntiau hynny yn y cyfarfodydd ymgysylltu.

Cyfeiriwyd at erthygl Golwg 360 a oedd wedi ei gynnwys yn y rhaglen fel Atodiad 3, sy'n awgrymu bod llai o le i addysg a mwy o le i bethau eraill, ond wrth ddarllen yr erthygl mae'n ymddangos ei bod yn cyfeirio at Gymru yn gyffredinol, nid ardaloedd sy'n gadarnleoedd ieithyddol fel Gwynedd. Mynegwyd bod cynnwys yr erthygl yn awgrymu bod penderfyniad wedi'i wneud ymlaen llaw. Mynegwyd barn na ddylai'r erthygl fod wedi ei gynnwys.

Cyfeiriwyd at sylwad yn y cyflwyniad ynglŷn â rôl ehangach y gymdeithas i gynnal y Gymraeg, sy'n gyson â'r penderfyniad i gynnwys yr erthygl. Nodwyd bod dealltwriaeth fod sawl elfen ynghlwm â chynnal y Gymraeg, nid addysg yn unig, ond gan ein bod yn trafod Polisi Iaith Addysg, mae angen canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ni ddylanwadu arno fwyaf. Nodwyd bod ganddynt rym absoliwt bellach ynghylch y Polisi Iaith, ond nad oes ganddynt rym tebyg dros elfennau eraill a grybwyllwyd. Mynegwyd pryder ynghylch gordddefnyddio geiriau fel "balchder" ac "agweddau," gan nodi bod angen canolbwyntio ar yr hyn y mae pobl yn ei wneud, ac nid ar eu hagweddau yn unig. Nodwyd bod angen mwy o ddewrder yn y maes hwn.

Mewn ymateb, mynegwyd anghytundeb â thermau fel "grym absoliwt," gan nad yw'r Adran Addysg yn gorfodi plant i siarad unrhyw iaith. Nodwyd bod meithrin agwedd bositif ymhlith plant a rhieni tuag at y Gymraeg yn bwysig i'w hybu i ddewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhelaethwyd bod cynlluniau'n mynd rhagddynt yn ardal Bro Dysynni a Bangor er mwyn meithrin agwedd bositif ymysg plant a rhieni at y Gymraeg. Derbyniwyd bod angen cyfuno agwedd bositif â pholisi cryf a chadarn. Nodwyd bod rôl gan yr Adran Addysg i feithrin dinasyddion cydwybodol a byd-eang. Nodwyd nad oedd bwriad llywio barn neb drwy gynnwys yr erthygl, a'i bod wedi'i chynnwys er mwyn dangos cyd-destun yn unig.

Cyfeiriwyd at adroddiad gan ESTYN sy'n nodi bod prinder athrawon mewn sawl maes, gan gynnwys Cymraeg. Nodwyd bod ysgolion fel Tywyn yn cael anhawster cael athrawon i ddysgu meysydd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly'n dibynnu ar athrawon Saesneg i lenwi'r swyddi. Cwestiynwyd beth mae'r

adroddiad yma'n mynd i'w wneud am hyn. Cwestiynwyd a fydd y sefyllfa hon yn peri i rai plant beidio â siarad Cymraeg o gwbl.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod problem recriwtio yn her gynyddol a chenedlaethol.
- Bod gwaith yn digwydd gydag ysgolion trosiannol i sicrhau bod y gweithlu'n cael mynediad at wersi Cymraeg, a'u cefnogi i gyflwyno pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bod y tîm yn edrych ar ddadansoddiad o lefel ieithyddol y gweithlu yn yr ysgolion trosiannol, a'u bod yn cydweithio gyda'r Athrofa Genedlaethol i deilwra a darparu cyrsiau gloywi, cyrsiau codi hyder a chysiau Cymraeg o'r cychwyn i ddechreuwr.
- Bod athrawon o'r ysgolion trosiannol wedi ymgeisio am gyrsiau sabothol i ddysgu Cymraeg.

Mewn ymateb i sylw bod Ysgol Friars wedi ei eithrio, cadarnhawyd nad oedd Ysgol Friars wedi ei eithrio o weithredu yn unol â'r Polisi Iaith. Ymhelaethwyd y bydd yna Bolisi Iaith ar gyfer y sir gyfan, gan gydnabod sefyllfaoedd gwahanol rhai ysgolion fel Friars a Thywyn o fewn y Polisi, a chreu cynllun gwahanol ar gyfer y Gymraeg yn y ddwy ysgol hon ac un arall. Nodwyd bod awgrym gan rai cyfranogwyr yn y cyfarfodydd ymgysylltu a oedd yn adlewyrchu'r farn honno.

Mynegwyd siom mai dim ond rhagflas o wybodaeth yw'r adroddiad hwn. Cytunwyd bod cynnwys yr erthygl wedi rhoi gogwydd anffodus ar y drafodaeth. Mynegwyd ansicrwydd ynghylch cael strategaeth unigol i wahanol ysgolion. Nodwyd yr angen gwirioneddol i fonitro'r Polisi Iaith yn y dyfodol. Mynegwyd pryder ynghylch y term 'gorseddu iaith lafar', gan nad yw'n golygu dim ond un rhan o'r darlun. Pwysleisiwyd bod hwn yn Bolisi Iaith Addysg a bod plant ond yn cael un cyfle i ennill gafael ar y Gymraeg yn iawn, ac felly mae angen cyflwyno iaith o ansawdd uchel i feithrin perthnasedd a balchder. Mynegwyd nad oedd dim o hyn yn dod i'r amlwg o'r rhagflas o'r Polisi Iaith newydd. Nodwyd nad oes amser i gael esblygiad graddol. Mynegwyd gobaith y byddai'r Polisi Drafft yn fwy addawol na'r hyn a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Mai un Polisi Sirol fydd y Polisi Iaith newydd, gyda manylder a chynlluniau unigol ar gyfer pob ysgol.
- Nad yw'r Polisi yn gwahaniaethu, a bod yr awydd a'r uchelgais yr un fath i'r Sir, ond y bydd cynlluniau unigol i'r ysgolion, fel y gallant ddangos dros amser sut maent yn cyflawni'r Polisi.
- Bod monitro yn mynd i fod yn allweddol i weithredu'r Polisi, a bod diffyg monitro wedi'i adnabod fel gwendid yn yr ymgysylltu.
- Mai aelod etholedig wnaeth y sylw ynglŷn â 'gorseddu iaith lafar'.

Holwyd a fwriedir rhoi sylw penodol i ddulliau monitro. Cwestiynwyd a fyddai gan yr ysgolion hawl i osod targedau gwelliant eu hunain o fewn y cynlluniau unigol a llunio Polisi Iaith unigol.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Nad yw'r Polisi Iaith, yn ei ffurf bresennol, yn Bolisi y mae'r Adran yn gallu mynnu i ysgolion ei ddilyn, ond y bydd y Polisi Iaith newydd yn orfodol.
- Bod angen rhoi cynllun unigol i helpu'r ysgolion gyrraedd targedau a'u monitro yn erbyn hynny.
- Bod angen gosod yr uchelgais o fewn y Polisi, nodi'n glir beth yw'r cynlluniau, cael cynlluniau i gefnogi ysgolion i gyrraedd y nod a monitro bod ysgolion yn cadw at y cynlluniau strategol.
- Bod y mater hwn wedi dod gerbron y Pwyllgor er mwyn adrodd ar ble y cyrhaeddwyd yn y broses ac i fod mor dryloyw â phosibl.

Ategwyd y pwynt a wnaed ynglŷn â chael mynediad at gofnodion y cyfarfodydd ymgysylltu.

Mynegwyd cefnogaeth i gryfhau'r Polisi hwn. Pwysleisiwyd bod defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn hollbwysig. Nodwyd bod cyfrifoldeb ar y Cyngor i gryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Nodwyd bod cyfrifoldeb ar bawb o ran defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan gynnwys unigolion ac aelodau etholedig, i gefnogi dysgwyr y Gymraeg mewn cymunedau a magu agwedd gadarnhaol. Nodwyd ymhellach fod gan bobl sy'n magu plant, neu'n ymwneud â phlant, gyfrifoldeb i wahodd plant o gefndiroedd di-Gymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden gyda phlant sy'n siarad Cymraeg.

Cwestiynwyd os oes gwersi wedi'u dysgu o'r peilot ym Mangor sy'n ymwneud â phontio'r Cynradd a'r Uwchradd a allai ein helpu i wneud y pontio'n fwy llwyddiannus.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Adnabuwyd bod yna ysgolion yn nalgylch Bangor a Thywyn yn benodol lle mae iaith y plant yn syrthio i lefel C1, hynny yw, bod eu Saesneg yn gryfach na'u Cymraeg.
- Yn cydweithio â chwmni'r Frân Wen i roi cyfleoedd i blant ddefnyddio'u Cymraeg a chael hyder yn eu Cymraeg ar lafar o fewn y prosiect ym Mangor a Thywyn.
- Bod y prosiect hwn wedi mynd o nerth i nerth dros y drydedd flwyddyn.
- Bod ysgolion yn adrodd bod y plant yn datblygu hyder yn y Gymraeg a'u bod hefyd yn gweld hwb Cwmni'r Frân Wen yn Nyth ym Mangor fel canolfan y tu allan i oriau ysgol i ddefnyddio'u Cymraeg.
- Bod yr adborth o'r peilot yn gadarnhaol iawn.
- Bod gobaith parhau ac ymestyn y cyfleoedd hyn er mwyn sicrhau dilyniant a chynnal continwwm iaith, fel na fydd llithriad.

Diolchwyd am y cyflwyniad a mynegwyd gobaith gweld y cofnodion llawn o'r sesiynau ymgysylltu. Nodwyd nad oedd dim byd annisgwyl wrth weld y prif gasgliadau. Mynegwyd gobaith y bydd crynhoad o awgrymiadau personol Meirion Prys Jones fel arbenigwr caffael iaith ynglŷn â'r ffordd orau i fwrw ymlaen â chreu Polisi Iaith yng Ngwynedd.

Mynegwyd bod Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn wan oherwydd bod Ysgolion Friars a Thywyn o fewn y Polisi Iaith, ond bod neb yn dilyn pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw am Gymraeg ei hun. Nodwyd bod y ffaith bod y Polisi'n caniatáu hynny yn dangos pa mor wan ydyw. Ymhelaethwyd bod y Polisi'n dyddio'n ôl i ddyddiau'r hen Gyngor Gwynedd, ac nad yw wedi newid llawer ers hynny, a'i hanfod yw, os nad yw rhywun yn teimlo'n abl i wneud pethau drwy'r Gymraeg, does dim rheidrwydd iddynt wneud hynny.

Mynegwyd gyda'r holl ymgynghori bod tuedd i golli golwg ar y pwynt dan sylw, sef cryfhau Polisi Iaith Addysg Gwynedd mewn ardal lle mae'r iaith yn dal yn fyw ac yn gryfach nag mewn rhannau eraill o Gymru. Ymhelaethwyd bod angen ceisio'i gryfhau gymaint â phosibl, a bod angen newid llwyr. Nodwyd bod Gwynedd yn meddu ar y demograffeg a'r adnoddau staffio i gyflwyno'r newid hwn – dewrder sydd ei angen.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Bod y Pwyllgor yn craffu'r Polisi Iaith Addysg Drafft a'r Strategaeth i gefnogi gweithredu'r polisi yng nghyfarfod 10 Ebrill 2025.**
- 3. Gofyn am gopi o gofnodion perthnasol y cyfarfodydd ymgysylltu.**
- 4. Gwahodd aelodau'r Pwyllgor Iaith i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ar gyfer yr eitem.**

7. CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI

Gosododd yr Aelod Cabinet Addysg y cyd-destun. Nodwyd bod y Cabinet wedi penderfynu yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2021 ei fod yn amserol i ad-drefnu'r canolfannau hyn a chreu Cyfundrefn Addysg Drochi newydd. Esboniwyd bod y Pwyllgor wedi mynegi dymuniad i graffu y gyfundrefn newydd ar ôl iddi gael cyfle i wreiddio. Eglurwyd bod yr Adran Addysg wedi penderfynu penodi tîm ymchwil o Brifysgol Bangor i werthuso'r Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd. Ymhelaethwyd bod y tîm hwn wedi cynnal ymweliadau ac wedi siarad â rhanddeiliaid, a bydd yn adrodd yn ôl cyn bo hir gyda'i gasgliadau.

Cwestiynwyd sut y dewiswyd y tri chyfranogwr ar gyfer yr astudiaeth achos, a beth oedd y meini prawf. Nodwyd, mewn ymateb, mai'r brifysgol a ddewisodd y tri. Eglurwyd bod hyn yn dibynnu ar ganiatâd rhieni a'u bod wedi'u dewis ar hap, sy'n ddull gwyddonol o ddewis cyfranogwyr mewn astudiaethau achos. Ymhelaethwyd bod y cyfranogwyr yn dod o wahanol ganolfannau trochi.

Mynegwyd diddordeb i gael copi o'r ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb a luniwyd pan newidiwyd i'r gyfundrefn newydd. Mynegwyd pryder ynglŷn â gogwydd a ffocws yr adroddiad a'r penderfyniad cychwynnol i leihau o bum niwrnod trochi i bedwar. Nodwyd bod y ffocws, heb eithriad, ar yr unigolion sy'n mynd drwy'r system drochi, heb sôn am ymgynghori â rhieni, dysgwyr eraill yn yr ysgol, na'r gymdeithas ehangach nac aelodau etholedig. Mynegwyd bod y penderfyniad, yr adroddiad a'r ymchwil arfaethedig yn drwyadl neo-ryddfrydol ei ideoleg.

Eglurwyd, mewn ymateb, bod y gwaith ymchwil hwn yn benodol yn edrych ar y goblygiadau i blant sy'n mynd drwy'r system drochi, ond bod y pwynt ynglŷn â'r effaith ar ysgolion yn cael ei dderbyn, a sgysiau wedi'u cynnal gyda phenaethiaid ynglŷn â'r mater hwn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr Adran Addysg yn barod i gryfhau neu newid y trefniadau mewn ymateb i argymhellion, ond eu bod yn disgwyl gweld beth fydd yr adroddiad yn ei ddweud cyn dod i unrhyw gasgliadau. Tanlinellwyd nad oedd unrhyw ymdrech wedi'i wneud i guddio dim, ac o ran ystyried adroddiadau a luniwyd dros gyfnod, mynegwyd bod mwy na digon o awydd i weld beth fu'r effaith. Nodwyd bod y pwynt ynglŷn â goblygiadau cydraddoldeb yn cael ei dderbyn, a bod ei ehangder o bosibl yn fwy na'r disgwyl mewn adroddiadau arferol.

Ymatebodd yr aelod gan nodi bod disgwyl y byddai ymchwil wedi ei wneud cyn gwneud y penderfyniad i leihau dyddiadau addysg drochi. Nodwyd ei bod, o safbwynt lleygwr, yn ymddangos fel penderfyniad cyllidol.

Nodwyd o ystyried bod y penderfyniad i ailwampio'r canolfannau trochi wedi'i wneud er mwyn cael darpariaeth o ansawdd uchel, bod y nifer o athrawon wedi'u cwtogi o ddau athro i bob canolfan i un athro ac un cymhorthydd, a gostyngwyd y nifer o ganolfannau, gan newid o bum niwrnod trochi i bedwar. Mynegwyd nad yw'r math hwn o drochi yn ddwys os nad yw'n bum niwrnod. Nodwyd bod anhawster i athrawon wrth raglennu ar gyfer plant sy'n mynd i'r canolfan am bedwar diwrnod o drochi ac yn dychwelyd i'r ysgol am un diwrnod yr wythnos. Amlygwyd y nodir yn Atodiad 1 bod llawer o weithgareddau ymarferol megis chwaraeon ar ddydd Gwener yn yr ysgolion, ond wrth holi, nodwyd nad yw hyn yn digwydd. Nodwyd bod plant yn derbyn deunyddiau ar eu cyfrifiaduron gan y ganolfan, ond eithaf anaml mae'r uned iaith yn ymweld i archwilio a yw'r plentyn yn iawn. Cwestiynwyd a yw hyn yn wirioneddol fuddiol i'r plentyn sy'n cael ei drochi.

Nodwyd bod rhai plant, wrth fynd yn ôl i'r ysgol am un diwrnod yr wythnos, yn teimlo'n nerfus ynglŷn â'u gallu i ddilyn pethau. Cadarnhawyd bod y ffaith hon, o ganlyniad, yn gallu arwain at athrawon yn siarad mwy trwy gyfrwng y Saesneg, gan newid arferion ieithyddol y dosbarth yn llwyr. Mynegwyd bod hyn heb ei fesur o gwbl yn yr ymgynghoriad. Ymhelaethwyd y credir nad oedd y cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r ymchwil yn caniatáu i bobl fynegi sylwadau ar effaith y trefniadau ar weddill y plant na'u harferion ieithyddol. Mynegwyd bod hyn yn fater sy'n peri pryder.

Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y gwerthusiad o'r gyfundrefn yn rhoi ffocws clir ar integreiddio'r diwrnod pontio'n ôl i'r prif lif. Nodwyd bod staff yr ymchwil wedi dilyn y plant yn ystod yr wythnos gyntaf yn yr unedau trochi, ac ar y Dydd Gwener, gan hefyd arsylwi diwedd cyfnod y plant ar y cwrs er mwyn cymharu lefel eu hyder. Ymhelaethwyd bod y tîm wedi dilyn y plant yn y prif lif i asesu effaith y pontio arnynt, faint o ddefnydd iaith sydd ganddyn nhw yn yr ysgolion a beth yw'r effaith ar yr ysgolion.

Dymunwyd gweld unrhyw ddogfennau perthnasol ynglŷn â sut y penderfynwyd cwtogi'r dyddiau trochi.

Mynegwyd siom ynglŷn â'r sylwadau a fynegwyd am y newidiadau i'r drefn addysg drochi. Nodwyd er bod ystyriaethau cyllidol yn berthnasol i bob gwasanaeth, llwyddwyd i ddenu llawer mwy o gyllid nag a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth hwn. Amlygwyd mai'r prif reswm dros adolygu'r drefn oedd nad oedd wedi newid ers ei sefydlu yn 1984, a'i bod erbyn hyn wedi dyddio ac yn aneffeithlon. Croesawyd yr adolygiad hwn a mynegwyd gobaith y bydd yn dangos y ffordd ymlaen ac yn cyfarch y sylwadau negyddol. Tanlinellwyd barn y bydd y ffordd newydd yn llawer mwy effeithiol.

Mynegwyd y farn gan un aelod nad oedd trochi 80% o'r amser yn ddigonol, a'u bod yn credu ein bod yn cymryd cam yn ôl wrth ganiatáu hynny. Cyfeiriwyd at yr holiadur i rieni a'r cwestiynau, gan nodi bod yr Adran Addysg yn chwilio am atebion i gyfiawnhau'r hyn y mae'r Cyngor eisiau ei wneud, heb fod hynny'n gwbl wrthrychol. Mynegwyd siom bod athrawon yn gorfod ymdopi â mwy o bwysau gwaith ar ddydd Gwener.

Nodwyd, mewn ymateb, nad yw'r trochi'n gyfan gwbl llwyr beth bynnag, gan fod plant gartref dros y penwythnos. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o ysgolion yng Ngwynedd yn cynnwys canran uchel o blant sy'n defnyddio Saesneg ar iard yr ysgol, ac nad ydynt yn blant sy'n mynd i'r canolfannau trochi'n unig. Derbyniwyd y pwynt bod rhyddhau plant o'r canolfannau trochi ar ddydd Gwener yn gallu bod yn anghyfleus i athrawon, yn enwedig o gofio'r llwyth gwaith sydd ganddynt. Mynegwyd gwerthfawrogiad tuag at athrawon sy'n barod i addasu cynlluniau a gwaith ar gyfer lefelau gwahanol o allu plant. Mynegwyd awydd i dderbyn yr adroddiad fel bod modd ystyried y mater mewn modd gwyddonol. Nodwyd pryder ynglŷn â'r naws a fynegwyd mewn perthynas â'r newidiadau, gan bwysleisio'r rôl bwysig sydd gan gymorthyddion o fewn canolfannau trochi.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
- 2. Bod y Pwyllgor yn craffu Cynllun Gweithredu Argymhellion Gwella'r Gyfundrefn Addysg Drochi yng nghyfarfod 10 Ebrill 2025.**

8. BRÏFF YMCHWILIAD CRAFFU TREFNIADAU DIOGELU MEWN YSGOLION

Nodwyd y craffwyd ar drefniadau diogelu mewn ysgolion yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024. Cafwyd trafodaeth anffurfiol ar ôl y cyfarfod ynghylch y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen neu Ymchwiliad Craffu i'r maes. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 5 Medi 2024. Mynegwyd pryder gan yr aelodau a oedd yn bresennol ynghylch gweithredu'r trefniadau diogelu o fewn ein hysgolion. Ystyriwyd brïff drafft ar gyfer yr ymchwiliad craffu yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Ionawr 2025.

Nodwyd mai'r prif gwestiwn y bydd yr ymchwiliad yn ei gyfarch yw: "A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson?". Nodwyd bod yr ymchwiliad yn bwriadu ystyried trefniadau cyfredol yr awdurdod o ran diogelu mewn ysgolion, ynghyd â threfniadau mewn sampl o ysgolion.

Gwahoddwyd aelodau, yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Ionawr 2025, i fynegi diddordeb i fod yn aelodau o'r ymchwiliad. Daethpwyd i'r casgliad y dylid anfon e-bost at holl aelodau'r Pwyllgor er mwyn gofyn iddynt nodi pa gyrff llywodraethu ysgolion maent yn aelodau ohonynt. Pwysleisiwyd yn yr e-bost y byddai'n ofynnol i aelodau sicrhau eu bod wedi cwblhau'r "Hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion" er mwyn bod yn rhan o'r ymchwiliad.

Nodwyd y gall uchafswm o bump aelod fod yn rhan o'r ymchwiliad ac, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bod gofyn i'r aelodaeth gynnwys cynrychiolaeth o ddim llai na dau grŵp gwleidyddol gwahanol. Trafodwyd, o ystyried ei fod yn fater addysg, y byddai'n briodol i'r aelodaeth gynnwys un aelod cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig.

PENDERFYNWYD

1. Mabwysiadu'r briff.

2. Ethol yr aelodau canlynol i ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad:

- Y Cynghorwyr Dawn Lynne Jones, Cai Larsen, Gwynfor Owen, John Pughe Roberts a Dyfrig Siencyn
- Aelod Cyfetholedig - Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon)
- Aelod wrth gefn - Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 1.00yp

Cadeirydd

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	10fed o Ebrill, 2025
TEITL	Gwasanaeth Ieuenctid
RHESWM DROS GRAFFU	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory.
AWDUR	Steffan Williams- Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid
AELOD CABINET	Y Cyng. Dewi Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

- 1.1 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu gwasanaeth pwysig i bobl ifanc y Sir.
- 1.2 Craffwyd gwaith y gwasanaeth gan y Pwyllgor Craffu Gofal ar 10 Tachwedd 2022, cyn i'r gwasanaeth symud i fod o dan yr Adran Addysg. Bu i'r Pwyllgor graffu datblygiadau yn y maes yn dilyn ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn 2018.
- 1.3 Mae 'Ymestyn Cyfleoedd Chwarae' yn brosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Bwriedir adolygu sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer ieuenctid yn cael ei weithredu ar draws y Sir gan adnabod a gwerthuso'r deilliannau y mae'n ei chyflawni i bobl ifanc Gwynedd.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- Casgliadau'r gwerthusiad
- Beth yw barn pobl ifanc am y ddarpariaeth?
- Ydy'r gwasanaeth yn cyfarch y galw?
- Pa gyfleoedd cyllidebol newydd sydd ar gael i ddatblygu'r gwasanaeth?

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

- 3.1 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor o fewn prosiect Gwynedd Yfory- '*Sicrhad fod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.*'
- 3.2 Mae angen y Pwyllgor Craffu i rhoi arweiniad ar gyfeiriad gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid yn y dyfodol i drafod os ydyw dal yn cyfarch anghenion pobl ifanc Gwynedd ac yn cyflawni ei hamcanion yn dilyn yr ailstrwythuro yn 2018.
- 3.3 Ers yr ailstrwythuro yn 2018, mae newidiadau sylweddol wedi digwydd o ran COVID, dulliau gweithio, ffrydiau cyllido, a disgwyliadau polisi, gan gynnwys pwyslais cynyddol ar lesiant ieuenctid, cydraddoldeb cyfleoedd, a darpariaeth sy'n ymateb i anghenion lleol. Mae'n hanfodol bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn asesu effaith y newidiadau hyn, gan dderbyn arweiniad gan y Pwyllgor Craffu, er mwyn sicrhau bod ansawdd a hygyrchedd y Gwasanaeth yn parhau i gynnig cefnogaeth berthnasol ac effeithiol i bobl ifanc.

3.4 Mae anghenion pobl ifanc wedi parhau i esblygu dros y blynyddoedd, yn enwedig wrth ystyried ffactorau megis effaith y pandemig, heriau iechyd meddwl, a'r newidiadau yn y dirwedd addysg a chyflogaeth. Mae hyn yn golygu bod angen adolygu'r ddarpariaeth yn gyson i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu'r realiti y mae pobl ifanc yn ei brofi.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Penderfynodd y Cabinet ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuencid yn 2018. Aethpwyd ati i ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuencid i sefydlu'r model newydd o'r 1af o Fedi 2018. Sefydlwyd y strwythur canlynol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid nol yn 2019:


- Darparu Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau Gwaith Ieuencid i bobl ifanc 11-19 oed drwy'r ysgolion (14 ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig) drwy Dîm Cymorth Ieuencid 11-19 oed gyda 8 o Weithwyr Ieuencid llawn amser.
- Darparu Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiect Cymdeithasol i bobl ifanc 11-19 oed mewn cymunedau gydol y flwyddyn, wrth symud o le i le. Cyflawnir y gwaith yma gan y Tîm Gwaith Ieuencid Cymunedol gyda 37 o staff rhan amser.
- Cefnogi Cynghorau cymuned a thref i sefydlu Clybiau Ieuencid Cymdeithasol i bobl ifanc yn ôl y galw. Cyflawnir y gwaith hwn gan y Tîm Gwaith Ieuencid Cymunedol gyda 24 o staff rhan amser.
- Darparu Cefnogaeth bersonol i bobl ifanc 16-25 oed sy'n wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu gydag addysg, hyfforddiant neu waith, drwy'r Tîm Cymorth Ieuencid 16-25 oed, gyda 5 Gweithiwr Ieuencid Llawn Amser.
- Comisiynu'r 3ydd Sector i gynnal gweithgareddau, prosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuencid yn ôl yr angen.

4.2 Gyd-Destun Ddeddfwriaethol

4.2.1 Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor o fewn prosiect Gwynedd Yfory- '*Sicrhad fod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.*' Mae'r gwasanaeth yn gweithio i greu gofodau diogel i bobl ifanc, cynnig cyfleoedd dysgu ac antur, a datblygu gweithgareddau cymunedol a chystadlaethau i hyrwyddo sgiliau a chydlyniant cymdeithasol

4.2.2 Mae darparu Gwasanaethau Cymorth Ieuencid yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000. Mae Llywodraeth Cymru (LLC) yn cyfeirio awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau darpariaeth neu gyfranogi yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth Ieuencid. Mae LLC yn gwneud hyn ar gyfer Gwaith Ieuencid a Gwasanaethau Ieuencid Awdurdodau Lleol drwy "Cyfarwyddyd a Chanllawiau Ymestyn Hawliau (2002)", Strategaeth Gwaith Ieuencid Cymru 2019; Fframwaith Ymgysylltu a Chyflawniad 2022; Cwricwlwm i Gymru a'r Siarter Ieuencid 2016.

4.2.3 Mae darpariaeth y Gwasanaeth Ieuencid hefyd yn cyfrannu at strategaethau eraill fwy eang Llywodraeth Cymru- Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024, Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026, Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac Grant Cymorth Tai.



4.2.4 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn y broses o ymgynghori i gryfhau canllawiau statudol gyda chyfarwyddyd statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Bydd y fframwaith statudol hwn yn ymgorffori'r elfennau allweddol canlynol:

- diffiniad o waith ieuenctid fel rhan o wasanaethau cymorth ieuenctid ehangach.
- cyflwyno hawlogaeth gwaith ieuenctid newydd i bobl ifanc
- mecanwaith cynllunio ac adrodd strategol diwygiedig ar gyfer gwaith ieuenctid.

4.2.5 Mae Estyn bellach wedi dechrau arolygu Gwaith Ieuenctid fel rhan o'i broses fonitro cenedlaethol i asesu ansawdd a darpariaeth gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Nod yr arolygiad yw gwerthuso pa mor effeithiol y mae gwasanaethau ieuenctid yn cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc. Bydd yr arolygwyr yn ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys hygyrchedd gwasanaethau, effaith gweithgareddau ar les a datblygiad sgiliau pobl ifanc, ac ansawdd arweinyddiaeth a llywodraethiant. Bydd yr adborth a'r canfyddiadau yn llywio datblygiad strategol gwasanaethau ieuenctid yn y dyfodol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth orau bosibl.

4.2.6 Mae holl ddarpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid wedi ei selio ar y model "5 Ffordd at Les" ar gyfer sicrhau fod ei holl weithgareddau, prosiectau ac ymyraethau yn adeiladu gwydnwch personol a hyrwyddo llesiant emosiynol pobl ifanc. Drwy grant mae gan y Gwasanaeth Weithiwr Ieuenctid lechyd a Lles er mwyn arwain ar y gwaith yma a sicrhau fod y timau darparu i gyd yn cyfarch y 5 ffordd at les yn yr hyn maent yn ei wneud o ddydd i ddydd.

4.3 Ffynonellau Cyllid eraill:

4.3.1 I ategu'r cyllid craidd mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei dderbyn yn fewnol yn y Cyngor, mae canran o gyllid y gwasanaeth yn dod o'r Grant Cymorth Ieuenctid-Llywodraeth Cymru (ffigwr 2025-26; £449,314), lleihad o 6.75% o'r flwyddyn flaenorol. Y mae'r cyllid yma wedi cael ei gadarnhau mewn egwyddor tan ddiwedd Mawrth, 2028. Mae'r cyllid efo amodau a blaenoriaethu sydd wedi cael eu hadnabod gan Lywodraeth Cymru;

- Gweithrediad y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd
- Iechyd Meddwl a Lles emosiynol drwy ddulliau gwaith ieuenctid
- Digartrefedd ymysg pobl ifanc

4.3.2 Yn ychwanegol i'r cyllid uchod, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei gomisiynu gan gynghorau tref (9 ardal) i arwain ar ddarpariaeth gymunedol yn ei chlwstwr. Mae'r ddarpariaeth yma yn ychwanegol i ein cynnig statudol, gyda'r ffocws ar ddarparu lleoliadau diogel i bobl ifanc gael cymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau llesol. Mae'r gwasanaeth yn agored i gyd-weithio gyda chynghorau tref eraill o gwmpas y sir sydd eisiau cynnig darpariaeth gymunedol yn ei hardal leol ond mae yn sialens barhaus i recriwtio staff rhan amser i arwain ar y ddarpariaeth yma.

4.3.3 Mae Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd yn cydweithio gyda Thîm Cyfiawnder Ieuenctid y Cyngor i ariannu swydd Gweithiwr Ieuenctid Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar fel rhan o brosiect 'Be Di'r Sgôr?'. Mae'r ddarpariaeth hon, sydd ar gael i bob person ifanc ar draws y sir, yn darparu cymorth hanfodol i leihau risgiau ac atal pobl ifanc i faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Trwy gyfuniad o wybodaeth, cyngor, gwaith wedi'i dargedu a chefnogaeth arbenigol, mae'r gwasanaeth yn ymateb i anghenion unigol pobl ifanc, gan eu helpu i wneud penderfyniadau cadarnhaol a datblygu sgiliau bywyd. Mae'r cydweithio hwn yn enghraifft o sut mae gwasanaethau yn integreiddio i greu cyfleoedd a chymorth effeithiol i bobl ifanc yng Ngwynedd.

4.3.4 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn cyllid drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig sydd yn ariannu un Gweithiwr Arweiniol Cymorth Ieuenctid 16-25 oed ychwanegol i gynyddu'r adnodd i ymateb i anghenion y pobl ifanc yma.

4.4 Dyfodol a'n Heriau

4.4.1 Mae recriwtio staff i weithio ar ein darpariaeth gymunedol dal yn her fawr i'r gwasanaeth. Yr ydym wedi trio diwallu hyn drwy addasu y ffordd yr ydym yn hyrwyddo'r swyddi ac wedi mynychu nifer o ffeiriau swyddi, ond yn dal yn gweld yn sialens yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.

Rydym yn gweld parhad mewn ymddygiadau heriol ymysg rhai grwpiau o bobl ifanc, a/neu mewn rhai ardaloedd penodol. Rydym yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid pan gyfyd sefyllfaoedd fel hyn. Yn aml nid yw'r bobl ifanc yn dewis ymwneud gyda'r gweithgareddau a ddarperir gan y Gwasanaeth Ieuenctid,

nac yn dymuno derbyn cefnogaeth gan Weithiwr Ieuenctid. Byddwn yn ceisio addasu ein cynnig, siarad gyda grwpiau o bobl ifanc i ganfod eu diddordebau, eu helpu i fod yn rhan o weithgareddau neu ddarparu'n uniongyrchol ar eu cyfer ond oherwydd sail wirfoddol Gwaith Ieuenctid nid ydym yn gallu gorfodi pobl ifanc i ymwneud â ni na'r hyn a gynigai. Ar adegau gall ymddygiad pobl ifanc yn eu cymunedau fod yn heriol ac yn destun ymyrraeth statudol gan yr Heddlu / Gwasanaeth Cyfiawnder, ond ar adegau gall hefyd fod yn ymwneud â gwella dealltwriaeth a goddefiant cymdeithas o bobl ifanc.

4.4.2 Wrth i anghenion rhai pobl ifanc ddwysau, a nifer y bobl ifanc sydd angen cefnogaeth gynyddu mae'r her o weithio gyda partneriaid eraill yn parhau. Mae nifer o'n pobl ifanc ni yn ei chael hi'n gynyddol anodd i fyw bywyd llawn oherwydd fod cludiant yn un o'r prif rwystrau iddynt erbyn hyn o ran ymwneud gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, ond hefyd yn gyffredinol yn eu bywydau o ran cael mynediad i addysg. Hyfforddiant, gwaith, cyfleon cymdeithasol a mwynhau.

5. Data Perfformiad

5.1 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn adrodd yn ôl ar ei berfformiad yn dymhorol yng nghyfarfodydd Herio Perfformiad Addysg. Mae'r mesuryddion misol yn cael ei craffu gan y Prif Weithredwr, Pennaeth Addysg ac Aelod Cabinet. Mae'r data isod yn cael ei ddefnyddio i fonitro a gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar y bobl ifanc;

- Nifer o unigolion sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed
- Nifer o unigolion sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid
- Nifer o achrediadau mae'r bobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis)
- Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25 oed
- % o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir
- % o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25)
- % o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol.
- % o'r bobl ifanc ble mae eu Lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth
- % o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol.

5.2 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd yn adrodd ar gyfranogiad pobl ifanc yn ei weithgareddau, yn hytrach na'r nifer o unigolion unigryw sy'n cymryd rhan yn y ddarpariaeth. Bydd yn bosibl darparu'r wybodaeth hon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, unwaith y bydd cofrestriadau'r clybiau cymunedol wedi'u derbyn a'u dadansoddi.

5.3 Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod yr angen i foderneiddio ein dulliau casglu data, monitro a gwerthuso, ac rydym wedi gosod hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn unol â hyn, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda'r Tîm Arloesi gyda Thechnoleg Cyngor Gwynedd i ddatblygu system casglu data mewnol fydd yn fwy effeithlon ac effeithiol.

5.4 Mae hefyd gofyn i'r Gwasanaeth Ieuenctid gwblhau adroddiadau cynnydd yn erbyn y gweithgareddau sydd wedi ei ariannu gan y Grant Cymorth Ieuenctid;

- ◆ Gweithrediad y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd
- ◆ Iechyd Meddwl a Lles emosiynol drwy ddulliau gwaith ieuenctid
- ◆ Digartrefedd ymysg pobl ifanc

Nod yr adroddiad perfformiad yw sicrhau ein bod yn darparu;

- Gwaith ieuenctid mynediad agored ac sydd wedi'i dargedu/penodol, yn unol ag anghenion lleol a nodir, gan ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfleoedd i bobl ifanc, ac yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion'.
- Cryfhau gwaith ieuenctid er mwyn sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa i gyflwyno, a chynyddu mynediad*, i ddarpariaeth, er mwyn adnabod problemau iechyd meddwl, emosiynol neu les pobl ifanc yn gynnar a'u cefnogi.
- Darparu gweithgarwch ymyrraeth gynnar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a gwaith ieuenctid sydd â'r nod o fynd i'r afael â digartrefedd ieuenctid.

6. Ymgynghori

- 6.1 Mae casglu barn ac adborth am y Gwasanaeth Ieuenctid yn dilyn ei ail strwythuro yn 2018 yn hanfodol er mwyn gwerthuso ei effaith a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pobl ifanc yn effeithiol. Mae'n cynnig cyfle i ddeall pa mor berthnasol ac effeithlon yw'r newidiadau a wnaed, gan nodi unrhyw fylchau neu feysydd sydd angen gwella. Trwy wrando ar farn pobl ifanc, staff, a rhanddeiliaid eraill, gellir addasu a datblygu'r ddarpariaeth yn barhaus i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn hygyrch, cynhwysol ac yn cefnogi datblygiad personol a lles y bobl ifanc.
- 6.2 Er mwyn derbyn adborth am y Gwasanaeth Ieuenctid, dosbarthwyd holiadur i ysgolion uwchradd, colegau, sefydliadau trydydd sector ac ar wefannau cymdeithasol. Fe wnaeth Uned Ymchwil a Dadansoddeg y Cyngor hwyluso mynediad i'r holiadur i'r holl bartneriaid. Roedd hyn yn caniatau i ni gasglu barn eang ac amrywiol o bobl ifanc a rhanddeiliaid, gan sicrhau bod yr adborth yn cynrychioli profiadau a safbwyntiau gwahanol o ddarpariaeth y gwasanaeth. Yn dilyn y broses o hel gwybodaeth, cafodd y data craidd ei werthuso gan Uned Ymchwil a Dadansoddeg y Cyngor.
- 6.3 Yn ogystal â'r holiadur, cynhaliwyd sgysrsiau gydag ein cyswllt yn yr ysgolion i drafod profiadau uniongyrchol disgyblion a'r gefnogaeth oedd ar gael iddynt drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. Roedd hyn yn gyfle i glywed yn uniongyrchol gan athrawon a gweithwyr ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifanc yn ddyddiol.
- 6.4 Cafwyd hefyd trafodaethau gyda Llais Ni, sef fforwm pobl ifanc y Gwasanaeth Ieuenctid, gan roi lle i bobl ifanc fynegi eu barn a dylanwadu ar welliannau i'r gwasanaeth. Yn ogystal, trafodwyd gyda'r Fforwm Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc 11-25 Gwynedd, gan gynnwys partneriaid a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc, i sicrhau bod barn a safbwyntiau rhanddeiliaid proffesiynol yn cael eu hystyried wrth asesu effaith a pherfformiad y gwasanaeth.

7. Beth oedd ymateb yr holiadur?


7.1 Derbyniwyd:

- 801 o ymatebion gan bobl ifanc.
- 707 o ymatebion gan ddisgyblion (yr oeddem yn ddibynnol ar yr ysgolion i weinyddu/ddosbarthu'r holiaduron gyda disgyblion yr ysgol). Bu i rai ysgolion ei rannu gyda blwyddyn benodol ac eraill ei rannu gyda grŵp penodol / cyngor yr ysgol. Yr oedd ymateb gan ddisgyblion o'r holl ysgolion uwchradd.
- 65 o ymatebion gan bobl ifanc a oedd yn mynychu un o'r colegau wedi ei leoli yng Ngwynedd.
- 10 o ymatebion gan bobl ifanc mewn gwaith/ prentisiaeth neu gynllun hyfforddiant
- 8 ymateb gan bobl ifanc a oedd yn ddi-waith.

8. Beth oedd y prif ganfyddiadau'r Holiadur?

8.1 Y Gwasanaeth Cyfredol

8.1.1 O'r 801 o ymatebwyr, mae 17.6% yn gyfarwydd iawn â'r Gwasanaeth leuenctid yn eu hardal, tra bod 28.7% yn weddol gyfarwydd. Fodd bynnag, mae 26.1% wedi clywed amdano ond heb lawer o wybodaeth. Mae hyn yn dangos bod lefelau ymwybyddiaeth am y gwasanaeth yn gymysg, gyda chyfle i wella'r gydnabyddiaeth a'r ddealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael i bobl ifanc.




8.1.2 Mae'r data'n dangos bod 14.6% o'r ymatebwyr yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn eu hardal leol yn "dda iawn," gyda 28.6% yn ei graddio fel "da." Yn ogystal, mae 21.5% yn ei hystyried yn "foddhaol". Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn rhoi asesiad cadarnhaol neu dderbyniol o'r cynnig sydd ar gael, mae'r canlyniadau'n awgrymu bod angen ystyried mesurau i wella'r ddarpariaeth a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd o anffodlonrwydd.

8.1.3 Mae'r data'n dangos bod y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn ystyried rôl y Gwasanaeth leuenctid yn yr ysgol ac yn y gymuned yn bwysig. O ran ei rôl yn yr ysgol, mae 42.7% yn ei graddio fel "pwysig iawn" a 34.2% fel "eithaf pwysig," gan awgrymu bod cefnogaeth ieuenctid o fewn yr ysgol yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer datblygu sgiliau, llesiant ac ymwybyddiaeth. Yn y gymuned, mae 33.8% yn ystyried y gwasanaeth yn "bwysig iawn," tra bod 40.9% yn ei weld fel "eithaf pwysig," gan dynnu sylw at yr angen am bresenoldeb cryf y Gwasanaeth leuenctid


y tu hwnt i'r ysgolion, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cymorth mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod gan y gwasanaeth rôl ganolog i'w chwarae mewn gwahanol leoliadau, gan gynnig cyfleoedd a chefnogaeth i bobl ifanc yn eu hamgylcheddau addysgol a chymunedol.

- 8.1.4 Mae'r graff isod yn dangos bod barn gymysg ynghylch argaeledd darpariaeth i bobl ifanc mewn cymunedau lleol. Dim ond 22.2% o'r ymatebwyr sy'n credu bod digon o opsiynau ar gael, tra bod 32.7% yn cydnabod bod rhai cyfleoedd ond yn teimlo nad oes digon. Yn ogystal, mae 20.7% yn nodi bod y cyfleoedd yn brin iawn, ac mae 3.4% yn adrodd nad oes unrhyw opsiynau o gwbl yn eu hardal. Mae'r canlyniadau hyn yn tynnu sylw at bryderon ynghylch hygyrchedd a darpariaeth i bobl ifanc, gan awgrymu bod angen cryfhau'r cynnig i sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gael i bobl ifanc mewn pob ardal.



8.2 Blaenoriaethau'r Gwasanaeth


- 8.2.1 Yn ôl yr ymatebion a gafwyd, y flaenoriaeth fwyaf i'r Gwasanaeth Ieuencid yn y dyfodol yw'r gefnogaeth i ieuchyd meddwl a llesiant, gyda 56.3% o'r ymatebwyr yn nodi hyn fel maes allweddol. Yn ogystal, mae 45.9% yn gweld cymorth gyda sgiliau bywyd yn bwysig, tra bod 40.9% yn pwysleisio'r angen am weithgareddau cymdeithasol a hamdden. Mae manau diogel i gymdeithasu (30.8%) a chanllawiau cyflogaeth a gyrfaedd (27.2%) hefyd yn cael eu hystyried yn bwysig.
- 8.2.2 Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod disgwyl i'r Gwasanaeth Ieuencid ddarparu cefnogaeth amrywiol sy'n mynd y tu hwnt i weithgareddau hamdden yn unig, gan gynnwys datblygiad personol ac ieuchyd meddwl, gweler y siart isod.



8.2.3 O ran mynediad at gefnogaeth ieuenctid, mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (46.4%) yn ffafrio cael y gefnogaeth hon mewn clwb ieuenctid, tra bod 40.8% yn gweld ysgol neu goleg fel lleoliad addas. Yn ogystal, mae 19.5% yn hoffi'r syniad o dderbyn cymorth mewn lleoliad cymunedol, ac mae 14.6% yn well ganddynt gael y gefnogaeth hon yn eu cartref. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod amrywiaeth o leoliadau yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid yn hygyrch ac yn diwallu anghenion gwahanol bobl ifanc.

8.3 Heriau Cyfredol Pobl Ifanc Gwynedd

8.3.1 Mae'r data'n dangos bod pobl ifanc yn wynebu amrywiaeth o bryderon a heriau, gyda'r mwyaf cyffredin yn ymwneud â straen sy'n gysylltiedig ag ysgol, coleg neu brifysgol (50.1%). Mae problemau iechyd meddwl hefyd yn bryder sylweddol, gyda 43.3% o ymatebwyr yn nodi hyn fel her bwysig. Yn ogystal, mae 29% yn poeni am ddod o hyd i swydd neu lwybr gyrfa, tra bod 22.6% yn nodi bwlio fel pryder mawr. Mae problemau teuluol neu berthynas (16.1%), pwysau gan gyfoedion (14.1%) a diffyg teimlad o ddiogelwch yn y gymuned (13.6%) hefyd yn cael eu hamlygu fel materion allweddol. Mae 13.1% yn gweld diffyg mannau hamdden neu weithgareddau fel her, tra bod 12.5% yn poeni am faterion ariannol. Mae pryderon sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol (7.5%) a digartrefedd (4%) yn llai cyffredin ond yn parhau i fod yn faterion pwysig i rai pobl ifanc. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos yr angen am gefnogaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl, addysg, a chyfleoedd gyrfa.



- 8.3.2** Mae'r data'n dangos amrywiaeth o brofiadau ymhlith pobl ifanc o ran teimlo bod eu barn yn cael ei chlywed yn ystod gweithgareddau ieuenctid. Mae 18% yn teimlo eu bod yn cael eu clywed bob tro, tra bod 33.3% yn nodi eu bod yn cael eu clywed yn aml. Fodd bynnag, mae 22.7% yn dweud eu bod yn cael eu clywed yn achlysurol yn unig, ac mae 17% yn teimlo nad yw eu barn byth yn cael ei hystyried.
- 8.3.3** Mae'r canlyniadau hyn yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau dulliau ymgysylltu gyda phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn teimlo'n rhan o'r broses o lunio gweithgareddau ieuenctid.

9. Canfyddiadau eraill o'r Holiadur

- 73% wedi nod ddylai'r Gwasanaeth Ieuenctid fod ar gael i bob person ifanc, yn hytrach na blaenoriaethu'r holl wasanaeth i ddarparu gwaith wedi ei dargedu.
- Diffyg Amser (44.8%) a Phryder Cymdeithasol (26.6%) yn cael ei nodi fel y prif resymau sydd yn ei hatal rhag cymryd rhan yn narpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn gymunedol.
- Pobl ifanc yn nodi mai'r prif resymau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid yn y gymuned yw; i gael hwyl (40%), i dreulio amser gyda ffrindiau (25.7%), i gael profiadau newydd (21.4%) ac i well fy llesiant (20.6%).
- Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid wedi gwella ei;
 - Hyder/ Hunan barch i 53.6% o ymatebwyr.
 - Sgiliau Bywyd i 51.7% o ymatebwyr.
 - Lles Meddyliol i 52.1% o ymatebwyr
 - I helpu gwneud dewisiadau bywyd cadarnhaol i 48.4% o ymatebwyr
 - Mynediad at gyfleoedd newydd i 51.8% o ymatebwyr

9. Canfyddiadau Cyfarfodydd gyda Cyswllt Ysgolion Uwchradd

- 9.1** Mae'r ysgolion wedi mynegi awydd i weld mwy o bresenoldeb gan weithwyr ieuenctid yn yr ysgolion i allu cynyddu effaith cadarnhaol o'i gwaith cyfredol. Rhannwyd fod angen rhoi ffocws arbennig ar ddarparu profiadau gwerthfawr a datblygu sgiliau bywyd i bobl ifanc yn CA3 i'w paratoi at heriau CA4. Y mae'r angen i flaenoriaethu'r cynnig o gwblhau achrediau Agored Cymru, gwaith targedu grwpiau penodol a hwyluso gweithdai addysg iechyd i ddisgyblion CA4.

- 9.2** Mae'r ysgolion wedi tynnu sylw at yr angen i'r Gwasanaeth Ieuencid weithio gyda grwpiau penodol o bobl ifanc yn CA4, gan gynnwys y rhai sydd â phresenoldeb isel, disgyblion blwyddyn 10 / 11 sydd heb gynllun pendant ar ôl gadael yr ysgol, dysgwyr nad ydynt yn dilyn amserlen graidd, a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl lefel isel ac sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ag amgylchedd ysgol.
- 9.3** Yn ogystal, mae'r ysgolion yn gwerthfawrogi'r angen i gael gwell cyfathrebu rhwng y Gwasanaeth Ieuencid a'r ysgolion, gan gynnwys rhannu gwybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael drwy lunio prosiectws. Mae awgrym hefyd bod gweithwyr ieuencid yn cyfarfod â'r ysgol yn dymhorol i gyflwyno eu cynllun gwaith a nodau'r sesiynau, yn ogystal â rhannu'r hyn sydd wedi'i gyflawni erbyn diwedd y tymor.
- 9.4** Mae'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc am y Gwasanaeth Ieuencid wedi darparu mewnwelediadau gwerthfawr i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei weld a'i brofi gan y defnyddwyr. Trwy gasglu adborth trwy amrywiaeth o ddulliau, mae wedi dod yn amlwg bod pobl ifanc yn cydnabod gwerth y ddarpariaeth bresennol. Er bod awgrymiadau wedi dod i'r amlwg ar gyfer gwelliannau mewn meysydd penodol, mae'r adborth cyffredinol wedi cadarnhau bod y strwythur cyfredol yn dal i ateb anghenion pobl ifanc Gwynedd. Felly, gall y Gwasanaeth Ieuencid barhau i ddatblygu o fewn y fframwaith presennol, gan adeiladu ar ei gryfderau i sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir yn parhau i fod yn berthnasol ac effeithiol.

10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 10.1** Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn cyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Trwy ddarparu cyfleoedd dysgu, datblygiad personol a phrofiadau ystyrlon, mae'n cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial ac adeiladu dyfodol cynaliadwy. Mae'r gwasanaeth yn mabwysiadu'r 5 ffordd o weithio drwy gynllunio hirdymor, cydweithio â phartneriaid, integreiddio gwasanaethau, cynnwys pobl ifanc yn y broses benderfynu, ac atal problemau cymdeithasol drwy gymorth cynnar. Drwy hyn, mae'n cyfrannu at bob un o'r 7 nod llesiant, yn cynnwys Cymru iachach, fwy cyfartal, gydnerth a chysylltiedig, gan gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol ac annog cyfranogiad gweithredol pobl ifanc yn eu cymunedau.
- 10.2** Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn chwarae rhan allweddol wrth helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd lles drwy weithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Trwy gynllunio a gweithredu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder, mae'r gwasanaeth yn ystyried effaith hirdymor penderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol. Drwy gydweithio â phartneriaid a chynnwys pobl ifanc yn y broses benderfynu, mae'n sicrhau bod eu hanghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu cyfleoedd y dyfodol. Mae'r dull hwn yn cyfrannu at adeiladu cymunedau mwy cydnerth, cyfartal a chynaliadwy, gan atgyfnerthu llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn y tymor hir.

10.3 A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Rydym eisoes wedi cynnal sesiynau ymgysylltu gyda pobl ifanc, rhanddeiliaid a ysgolion, gweler pwynt 8 am fwy o wybodaeth. Yn ogystal mae Gwasanaeth Ieuencid Gwynedd yn aml yn ymgysylltu â thrigolion a defnyddwyr y gwasanaeth i fynd i'r afael â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Trwy gynlluniau megis 'Llais Pobl Ifanc' a'r broses o ddatblygu darpariaeth gymunedol y gwasanaeth, mae barn pobl ifanc yn cael ei chlywed a'i hymgorffori mewn penderfyniadau. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo dull cyfranogol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o greu cyfleoedd cymdeithasol diogel, gweithgareddau ystyrlon, a chystadlaethau cymunedol sy'n cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Drwy gydweithio ag asiantaethau partner a sefydliadau rhyngwladol, mae'r gwasanaeth yn cefnogi dull cynaliadwy o weithio sy'n adlewyrchu egwyddorion y Ddeddf.

10.4 Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol, byddwn yn parhau i weithio'n aml-asiantaethol a gwerthuso effaith unrhyw newid yn rheolaidd. Mae'r drefn yma eisoes mewn lle, gyda £60,000 o gyllid y Gwasanaeth Ieuencid yn cael ei rhannu i sefydliadu trydydd sector y flwyddyn yma i adnabod y gapiau mewn gwasanaeth, ehangu ein darpariaeth cymunedol a diwallu anghenion pobl ifanc y sir.

Mae'r Gwasanaeth Ieuencid hefyd yn ystyried anghenion hirdymor pobl ifanc drwy fabwysiadu dull strategol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwytnwch a chyfleoedd sy'n eu paratoi ar gyfer y dyfodol. Trwy gasglu tystiolaeth yn fewnol drwy holiaduron, fforymau Llais Pobl Ifanc, ymgysylltu gyda partneriaid, a monitro tueddiadau cymdeithasol ac economaidd, mae'r gwasanaeth yn gallu rhagweld heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg. Drwy gydweithio â phartneriaid mewn addysg, cyflogaeth, iechyd (drwy canfyddiadau SHRN) a gwasanaethau cymorth, mae'n sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i ddatblygu i fod yn oedolion hyderus a chyfrifol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn barod i ymateb i anghenion newidiol y dyfodol ac yn cyfrannu at lesiant hirdymor cymunedau.

10.5 Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrrff cyhoeddus eraill?

Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn sicrhau integreiddio trwy gydweithio'n agos â chyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, gwasanaethau iechyd, a sefydliadau cymunedol, i ddarparu cefnogaeth gyfannol i bobl ifanc. Drwy gydlyn

gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, a chyd-ddatblygu mentrau, mae'r gwasanaeth yn gwella effaith ar bolisiau ehangach megis llesiant, addysg, a diogelwch cymunedol. Mae'r dull hwn nid yn unig yn osgoi dyblygu gwasanaethau ond hefyd yn cryfhau cydlyniant strategol ac yn sicrhau bod llais pobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau cyhoeddus. Mi fydd yr integreiddio yma yn amlygu ei hyn ymhellach dros y 12 mis nesaf, pan fydd Strategaeth 5 mlynedd yn cael ei ddylunio yn unol a gofynion y Fframwaith Statudol Newydd ar gyfer Gwaith Ieuentid

11. Camau Nesaf

11.1 Yn dilyn y broses ymgynghori gyffredinol gyda phobl ifanc, partneriaid, ac ysgolion uwchradd ynghylch darpariaeth y Gwasanaeth Ieuentid, mae'r Gwasanaeth Ieuentid yn bwriadu gweithredu ar gyfer sicrhau bod y ddarpariaeth yn cwrdd â'r anghenion a'r disgwyliadau o'r grwpiau hyn. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu strategaeth a chynlluniau gweithredu ar gyfer y dyfodol, ac yn seiliedig ar farn a mewnbwn a gafwyd o'r broses ymgynghori.

11.2 Datblygu Strategaeth 3 mlynedd

11.2.1 Yr ydym yn y broses o ddatblygu Strategaeth 3 mlynedd i gyd-fynd gyda'r cadarnhad o 3 mlynedd o gyllid drwy'r Grant Cymorth Ieuentid. Bydd y strategaeth hon yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer datblygu gwasanaethau a chynnig cyfleoedd i bobl ifanc, gan sicrhau bod yr adnoddau a'r darpariaethau sydd ar gael yn cefnogi anghenion y grŵp hwn. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau ieuentid yn hygyrch, yn ddigonol ac yn ymateb i'r heriau newydd sy'n wynebu pobl ifanc heddiw, yn ogystal â chydweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel ysgolion, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau ieuchyd i ddarparu cefnogaeth cyfannol. Bydd y strategaeth hefyd yn cynnwys mesurau i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn penderfyniadau a gweithgareddau lleol, gan roi lle i'w llais gael ei glywed a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried wrth ddatblygu gwasanaethau a pholisiau yn y dyfodol.

11.3 Datblygu fforwm Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc 11-25 oed Gwynedd

11.3.1 I ymateb i Fframwaith Statudol newydd ar gyfer Gwaith Ieuentid sydd wedi cael ei lunio gan Lywodraeth Cymru, lle mae gofyn i gryfhau'r broses o gynllunio a chyflenwi drwy weithio gyda phartneriaid lleol, mae'r Gwasanaeth Ieuentid wedi sefydlu fforwm Gwasanaethu Cefnogi Pobl Ifanc 11-25 oed. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys ystod o weithwyr proffesiynol a phartneriaid allweddol sydd â rôl bwysig mewn darparu gwasanaethau ieuentid yng Ngwynedd. Mae'r aelodaeth yn cynnwys sefydliadau trydydd sector, cynrychiolwyr o'r sector ieuchyd, partneriaid statudol ac adrannau eraill o'r llywodraeth leol. Bydd y grŵp yn chwarae rhan allweddol yn y broses o drafod, datblygu, a gweithredu cynlluniau hirdymor ar gyfer gwaith ieuentid yn y dyfodol.

11.4 Fforwm Ieuenctid

11.4.1 I sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed a bod eu hanghenion yn cael eu hystyried yn y penderfyniadau strategol, mae Fforwm Ieuenctid wedi cael ei sefydlu. Bydd y fforwm hwn yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddod ynghyd i rannu eu barn a phrofiadau, gan gynnwys unrhyw heriau neu gyfleoedd a ddaw o'r broses ymgynghori. Bydd y fforwm yn rhan annatod o'n cynlluniau, gan sicrhau bod pob elfen o'r ddarpariaeth yn seiliedig ar y gofynion a'r safbwyntiau a'r gwerthoedd a ddaw o'r bobl ifanc eu hunain.

11.5 Cytundeb Gwaith gyda Ysgolion

11.5.1 Yn rhan o ein ymdrechion i gysoni ein darpariaeth yn yr ysgolion, byddwn yn edrych i ganolbwyntio ar gryfhau ein cyfathrebu gyda ysgolion er mwyn sicrhau clirdeb o rôl y Gwasanaeth Ieuenctid o fewn yr ysgolion, a ein disgwyliadau o ymrwymiad yr ysgolion. Bydd ein cynlluniau yn cynnwys rhannu ein prospectws gyda'r ysgolion a fydd yn amlinellu ein cynnig ac hefyd

Amserlen Berthnasol :

- Rydym eisoes wedi cychwyn ar y broses o ddatblygu'r strategaeth drwy gynnal cyfarfodydd gyda'r staff yn fewnol, drwy sgysiau yn ein fforymau llais pobl ifanc a thrafodaethau gyda sefydliadau trydydd sector. Bydd yr adborth a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriadau hyn yn ychwanegiad i'r cyfoeth o adborth i'w ddefnyddio i ddatblygu'r strategaeth erbyn Mai, 2025.
- Mae'r Fforwm Gwasanaethau Cefnogi Pobl eisoes mewn lle ac yn cyfarfod yn chwarterol. Mae'r cylch gorchwyl yn y broses o gael ei gymeradwyo gan yr aelodau, a fydd yn rhoi clirdeb am bwrpas y fforwm a'i hamcanion yn y dyfodol.
- Bydd cyfarfodydd yn cael ei drefnu gyda ein cyswllt yn yr ysgolion yn tymor yr Haf ar gyfer Medi '25. Bydd prospectws yn cael ei rhannu gyda'r ysgolion ac cytundeb gyda'r ysgolion yn cael ei drafod o ran ei disgwyliadau nhw or Gwasanaeth Ieuenctid ac beth yw ymrwymiad yr ysgol.

Atodiadau

- Atodiad 1 - Adroddiad Blynnyddol y Gwasanaeth Ieuenctid 23/24
- Atodiad 2 - Canfyddiadau'r Holiadur 2025



ADRODDIAD BLYNYDDOL

2023/2024



Cipolwg o ystadegau 1af o Ebrill 2023- 31fed o Fawrth 2024

19870
o
gyfranogiadau

10509
yn y
Gymued

9180
yn yr
ysgolion

181
o Lwythi Achos
16-25 oed

Adborth Pobl Ifanc

95%
Wedi nodi bod ei
lles
wedi gwella

94%
Wedi
Mwynhau

96%
wedi cael
profiad
newydd

95%
fyddai'n
mynychu
eto

1192
o achrediadau
wedi ei
cwblhau

48
o leoliadau
cymunedol

£62,000 o
grantiau i
sefydliadau
cymunedol.



15
O ysgolion uwchradd a
arbennig yn derbyn
gwasanaeth

2240
O Sesiynau wedi ei
cynnal yn yr ysgolion



BETH YDY GWAITH IEUENCTID?

Gwasanaeth sydd yn;

“galluogi pobl ifanc i ddatblygu’n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a’u lle mewn cymdeithas a gwireddu eu llawn botensial.”

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid

Darparu a Hwyluso

- Cyfleoedd a phrofiadau addysgol anffurfiol.
- Mynediad i gyngor, gwybodaeth ac arweiniad personol.
- Lleoedd diogel i bobl ifanc gael cymdeithasu.
- Pobl ifanc i adnabod ei hawliau
- Cefnogaeth drwy amser pwysig yn ei bywydau

Gwerthoedd Gwaith Ieuenctid



Addysgol



Mynegiannol



Cyfranogol



Cynhwysol



Grymusol

STRWYTHUR

Rheolwr Gwasanaeth

Arweinydd Tim

Arweinydd Tim

11-19 oed

16-25 oed

Cymunedol

Iechyd a Lles Meddyliol

Digartrefedd leuenctid

Gweithiwr Be Di Sgor?

Hyfforddiant, Ymgysylltu a Gweinyddol

RE'DI'R SCÔR

Community Workers:

- Lieam Williams** 07833 406726 lieamwilliams@gwynedd.llyw.cymru (Gweithiwr Ieuencid - Arfon)
- Ffion Williams** 07909893715 ffionwilliams@gwynedd.llyw.cymru (Gweithiwr Ieuencid - Arfon)
- Barry Williams** 07909891994 BarryAlanWilliams@gwynedd.llyw.cymru (Gweithiwr Ieuencid - Arfon)
- Alaw Paul** 07768598360 alawpaul@gwynedd.llyw.cymru (Gweithiwr Ieuencid - Meirionnydd)
- Dion Jones** 07584 534053 dionjamesjones@gwynedd.llyw.cymru (Gweithiwr Ieuencid - Meirionnydd)
- Nia Rees** 0781459895 niaheleddrees@gwynedd.llyw.cymru (Gweithiwr Ieuencid - Meirionnydd)
- Andrew Owen** 07825 316958 andrewowen@gwynedd.llyw.cymru (Gweithiwr Ieuencid - Dwyfor)
- Joanne Edwards** 07780284321 joannecarolineedwards@gwynedd.llyw.cymru (Gweithiwr Ieuencid - Tywyn)





PWRPAS



Dwi isho chi wrando arna i a fy nghynnwys

Dwi isho chi fy help trwy fy arddegau....

**I wneud cyfraniad yn fy ngymunedau, gwella fy llesiant
a dysgu sgiliau fel fy mod yn berson ifanc hapus, diogel ac yn
barod ar gyfer bywyd gwaith!**

Cynnig gwasanaeth
sydd yn agored i bawb
– gwaith ieuenctid
'Open Universal' i bobl
ifanc Gwynedd 11-19
oed

6 Gweithiwr Cymorth
Ieuenctid llawn amser /
2 rhan amser yn
gweithio mewn dwy
Ysgol Uwchradd ac
mewn cymunedau ar
draws y Sir, dydd a nos
a preswyl

Yn creu ac yn rhedeg
prosiectau a
chyfleoedd unigol yn
seiliedig ar farn pobl
ifanc wrth ddysgu yn
anffurfiol

Darparu cyfleoedd i
ddysgu ac ennill
sgiliau a
chymwysterau mewn
awyrgylch anffurfiol

Darparu cefnogaeth
mewn awyrgylch
gyfeillgar a hamddeno
– yn bell o ffurfioldeb
sydd fel arfer yn
gysylltiedig â'r ysgol,
coleg neu'r gweithle

Darparu cefnogaeth
amrywiol a
gweithgareddau
hamdden i unrhyw
person ifanc mewn
sawl ffordd

Datblygu a rhedeg
prosiectau a
gweithgareddau gyda
pobl ifanc mewn
cymunedau i gynyddu
eu gyfranogiad o fewn
eu cymuned lleol

5 Ffordd at Les drwy'r
holl waith/Hyrwyddo
Llesiant Emosiynol ac
lechyd Meddwl da

YSTADEGAU

9180

o gyfrangiadau

Darparu
gwasanaeth
mewn 15 o
ysgolion
uwchradd a
arbennig

308

wedi derbyn
gwobr Dug
Caeredin

25

o prosiectau
'Pop up'
yn wythnosol

Darparu 2200 o
sesiynau yn yr
ysgolion trwy y
flwyddyn

6000+

o oriau gwirfoddoli
wedi ei gwblhau



Darpariaeth Ysgolion

**Wedi ei seilio ar
5 Piler Gwaith
leuenctid**



Addysgol Mynegiannol Cyfranogol Cynhwysol Grymusol



Manylion Darpariaeth

**Cwblhau
Cymhwysterau**

**Ymateb i anhenion
Pobl Ifanc ac Ysgolion**

Sesiynau 5 Ffordd at Les

Gwobr Dug Caeredin

**Cynnig gweithdai
amrywiol**

Prosiectau Pontio'r Gymuned

Gwirfoddoli

Codi arian i Elusenau

**Cynnig profiadau
newydd**

**Ymateb i anghenion y
gymuned**

**Darparu amgylchedd
diogel i gymdeithasu**

25

o brosiectau
cymunedol yn
wythnosol



TÎM CYMORTH 16-25 OED



Bethan, Arweinydd Tîm

"Rydym yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc sydd angen help i baratoi ar gyfer eu camau nesaf mewn bywyd. Gall wynebu'r camau yma fod yn heriol. Rydym ni yma i wrando arnoch chi a helpu chi ar eich taith."



Glyn, Gweithiwr Ieuencid

"Rwy'n gredwr cryf mewn rhoi cyfleoedd i bobl Ifanc dyfu a datblygu fel unigolion, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth a balchder ynddyn't eu hunain a'u cymuned."



Steph, Gweithiwr Ieuencid

"Rwy'n credu bod pobl ifanc yn haeddu teimlo'n ddiogel, cael eu cefnogi a rhydd i fynegi barn. Mae'n anrhydedd gallu cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau ar gyfer dyfodol llwyddiannus."



Donna, Gweithiwr Ieuencid

"Rwy'n ymfalchïo mewn cefnogi pobl ifanc i gyrraedd eu nodau personol eu hunain, trwy eu hannog i gymryd rhan mewn profiadau newydd, gan eu helpu i adeiladu ar eu hyder a'u meddylfryd cadarnhaol."



Sarah, Gweithiwr Ieuencid

"Rwy'n credu bod pob person ifanc yn bwysig. Dwi'n angerddol dros gefnogi pobl ifanc i ddod o hyd i'w llais, dylanwad a lle mewn cymdeithas, ac i gyrraedd eu llawn botensial."





PWRPAS



Dwi isho chi

Rhoi amser i mi

I wrando arna i

Roi'r cyfle i mi ddatblygu

Cefnogi Pobl Ifanc 16-25 oed sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant neu waith ar hyn o bryd neu sydd yn astudio rhan-amser yn y Coleg



Cefnogi unigolion sydd pellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, ond sy'n barod i ymgysylltu a dechrau meddwl am eu camau nesaf.

Unigolion sydd angen cefnogaeth i ddatblygu sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol

Gwasanaeth ar draws Wynedd

Gallwn gefnogi pobl ifanc ochr yn ochr â darpariaeth cymorth leuenctid eraill


YSTADEGAU



**Trawstoriad oedranu'r
cyfranogwyr**

Y Siwrna Gefnogaeth

Y berthynas
rhwng y person
ifanc a'i
Gweithiwr
leuenctid sy'n
ganolog i
ymarfer waith
ieuenctid.



Yn ystod y gwaith un-i-un,
mae pobl ifanc a'u
Gweithiwr yn dod i adnabod
eu gilydd, adnabod beth ydi
diddordebau a chryfderau
person ifanc; adnabod y
rhwystrau sy'n atal nhw
rhag cymryd eu camau
nesaf i addysg, hyfforddiant
neu waith



5 Rhwystyr Mwyaf

Hyder Isel

Diffyg profiad/ sgiliau

Pryderon lechyd Meddwl

Profiadau dysgu negyddol

Ynysu Cymdeithasol

Anogir pobl ifanc i greu
Cynllun Datblygu Personol
sy'n nodi beth yw ei nodau
tymor byr a hir hoffai nhw
wireddu. Mae pwynt cychwyn
pob unigolyn yn wahanol,
felly mae'r gefnogaeth yn
cychwyn o pwynt cychwyn yr
unigolyn



I gefnogi'r pobl ifanc i
gyflawni eu nodau personol,
byddwn yn hyrwyddo hawliau
pobl ifanc i wasanaethau,
cefnogaeth a chyfleoedd a
hwyluso mynediad pobl ifanc
i'r gwasanaethau a
chyfleoedd hyn.



Prosiectau a Darpariaethau

Rhaglen Gwytnwch
FRIENDS

Yn helpu pobl ifanc i ddatblygu set o sgiliau a fydd yn ei galluogi i ddod yn fwy gwydn i ddelio â heriau mewn bywyd, rheoli emosiynau ac ei helpu i oresgyn gôr bryder ac iselder.



Celf at Les

Mae'r sesiynau Celf am Lesyn cael eu rhedeg gan y Tîm Cymorth Ieuenctid. Mae'r sesiynau yn rhoi cyfle i chi fwynhau'r celfyddydau trwy fod yn greadigol a dysgu gofalu am ei hun.




Pawenau a Charnau-
Meithrin Lles Pobl Ifanc drwy Therapi Anifeiliaid



Creu lle diogel a therapiwtig i bobl ifanc bregus i wella eu lles a'u gwytnwch trwy therapi â chymorth anifeiliaid wedi ei seilio ar y 5 Ffordd at Les. Ochr yn ochr efo therapi â chymorth anifeiliaid, byddwn yn rhedeg cwrs Youth FRIENDS er mwyn rhoi cyfle i unigolion adlewyrchu ymhellach ac atgyfnerthu'r hyn mae nhw'n ei ddysgu o'r sesiynau efo anifeiliaid



TÎM GWAITH IEUENCTID CYMUNEDOL



Sion Roberts
07920264113


Arweinydd Gwaith Cymunedol Ieuenctid
sionbrynroberts@gwynedd.llyw.cymru



17 Gweithiwr
Prosiect
Rhan Amser



17 Gweithiwr
Cymunedol
Rhan Amser



4 Gweithiwr
Derwen
Rhan Amser



PWRPAS



Dwi isho chi

**Greu cyfleoedd cymdeithasu
a datblygu i bobl ifanc
yn ein cymunedau ni**

Rhedeg prosiectau a
gweithgareddau yn y
gymuned

Symud o gymuned i
gymuned gyda
pwyslais ar hwyl a
cymdeithasu


Cydlynu
darpariaethau sydd
yn cael ei ariannu gan
Cynghorau Tref

Datblygu cyfleoedd
preswyl a
Gweithgareddau Haf
o Hwyl

Datblygu Fframwaith
Gweithgareddau a
cyd-weithio gyda
partneriaid lleol.

Cydlynu 38 o staff
rhan amser sydd yn
gweithio
yn y gymuned

Lleoliadau Darpariaethau Cymuendol



Clybiau Symudol

Maesgeirchen	Porthmadog
Coed Mawr	Cricceth
Caernarfon	Bermo
Rhiwlas	Porthmadog
Bontenwydd	Dyffryn
Waunfawr	Ardudwy
Pwllheli	Tywyn
Nefyn	Bala
Trefor	Dolgellau
Abersoch	Maentwrog
Penrhyndaedraeth	Harlech
Beddgelert	

Clybiau Cymunedol

Bethel	Bangor
Penygreos	Bethesda (x2)
Aberdaron	Caernarfon (x2)
Blaenau	Llanrug
Ffestiniog	Deiniolen
Llan Ffestiniog	Llanberis

Darpariaethau Cymuendol

10509


o
gyfrangiadau



10 o glybiau
cymunedol yn
cael ei
ariannu gan
Cynghorau
Tref /Pentref



£62,000
wedi ei rhannu
gyda
sefydliadau
trydydd sector i
gynyddu
darpariaeth



Dros 900 o
sesiynau pob
blwyddyn



Tripiau a Digwyddiadau



Tripiau a Drefnwyd

Glan Llyn
Alton Towers
Trip Llandudno
Sglefrio Ia
Bowlïo Deg
Plas Menai
Zip World
Beicio Mynydd
Canolfan Beacon
Gig Bwncath
Fan Gemau



Dros 1000 o bobl ifanc wedi mynychu tripiau a gweithgareddau preswyl.

Y mae'r darpariaeth yma yn eang iawn i ymgysylltu gyda pobl ifanc o phob cymuned ar draws Gwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi ei deilwra i anghenion y cyfranogwyr ac mae llais pobl ifanc yn ganolog i gynllunio y gweithgareddau ar sesiynau yma



Iechyd a Llesiant



Bwriad yr Ŵyl oedd hybu iechyd meddwl a lles da, gyda nifer o weithgareddau gan gynnwys sesiynau ynghylch creadigrwydd, straen, iechyd meddwl, hyfforddiant cylchol, Lego, materion arian, LHDT+ a mwy yn cael eu cynnal ar draws Gwynedd ar gyfer pobl ifanc y sir.

Roedd yr Ŵyl Llesiant blwyddyn yma yn llwyddiant ysgubol a gafodd effaith gadarnhaol ar fywydau pobl ifanc y sir.



122 o Sesiynau Sessions

1549 o Pobl Ifanc Young People

feedback from adborn gan 322 o Pobl Ifanc Young People



Adborn gan pobl ifanc a ffigyrau.

Feedback from young people and numbers.

Wedi cynnal 5 o ddiwrnodau codi ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn Glan Llyn a Plas Menai. lle roedd 12 o ysgolion uwchradd wedi mynychu.

Sesiynau Bloom, FRIENDS resilience a sesiynau i ymateb i gor bryder wedi ei darparu yn holl ysgolion uwchradd Gwynedd.

Mae y Gwasanaeth Ieuenctid yn rhan o prosiect 'Meddwl Ymlaen' sydd yn arwain gan bobl ifanc i wella lles meddwl pobl ifanc yng Ngwynedd trwy ofyn i bobl ifanc beth sy'n eu helpu nhw.



Prosiect Digartrefedd

Darparu gweithgarwch ymyrraeth gynnar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a gwaith ieuenctid sydd â'r nod o fynd i'r afael â digartrefedd ieuenctid

Gwaith Ymchwil

Wedi cydweithio gyda adran tai, digartrefedd, Tim Ôl-16 ac adran addysg i gasglu data ar y pobl ifanc (i fyny at 25 oed) sydd wedi cyflwyno ei hunain yn ddigartref dros y tair mlynedd diwethaf.

Y gwaith yma wedi adnabod unrhyw batrymau sydd yn cael ei adnabod o'r cyfeiriadau yma a oedd yn help i ni flaenoriaethu a thargedu y pobl ifanc cywir llawer cynt ar y llwybr tuag at ddigartrefedd

Ein cynnig

Cynllun Atal Sylfaenol Digartrefedd

Atal neu leihau risgiau digartrefedd pobl ifanc ar draws y boblogaeth yn gyffredinol

Cynllun Atal Eilaidd Digartrefedd

Atal neu leihau risgiau digartrefedd pobl ifanc sydd wedi cael ei adnabod i fod o grŵp risg uchel neu pobl ifanc sydd yn agored i niwed

15

O ysgolion uwchradd a arbennig wedi derbyn sesiynau codi ymwybyddiaeth

Wedi rhedeg gweithdai;

-Helpwr Ariannol
-Perthnasau Iach
-Achrediau Byw'n
Annibynol a Sgiliau
Bywyd

Grantiau Charis
ar gael i gefnogi
pobl ifanc bregus

Wedi gweithio gyda grwpiau targed yn mhob un o ysgolion uwchradd drwy ein System Nodi'n Gynnar



Prosiect – Be di'r Sgor?



Mae Be Di'r Sgor sydd wedi ei ariannu gan Cyfiawnder Ieuencid yn gweithio gyda pobl ifanc 11-18oed yn rhoi cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth am cyffuriau ac alcohol. Mae'r gwasanaeth yn hyblyg i weithio hyd at yr oedran 25oed os ydych yn derbyn cefnogaeth gan asiant arall yn barod.

Mae pobl ifanc yn gallu cysylltu yn uniongyrchol am cefnogaeth/gwybodaeth ar yr cysylltiadau isod.

Mae hefyd yn bosib i rhieni/ athrawon/ doctor neu unrhyw un sydd yn cefnogi person ifanc cysylltu a ni



Sesiynau Codi
Ymwybyddiaeth i

1510

o bobl ifanc

Wedi rhoi cefnogaeth
dwys i

25

o bobl ifanc

Wedi cynnal sesiynau
mewn

28

o leoliadau ar draws
Gwynedd

Haf o Hwyl

Dros gyfnod yr haf mi wnaeth y Gwasanaeth Ieuenctid ddarparu gweithgareddau hwyl a llesiant yn y gymuned i bobl ifanc 11-25 fel rhan o'r prosiect Haf o Hwyl

18

o leoliadau ar draws Gwynedd



550

o gyfranogwyr



Mynychodd dros 200 o bobl ifanc Gwynedd yr Eisteddfod yn Penllyn dros gyfnod yr Haf fel rhan o waith partneriaethol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Eisteddfod. Mi roedd y menter yma yn galluogi pobl ifanc o bob cornel o Wynedd i gael profiad o fynychu'r Eisteddfod yn rhad ac am ddim.

Cymhwyserau a Achrediadau



Mae Gwobr Dug Caeredin yn rhaglen heriol o weithgareddau sy'n eich helpu i ddysgu sgiliau newydd, helpu pobl eraill, mynd ar antur a byddwch yn cael teimlad anhygoel eich bod wedi cyflawni rhywbeth gwych. Yn ogystal, mae llawer o sefydliadau fel cyflogwyr a phrifysgolion yn ei hoffi'n fawr iawn a beth mae'n ei ddweud amdano chi fel rhywun sy'n cymryd rhan ynddo.

Mae DofE yn rhaglen sydd â phedair adran ac mae'r rhain ar dair lefel:

Efydd (14 oed a hŷn)

Arian (15 oed a hŷn) ac

Aur (16 oed a hŷn).

Ar gyfer pob lefel mae angen cwblhau 4 adran:

Gwirfoddoli

Sgiliau

Corfforol

Alltaith

Preswyl (Gwobr Aur yn unig)



Aur Arian Efydd

5 48 155
wedi derbyn y wobwr

Mae y Gwasanaeth Ieuenctid yn Canolfan Gynabyddedig Agored Cymru Rydym yn gallu cynnig dros 6,000 o unedau a 400 o gymwysterau achrededig, sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, ac y sicrhau eu hansawdd gan amrywio o Sgiliau Hanfodol i Gynaliadwyedd. .



1192

o gymhwysterau
wedi ei gwblhau

Llais Pobl Ifanc

Pwrpas

Sicrhau bod llais pobl ifanc Gwynedd yn ganolog i gynllunio darpariaeth y Gwasanaeth Ieuencid i ddiwallu ei anghenion

1 o Fforymau
Sirol a
3 Fforwm
Rhanbarthol

53
o
gyfranogwyr

Nodau

Chwarae rhan
weithredol yn y
ffordd mae'r
Gwasanaeth yn
cael ei ddarparu

Codi
ymwybyddiaeth am
ddemocrataidd ac ei
hawlau

Darparu cyfleoedd
i ddatblygu llwybrau
dysgu

Datblygu gweithwyr
ieuencid y dyfodol



Beth mae pobl ifanc yn ei ddweud?



“

Mae'r gweithgareddau yma wedi fy helpu i ddatblygu sgiliau newydd a darganfod fy niddordebau. Rydw i wedi dysgu sut i fod yn arweinydd ac yn hyderus wrth siarad o flaen grwpiau."

“

Mae'r gwaith ieuenctid wedi agor llygaid i gyfleoedd nad oeddwn i'n gwybod bod yn bodoli. Rydw i wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac wedi dysgu gwerth gwirfoddoli

“

Rydw i wedi dysgu llawer am bwysigrwydd iechyd meddwl a sut i ofalu am fy lles. Mae'r gweithdai wedi rhoi'r offer angenrheidiol i mi i ymdopi â straen.

“

Trwy'r sesiynau cymorth rydw i nawr yn gwybod beth rydw i eisiau ei wneud yn y dyfodol a sut i gyrraedd yno. Mae wedi rhoi'r hyder i mi gyflawni fy mreuddwydion

“

Cefais fy nghymryd i'r ochr gan fy weithiwr ieuenctid pan oeddwn i'n mynd trwy gyfnod anodd yn fy mywyd. Eu cefnogaeth a'u cyngor oedd yr union beth oeddwn i ei angen i ddod drwyddi

“

Mae'r clwb ieuenctid wedi rhoi lle diogel i mi fod fy hun a gwneud ffrindiau newydd. Hebdo, byddwn i'n teimlo'n unig iawn

“

Mae'r gweithdai ar sgiliau bywyd wedi fy helpu i baratoi ar gyfer byw'n annibynnol. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â rheoli arian a ofalu am fy hun.

“

Mae'r clwb ieuenctid wedi fy helpu i ddatblygu fy hyder cymdeithasol. Rwy'n teimlo'n fwy cyfforddus wrth gwrdd â phobl newydd ac yn ffurfio perthnasoedd newydd

“

Trwy'r prosiectau cymunedol, rydw i wedi dysgu gwerth rhoi'n ôl i'r gymuned. Mae wedi fy ysbrydoli i fod yn fwy cymdeithasol ac i geisio gwneud gwahaniaeth

Dathlu Llwyddiannau Pobl Ifanc

4

Noson
Wobryo



Llwyddianau yn y
meusydd isod;

Gwirfoddoli
Cymhwysterau
Dug Caeredin
Agored Cymru
Virtual College
Gwaith Cymunedol



149

o bobli ifanc wedi ei
gwobryo

Partneriaethau



Urdd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



With Gobaith



Grŵp
Llandrillo
Menai



Gogledd Cymru
North Wales



Pontio



FRÂN
WEN



Byw'n Iach

GISDA



hunan iaith
Menter iaith Gwynedd






leuenctid Gwynedd Youth



ieuenctidgwyneddyouth



@ieuGwyneddyouth



@ieuGwyneddyouth




ieuenctidgwyneddyouth


Canfyddiadau Holiadur Pobl Ifanc 2025




Pa mor gyfarwydd mae'r pobl ifanc o Wasanaeth Ieuenctid yn eich hardal?




Beth yw'r prif resymau mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwait ieuenctid yn y gymuned?




I ba raddau mae cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid wedi gwella fy.....?




Beth, os unrhyw beth sy'n eich atal rhag cymryd rhan gyda chlybiau ieuenctid, rhaglenni neu weithgareddau yn y gymuned?



Sut fydddech chi'n graddio'r 'cynnig' ar gyfer pobl ifanc yn eich ardal leol yn gyffredinol?



**Hyd yn oed os nad ydych yn mynychu eich hun,
ydych chi'n credu bod digon o glybiau
ieuenctid, rhaglenni a gweithgareddau yn eich
ardal leol ar gyfer plant/pobl
ifanc eich oedran chi?**



Beth ydych chi'n feddwl ddylai prif flaenoriaethau'r Gwasanaeth Ieuenc'tid fod?



Cyflogaeth a Gyr...

Mannau diogel i G...

Rhaglenni...

Iechyd Meddwl a Llesiant

Cymorth Sgiliau Bywyd




Cyflawniad...

Cymdeithasol a Ham...


Ymwby...




Ble fyddai'n well gennych chi gael mynediad at gefnogaeth ieuenctid?




Pa mor bwysig ydych chi'n meddwl ydy rôl y Gwasanaeth Ieuenc'tid yn yr ysgol?



Pa mor bwysig ydych chi'n meddwl ydy rôl y Gwasanaeth Ieuenctid yn y gymuned?



Ydych chi'n teimlo bod eich barn yn cael ei chlywed yn ystod gweithgareddau ieuenctid?




Gwell gennyf beidio â dweud

Beth yw'r prif bryderon/heriau sy'n eich wynebu fel person ifanc?



Pa lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ydych chi'n eu defnyddio fwyaf i ryngweithio â sefydliadau neu wasanaethau?



Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	10/04/25
TEITL	ADY yn y Prif Lif ac Ysgolion Arbennig
RHESWM DROS GRAFFU	Craffu'r ddarpariaeth addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i sicrhau mewnbwn a dealltwriaeth y Pwyllgor Craffu o'r cynnydd a wnaed i sicrhau bod Gwynedd yn barod ar gyfer y Ddeddf ADY a Chynhwysiad newydd.
AWDUR	Ffion Edwards Ellis, Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (Adran Addysg)
AELOD CABINET	Cyng. Dewi Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad yma mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i dderbyn adroddiad am ADY yn y Prif Lif ac Ysgolion Arbennig.
- 1.2 Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem 'Strategaeth Addysg Gwynedd tuag at 2032' yng Nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Medi 2023, mynegwyd pryder ynglŷn â 2 fater penodol,
 - Gorlenwi yn y ddwy ysgol ADY yng Ngwynedd.
 - Y nifer o blant yn y prif lif sy'n methu ymdopi â system addysg prif lif.
- 1.3 Mae newid arwyddocaol yn y maes o ran integreiddio a rôl cymorthyddion. Gellid ystyried sut mae dyraniad cyllidol y sector addysg arbennig yng Ngwynedd yn cymharu gyda gweddill Cymru ynghyd â'r heriau yn y maes.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Bwriad yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth am sefyllfa ADY yng Ngwynedd yng nghyd-destun newid yn y ddeddfwriaeth yn ogystal â newid yn y galw am wasanaeth.

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

- 3.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sefyllfa anodd sy'n wynebu Ysgolion Gwynedd yn sgil y newid yn y galw am wasanaeth, yr hinsawdd ariannol bresennol ac effaith toriadau.
- 3.2 Mae angen rhoi diweddariad ynglŷn â sefyllfa Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd yng nghyd-destun newid yn y ddeddfwriaeth a newid yn y galw am wasanaeth.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1. Gwybodaeth Allweddol:

- Mae'r Ddeddf newydd 'ADY a Thribiwnlys Cymru (2018)' wedi dod i rym ers Medi 2021, gyda chyfnod trosglwyddo yn diwedd ym mis Medi 2025.
- Sefydlwyd Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad ym Mis Medi 2017, ar y cyd rhwng Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth wedi esblygu dros y blynyddoedd ers hynny, er mwyn ymateb i newidiadau yn y galw, ac wedi cael ei Adolygu yn allanol yn 2020, ac eto yn Rhagfyr 2023.
- Mae dwy Ysgol Arbennig ar gyfer ADY o fewn yr Awdurdod – Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar.

4.2 Beth yw'r ddarpariaeth ADY yn y prif lif?

- Mae pob Ysgol yn derbyn cyllid ar gyfer darparu ar gyfer dysgwyr gyda Chynllun Datblygu Unigol (CDU). Maent yn creu map darpariaeth trwy ddefnyddio'r cyllid hwn. Ar hyn o bryd ceir cyllid ychwanegol trwy wneud cais i'r Panel Cymedroli ar lefel plentyn unigol. O Fawrth 2025 (yn dilyn gwaith gweithgor, ac ymgynghori gydag Ysgolion a swyddogion Cyllid) bydd hyn yn newid i dderbyn cyllid ar sail fformiwla. Bydd y fformiwla yn defnyddio data nifer dysgwyr gyda CDU, yn ogystal â dwyster eu hanghenion.
- Mae'r Gwasanaeth ADY a CH yn cefnogi'r Ysgolion i ddarparu ar gyfer y dysgwyr. Mae'r math o fewnbwn yn ddibynnol ar yr anghenion sydd gan yr ysgol a'r dysgwyr. Rydym yn teilwra'r mewnbwn er mwyn ymateb yn y ffordd fwyaf addas. Mae'r mewnbwn yn cael ei roi am gyfnod, gyda ffocws ar uwchsgilio staff yr ysgol er mwyn gallu ymateb i'r anghenion. Rydym yn mesur cynnydd yn dilyn derbyn mewnbwn. Gweler Atodiad 1.
- Yn hanesyddol, mae cyllideb yr Ysgolion Arbennig wedi eu gwarchod rhag toriadau, tra bod toriadau wedi bod i gyllideb yr Ysgolion Prif lif. Mae'r Ysgolion Arbennig yn cael eu hariannu ar sail dwyster angen pob dysgwr yn defnyddio 'bandiau' i ddisgrifio angen y dysgwyr.

4.3 Beth sy'n gweithio?

- Mae'r trosglwyddo i'r Ddeddf Newydd 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Cymru 2018' wedi bod yn llwyddiannus yn nhermau:
 - Cydweithio gyda'r Ysgolion i drosglwyddo dysgwyr i Gynlluniau Dysgu Ychwanegol, o'r hen drefniadau Datganiadau, yn llwyddiannus.
 - Creu mapiau darpariaeth sydd yn gyson (ond gyda blas mwy lleol ar lefel ysgol unigol) ar draws y dalgylchoedd a'r ysgolion.
 - Creu systemau datrys anghydfod gyda rhieni, ysgolion a'r Swyddogion Ansawdd ADY. Mae hyn wedi ei nodi fel arfer dda o fewn Arolwg Thematig ADY Estyn (2023). Mae linc i'r adroddiad i'w weld ar ddiwedd yr adroddiad.
 - Adolygu'r drefn gyllido ar gyfer Ysgolion Cynradd, fel bod y dull o gyllido yn ymateb i ofynion y ddeddf newydd.
 - Mae yna berthynas weithio glos rhwng yr Ysgolion a'r tîm ADY a CH, ac mae adnabyddiaeth dda o'r ddarpariaeth gan yr ALI.
 - Mae'r Ddeddf yn gofyn i Ysgolion a'r ALI 'gadw eu darpariaeth o dan adolygiad parhaus'. Mae hyn y cynnwys dod i farn ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r ddarpariaeth, a'r ymyraethau sydd yn cael eu cynnig. Rydym wedi sefydlu proses

i wneud hyn. Mae'r broses adolygu yn ffordd i'r Gwasanaeth Ansawdd fonitro'r darpariaethau a thrafod datblygiadau pellach gyda'r Ysgolion gyda gwybodaeth allweddol ar gael o fewn y CDU. Mae'r timau arbenigol hefyd yn mesur cynnydd y dysgwyr sydd yn derbyn neu fewnbwn yn dymhorol, gyda'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da.

- Mae gennym System CDU electroneg, ac mae'r datblygiad hwn wedi bod yn arloesol. Mae gennym Grŵp Defnyddwyr y CDU wedi ei sefydlu er mwyn datblygu'r system ymhellach, gyda ffocws bob amser ar leihau baich gwaith y Cydlynwyr ADY a CH yn ein hysgolion.
- Mae Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol ADY o fewn y Ddeddf yn Statudol. Mae gennym berthynas agos a systemau cyfathrebu clir gyda'r swyddog yma, ac mae hyn yn rhan allweddol o'n prosesau cyd-weithio a datrys anghydfod gyda rhieni.
- Mae ein hadnabyddiaeth o ADY yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd a'r cynnig darpariaeth iddynt yn arfer dda. Mae buddsoddiad wedi bod i'r maes hwn trwy fid am gyllid.

4.4 Sut bwriedir sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu'r galw? Pa gefnogaeth a hyfforddiant arbenigol sydd ar gael i staff sydd yn cefnogi disgyblion gydag anghenion dwys yn yr ysgolion prif lif? A yw'n ddigonol?

Mae'r ddarpariaeth sydd yn cael ei ddarparu wedi ei deilwra i anghenion yr ysgol neu'r dysgwr lle mae hynny yn bosib. Mae Atodiad 1 yn crynhoi beth sydd yn cael ei gynnig.

Mae yn fwy heriol gwneud hyn erbyn hyn, gydag adnoddau yma yn cael eu taenu yn deneuach. Mae'r Data sydd yn Atodiad 2 yn nodi'r cynnydd mewn anghenion. Mae hefyd angen nodi bod anghenion dysgwyr yn fwy cymhleth a lluosog erbyn hyn. Mae sgiliau datblygol cyfathrebu a rhyngweithio, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol yn feysydd lle y gwelir twf.

Wrth i gyllidebau ysgolion grebachu, maent yn gweld hi'n anoddach darparu beth sydd yn eu map darpariaeth. Mae hynny yn arwain at fwy o geisiadau am fewnbwn gan y Tîm ADY, a hefyd gwneud ceisiadau i ddysgwyr drosglwyddo i'r Ysgolion Arbennig.

4.5 Pa gamau sydd mewn lle i ymateb i heriau yn y maes?

i) Beth yw'r heriau?

- Mae cyfrifoldeb statudol y Ddeddf ADY wedi ymestyn cyfrifoldebau cyfreithiol. Oherwydd hyn, mae pwysau gwaith ar Ysgolion, yn enwedig y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CLADY) wedi cynyddu yn sylweddol. Mae hyn yn her i Ysgolion, yn enwedig yn lle mae cyllidebau yn crebachu, a'r gallu i ryddhau'r CLADY i gyflawni'r rôl yn her. Mae hyn wedi ei gydnabod yn Arolwg Thematig ADY Estyn (2022) a gan Lywodraeth Cymru.
- Mae Adnoddau yn brin ac yn prinhaus. Gydag anghenion yn cynyddu a chymhlethu, mae diwallu anghenion yn gynyddol heriol. Hynny yn wir i ysgolion, a'r Tîm ADY yn wynebu cynnydd mewn cyfeiriadau. Mae grantiau yn y maes hwn yn cael eu darparu gan LIC, ond nid yw'n cyfateb i'r cynnydd mewn gofyn, ac nid oes sicrwydd o arian yn ailadrodd, felly mae'n anodd cynllunio yn strategol (Atodiad 2 - Data).
- Mae'r galw am leoliad arbenigol yn cynyddu, ac nid yw pob cais am leoliad arbenigol yn addas. Mae gennym ddysgwyr dwys a chymhleth sydd angen eu cefnogi yn y prif lif, ond

mae'r her o wneud hyn yn cynyddu yn sgil cyllideb. Mae hyn yn gyrru rhieni i wneud ceisiadau am Ysgol Arbennig.

- Mae niferoedd Tribiwnlysoedd wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf (yn rhannol gysylltiedig â'r pwynt blaenorol), sydd yn heriol o ran amser Swyddogion ac Ysgolion (Atodiad 3 - Nifer Tribiwnlysoedd).
- Mae diffyg argaeledd unigolion sydd yn edrych am swydd fel Cymhorthydd o fewn Ysgol yn her, ac yn rhoi straen ar fap darpariaeth ysgolion pan fo swyddi gweigion.
- Mae'r drefn o hyfforddi Seicolegwyr Addysgol trwy Brifysgol Caerdydd yn effeithio ein gallu i recriwtio Seicolegwyr Addysgol sydd yn medru'r Gymraeg. Mae'n rôl statudol o fewn y Ddeddf, ac yn rôl allweddol o ran adnabod y ddarpariaeth y mae'r Dysgwyr ei angen.

ii) Beth fyddwn ni'n ffocysu arno er mwyn ymateb i'r heriau?

- Ym mis Mawrth 2025 fe fydd y dull cyllido Ysgolion Cynradd yn newid i ddull trwy fformiwla er mwyn:
 - Rhoi mwy o sefydlogrwydd cyllidol i gynnal staffio.
 - Trefn sydd yn fwy cyson ar draws ysgolion - mae'r fformiwla yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sydd gyda CDU, yn ogystal â dwyster meysydd angen y dysgwr.
 - Lleihau biwrocratiaeth sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
- Byddwn angen ystyried a oes angen llunio bid ar gyfer ymestyn y cyllid integreiddio sydd ar gael i ysgolion ddarparu ymyraethau digonol, gyda heriau cyllidol yn rhoi straen ar hyn ar hyn o bryd ac yn gyrru ceisiadau am leoliad arbenigol, ac anghydfod posib gyda rhieni.
- Byddwn yn cyd-weithio gyda Phenaethiaid a CLADY er mwyn:
 - Roi sylw i rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CLADY), lleihau biwrocratiaeth, a threfniadau cydweithio ar draws y dalgylchoedd.
 - Monitro a gwerthuso'r drefn cyllido newydd.
 - Sicrhau bod y gwasanaeth ADY a CH yn addasu i ymateb i ofynion ysgolion Gwynedd.
- Gyda'r galw am leoliad arbenigol yn parhau, rydym yn:
 - Parhau gyda'r gwaith o fapio'r galw tebygol am ddarpariaethau arbenigol o'r blynyddoedd cynnar i fyny (gweler 4.6).
 - Edrych yn ofalus ar beth yw ein cynnig ar gyfer dysgwyr sydd gydag anghenion dwys yn y prif lif, ond lle na fyddai ysgol arbennig yn lleoliad addas. Rydym eisoes wedi trefnu hyfforddiant ym mis Ebrill ar gyfer Ysgol Prif lif, ar gyfer cynllunio ar gyfer dysgwyr gydag anghenion sylweddol yn y prif lif. Bydd yr Ysgolion Arbennig, a rhai o'n Hysgolion Prif Lif, yn rhannu arfer dda yn ystod y diwrnod.
 - Cydweithio gyda Phenaethiaid yr ysgolion arbennig i fapio eu capasiti. A'r cwricwlwm sydd yn cael ei gynnig (e.e. yn y sector OI-16). Byddwn hefyd yn edrych ar y dull cyllido trwy fandio anghenion (Gweler 4.6).
 - Defnyddio grant cyfalaf ADY ar gyfer gwneud addasiadau i gynydd capasiti/amgylchedd ddysgu ar gyfer dysgwyr yn yr ysgolion arbennig, prif lif a'n canolfannau.
- Parhau i roi sylw i'r angen am ddull hyfforddi ar gyfer Seicolegwyr Addysgol. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ynglŷn â llwybr hyfforddi yng Ngogledd Cymru (Prifysgol Bangor).

4.6 Beth yw'r cynlluniau i ymateb i'r gorlenwi yn yr ysgolion arbennig?

Mae'r Ysgolion Arbennig wedi gweld cynnydd mewn niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf (gweler Atodiad 2), ond nid yw'r twf hwn yn gynaliadwy. Mae'r trosglwyddiadau i'r Ysgolion Arbennig yn tueddu i ddigwydd ar adegau penodol:

- Dysgwyr sydd ag anghenion dwys yn y blynyddoedd cynnar, sydd yn cael cyfnod asesu yn y canolfannau ABC, yna'n trosglwyddo i'r Ysgolion arbennig yn oedran Dosbarth Derbyn (4/5 oed).
- Dysgwyr yn symud i mewn i'r ardal sydd wedi bod yn mynychu ysgolion arbennig yn eu hardal flaenorol.
- Dysgwyr sydd yn dod i ddiwedd cyfnod allweddol (fel arfer diwedd y cyfnod sylfaen neu tuag at amser trosglwyddo i'r Uwchradd) gyda phryder am eu gallu i wneud cynnydd yn y prif lif.

Wrth edrych ar y graff yn Atodiad 2, gellir gweld bod yna gynnydd wedi digwydd i'r niferoedd gyda'r plant sydd ym mlwyddyn 6-8 yn bresennol, gyda'r nifer yn sefydlogi ar ôl hynny. Mae'n debygol bod hyn yn y cyfnod pan nad oedd ystod canolfannau ADY a CH ar gael i gefnogi'r prif lif, a hefyd tuag at ddiwedd cyfnod y ddeddfwriaeth bresennol. Fe gafwyd hefyd nifer o deuluoedd yn symud i'r ardal yn dilyn y clo.

Mae'n anarferol i ddysgwyr drosglwyddo yn ôl i'r prif lif unwaith maent wedi symud i ysgol arbennig, ac maent yn gallu aros yn yr ysgol nes eu bod yn cyrraedd Blwyddyn 14 (18/19 oed).

Mae'n anarferol i ddysgwr rannu lleoliad gydag Ysgol Prif lif, ond mae hyn yn gallu gweithio yn dda i rai.

Ar gyfer targedu'r sefyllfa yma rydym wedi bod yn cymryd y camau canlynol:

- Mapio: Mae ein prosesau Blynyddoedd Cynnar ar gyfer adnabod ADY yn gryf. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu mapio anghenion yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer rhagweld niferoedd yn well nag erioed. Rydym wedi cychwyn mapio anghenion mwy dwys yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd a'r dysgwyr sydd yn derbyn mewnbwn gan y timau, er mwyn rhagweld pa ddysgwyr sydd yn debygol o fod angen lleoliad arbenigol yn y dyfodol.
- Integreiddio: Pan mae dysgwr yn mynychu'r Ganolfan ABC (Meithrin) erbyn hyn, mae pob un yn rhannu lleoliad gydag Ysgol Prif lif. Mae hyn yn ein cynorthwyo i arsylwi ar y plentyn mewn sefyllfa prif lif - os yw'r plentyn yn ymdopi yn y prif lif, yna fe ddylen ni fod yn gallu parhau gyda hynny. Byddwn hefyd yn edrych ar fodolau o rannu lleoliad gydag Ysgol Arbennig lle mae'n bosib, a throsglwyddo yn ôl i'r prif lif os ydy dysgwr wedi gwneud cynnydd digonol i allu ymdopi gyda chwricwlwm prif lif.
- Canolfannau a Grwpiau Ymyrraeth: Rydym wedi cychwyn newid y ddarpariaeth mae rhai o'n timau yn ei ddarparu i ddysgwyr mwy anghenus yn y prif lif, er mwyn rhoi cefnogaeth fwy rheolaidd iddynt, ac uwch sgilio'r ysgolion mewn ffordd wahanol. Byddwn hefyd yn edrych ar fapiau darpariaeth gyda'n hysgolion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn ffinio ar angen lleoliad arbennig, ond yn gwneud cynnydd yn y prif lif.
- Cynllunio ar y cyd: Byddwn yn dod a'r wybodaeth uchod ynghyd gydag Arweinwyr yr Ysgolion Arbennig yn fuan, er mwyn cynllunio ymhellach ar draws y sector.
- Rydym wedi buddsoddi grant Cyfalaf ADY yn Ysgol Pendalar er mwyn gwella defnydd y gofod sydd ar gael yno, a chynyddu capasiti.

Bydd yr uchod yn ein galluogi i ddatblygu gwasanaeth a strategaeth ar gyfer sicrhau ein bod yn diwallu gofynion Dysgwyr Gwynedd.

4.7 Faint o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn ysgolion prif lif Gwynedd?

Mae'r data sydd yn Atodiad 2 yn ddata blynyddol. Roedd data byw ar y 23/3/25 yn dangos yr wybodaeth isod. Mae yna 2139 o blant gyda CDU (cywir 23/3/25) yng Ngwynedd, sydd yn 12.8% o'r boblogaeth 0-25. Mae yna hefyd 36 plentyn sydd â Chynllun Meddygol Unigol oherwydd cyflwr e.e. Epilepsi, Diabetes Math 1, sydd yn ddarpariaeth ar gyfer anghenion meddygol yn unig. Mae hyn yn cyfateb i 0.2% o'r boblogaeth ysgol/cyn ysgol.

CDU Ysgol – Darpariaeth Ysgol	943
CDU Fforwm - Darpariaeth Ysgol, gyda mewnbwn gan Dîm ADY	876
CDU Awdurdod - Darpariaeth ychwanegol i ysgol, gyda mewnbwn gan Dîm ADY	320

4.8 A oes gan yr holl ddisgyblion ADY yn yr ysgolion prif lif Gynllun Datblygu Unigol? Os ddim, oes yna broses mewn lle i gadw llygaid ar y disgyblion yma?

Os yw darpariaeth addysg (cyn ysgol/ysgol neu goleg 0l-16) wedi adnabod bod gan ddysgwr ADY (ac felly angen Darpariaeth Dysgu Ychwanegol) mae gan y dysgwr CDU. Os yw ysgol/cyn-ysgol/coleg yn y broses o dargedu am gyfnod, neu gasglu tystiolaeth i wneud penderfyniad a oes gan ddysgwr ADY, nid oes ganddynt CDU eto.

Mae gan bob ysgol fap darpariaeth, ac fel rhan o'r map byddant yn adnabod sut y maent yn cadw llygad ar gynnydd dysgwr, er mwyn cychwyn proses 'ymholiad ADY' os ydynt yn teimlo efallai bod ADY yn amlygu.

5. Ymgynghori

- Cydweithio gyda Phenaethiaid i Ddatblygu'r Fformiwla Gyllido ADY a CH.
- Casglu gwybodaeth ynglŷn â barn ysgolion trwy fesuryddion bodlonrwydd.
- Bydd Ymgynghori pellach yn digwydd gyda Phenaethiaid yr Ysgolion Arbennig fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.

6.2 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

6.3 O ran **cydweithio a chynnwys eraill**, rydym yn:

- Casglu holiaduron bodlonrwydd misol gan rieni a staff ysgolion, ac ymateb i'r sylwadau hyn.
- Casglu barn dysgwyr ar ddiwedd ymyrraeth lle mae hynny yn bosib, a hefyd trwy broses Cynllunio Person Ganolog o fewn y CDU.
- Trafod gyda Phenaethiaid yn y Grwpiau Strategol a'r Ffederasiwn.

- Cyfarfod Panel Blynyddol gyda phob ysgol, lle mae cyfle iddynt roi barn am agweddau gwahanol o'r gwasanaeth.

Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

- Mae'r Ddeddfwriaeth ADY a Thribiwnlys Cymru yn nodi pwysigrwydd ymateb yn gynnar i unrhyw angen sydd yn codi. Mae adnabod angen dysgwr yn gynnar yn hanfodol i leihau'r angen hir dymor.
- Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau adnabod ADY, fel ein bod yn rhagweithiol mewn atal problemau rhag datblygu.
- Mae gennym brosesau cryf o ran cychwyn y broses yn y blynyddoedd cynnar, ac mae hyn wedi ei adnabod gan Estyn (Arolwg Thematig ADY)

Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

O ran y **tymor hir** ac edrych i'r dyfodol, rydym eisoes yn ymwybodol o'r cynnydd yn y galw am wasanaethau. Rydym yn defnyddio data ynglŷn â thueddiadau er mwyn adnabod y galw. Mae hyn yn dechrau o'r crud, gan fod y Ddeddf ADY yn ddeddf 0-25 oed.

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

- Rydym yn cydweithio yn agos gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol ADY o fewn y bwrdd lechyd, gyda'n partneriaid yn y Blynyddoedd Cynnar, a gwaith amlasiantaethol cyson.

7. **Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cydymffurfio â Deddf ADY a Thribiwnlys Cymru 2018

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cynnig gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd asesiad effaith yn cael ei gynnal pan yn berthnasol i unrhyw newid.

8. **Camau Nesaf** Gweler 4.5.

Gwybodaeth Cefndir

Thematig Estyn -

Estyn (tud 37 a 43) - [Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd](#)

Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Addysg Cymru -

[The Education Tribunal for Wales, Annual Report 2023-24](#)

Atodiadau

Atodiad 1 – Strwythur Staffio Gwasanaeth ADY a CH (Gwynedd)

Atodiad 2 – Data ADY

Atodiad 3 – Data Apeliadau/Tribiwnlys

Atodiad 1 – Strwythur ADY a CH a'r Ddarpariaeth

O fewn y Gwasanaeth ADY mae'r Timau Gwyrdd yn dimau 'Anghenion Dysgu Ychwanegol', y Timau glas yn dimau 'Cynhwysiad'. Mae'r timau sydd yn oren yn dimau sydd yn cefnogi ADY a Chynhwysiad.

Mae gan pob tim Arweinydd Tim

Mae'r Adroddiad hwn yn ffocysu ar y ddarpariaeth ADY.

Ymestyn Allan = gwasanaeth hyfforddi, modelu ac ymgynghori

Canolfannau Dros Dro = Mae dysgwyr yn gwario rhan o'u hwythnos mewn canolfan o fewn Ysgol Prif lif i gael mewnbwn uniongyrchol



Atodiad 1 – Strwythur ADY a CH a’r Ddarpariaeth

Beth yw’r mewnbwn mae’r Timau yn ei roi?

CDU Awdurdod

- Darpariaeth ychwanegol o'r map darpariaeth ysgol
(mewnbwn **grwp bach, unigol** o fewn y dosbarth am gyfnodau, neu lleoliad **ysgol arbennig**)
- Mewnbwn gan un o Dimau ADY a CH - modelu, ymgynhori, hyfforddi
 - Plant mewn Gofal sydd ag ADY
 - Plant Blynnyddoedd Cynnar sydd ag ADY

CDU Fforwm

- Darpariaeth Ysgol (o fewn y map darpariaeth
- **Mewnbwn** gan un o Dim ADY a CH - **modelu, ymgynhori** neu **leoliad mewn Canolfan am gyfnod, hyfforddiant**

CDU Ysgol

- Darpariaeth Ysgol (o fewn y map darpariaeth)
- **Hyfforddiant** ar gael trwy'r Tim ADY a CH

Atodiad 1 – Strwythur ADY a CH a’r Ddarpariaeth

Pan mae gan Ddysgwr Anghenion Dysgu Ychwanegol mae eu meysydd angen yn cael eu nodi o fewn Cynllun Datblygu Unigol. Mae’r rhaid i pob CDU gynnwys ‘darpariaeth dysgu ychwanegol (h.y. sydd yn nodi beth fydd yr ysgol yn ei ddarparu i ddiwallu’r ADY.

Dylai creu’r CDU fod yn broses lle mae’r teulu a’r dysgwyr yn cael mewnbwn.

Mae’r ddarpariaeth dysgu ychwanegol yn rhywbeth sydd yn cael ei gynnig o fewn map darpariaeth yr ysgol, ac yn cynnwys mewnbwn gan y Tim ADY gyda CDU Fforwm a CDU Awdurdod.

Pan mae’r CDU yn un ‘Awdurdod’ mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei roi mewn lle. Pan yn un Ysgol neu Fforwm, mae’r ysgol yn gyfrifol am roi

Atodiad 2 – Data Tueddiadau Maes ADY

Niferoedd Dysgwyr sydd gyda CDU yng Ngwynedd:

PLASC	CDU Awdurdod	CDU Ysgol /Fforwm	Cyfanswm	
2022	767	1186	1953	Cyfanswm yn dangos cynnydd mewn niferoedd ers 2022. Mae cynnydd ar pob lefel.
2023	804	1109	1913	
2024	795	1148	1943	
2025*	852	1219	2071	Statws CDU Y ydyw CDUFf yn ôl y Ddeddfwriaeth – mae'r lefel Fforwm yn ddisgrifiad lleol i Wynedd a Mon, lle mae'r Tim yn ymwneud a dysgwyr sydd ar CDU Y.


Niferoedd Dysgwyr wedi eu lleoli mewn Ysgolion Arbennig yng Ngwynedd:

Mae'r tabl a'r graff yn dangos nifer dysgwyr wedi eu lleoli mewn Ysgol Arbennig. Sylwer fod y nifer wedi cynyddu ers 2022, ond mae'r proffil oed yn dangos cynnydd mewn cyfnod penodol (bl 6-8 yn y cyfnod hwn), ac mae'r graff yn dangos hyn yn y tueddiad dros amser. Mae'r llinell graff i weld yn sefydlogi yn y blynyddoedd ieuengaf yn yr ysgol, sydd yn bwysig o ran cynllunio.

Cyfnod / BCC	PLASC	-1	0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	Cyfanswm
Arbennig	2022	1	14	16	11	9	17	15	12	18	20	18	15	13	17	14	8	218
Arbennig	2023	4	15	13	16	13	10	23	18	16	18	20	18	15	10	15	12	236
Arbennig	2024	1	14	15	15	16	14	12	24	21	15	17	18	15	8	7	11	223
Arbennig	2025	2	17	15	17	17	16	16	13	24	22	14	17	18	14	8	6	236

Atodiad 2 – Data Tueddiadau Maes ADY

Cymhariaeth Oedran Dysgwyr o fewn yr Ysgolion Arbennig



Atodiad 2 – Data Tueddiadau Maes ADY

Disgrifiad PLASC Dysgwyr sydd a CDU (mae posib rhoi dau ddisgrifiad)

Mae angen cofnodi maes angen pob dysgwyr ADY yn y data PLASC blyneddol. Mae Ysgol yn gallu rhoi prif faes, ac ail faes. Fe welir o'r data isod bod y defnydd o rhai disgrifiadau wedi cynyddu dros y dair blynedd diwethaf, gyda'r meysydd sydd mewn coch yn sefyll allan fel meysydd cynnydd. Mae hefyd o bosib yn adlewyrchu'r cynnydd cymhlethdod anghenion, lle mae angen defnyddio mwy nag un cod.

PLASC	ADHD	ASD	Cymdeithasol, Ymddygiadol, Emosiynol	Anawsterau Rhifedd (DYSC)	Anawsterau Lythrennedd (DYSL)	Dyspracsia	Anawsterau Dysgu Cyffredinol	Nam Ciyw	Anawsterau Dysgu Cymedrol	Amlsynhwyrdd	Cortforol/Meddygol	Dwys a Lluosog	Lleferydd, Iaith a Cyfathrebu	Anawsterau Dysgu Dwys	Nam Golwg	Cyfanswm
2022	29	132	137	3	11	10	25	17	47	3	86	42	264	126	32	964
2023	40	163	196	3	19	14		22	78	5	111	53	382	128	39	1253
2024	36	167	225	2	20	14		20	99	5	112	44	404	131	40	1319

Apeliadau a ddaeth i law i Dribiwnlys Addysg Cymru¹

Nifer yr apeliadau AAA / ADY (Hen ddeddf) a ddaeth i law i Dribiwnlys Addysg Cymru rhwng 2015-2016 a 2022-2023 o awdurdod lleol Gwynedd, ac fel canran yr apeliadau o gyfanswm awdurdodau lleol Cymru

Deddf ADY		Deddf AAA/ADY			Deddf AAA				
2024-2025 (hyd yma)	2023-2024	2022-2023	2021-2022	2020-2021	2019-2020	2018-2019	2017-2018	2016-2017	2015-2016
4	4	2	1	2	5	2	2	2	2
Heb Gyhoeddi		ADY: 5% AAA: 0%	17%	1%	4%	1%	2%	1%	2%

Ffynhonnell:

<https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol>, cyrchwyd 29/04/2024.

¹ neu ei enw flaenorol Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	10fed Ebrill 2025
TEITL	Polisi Iaith Addysg
RHESWM DROS GRAFFU	Yn dilyn cyflwyno canfyddiadau'r broses Ymgysylltu ar 13-2-25 yng nghyd destun diwygio'r Polisi Iaith estynwyd gwahoddiad i ddychwelyd i'r Pwyllgor Craffu i gyflwyno drafft o'r polisi diwygiedig.
AWDUR	Rhys Meredydd Glyn, Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd
AELOD CABINET	Cyng. Dewi Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Mae'r newidiadau ieithyddol sy'n digwydd yng Ngwynedd, yn ogystal â newidiadau o ran dylanwad Llywodraeth Cymru ar addysg yng Nghymru, yn ei gwneud hi'n amserol i ddiwygio Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd. Yng ngoleuni'r broses ymgysylltu bu'r Adran Addysg yn cydweithio hefo Meirion Prys Jones i lunio drafft Polisi Iaith Addysg diwygiedig a gyflwynir fel atodiad i'r adroddiad hon ar gyfer ei graffu.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Drafft Polisi Iaith Diwygiedig Addysg:

Mae'r drafft polisi hwn yn ymgais i osod uchelgais Gwynedd i sicrhau fod plant a phobl ifanc y Sir yn tyfu i fod yn ddefnyddwyr Cymraeg hyfedr ac yn datblygu medrau dwyieithog neu amlieithog o fewn ein Cyfundrefn Addysg.

Dyma'r cam cyntaf ar ein taith fel Adran i ddiwygio'r polisi iaith. Mae llunio polisi yn broses gymhleth ac rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith ar yr agweddau cyfreithiol yn y maes hwn, wrth i Fesur y Gymraeg ac Addysg esblygu ar ei daith drwy'r senedd. Dyma gyfle i ofyn am eich barn, a'ch arweiniad fel aelodau etholedig o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ynglŷn â chyfeiriad strategol y polisi drafft hwn

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Mae'r adroddiad hon yn crynhoi'r newidiadau arfaethedig i'r Polisi Iaith Addysg presennol, fel â ganlyn:

- Bydd holl leoliadau addysg cyn-ysgol yn darparu trwy gyfrwng Y Gymraeg.
- Bydd pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Blwyddyn 2 yn cael ei addysgu a'i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 2. Bydd ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson, y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol.

- Bydd pob disgybl o flwyddyn 3 ymlaen, mewn cyd-destun o feithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd llawn yn astudio o leiaf 80% o weithgareddau addysgol (cwrwricwlaid ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.
- Parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. O flwyddyn 3 ymlaen, bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu trawsgwricwlaid.
- Yn yr ysgolion Uwchradd y Gymraeg fydd prif iaith yr addysg i'r holl ddisgyblion hyd at 16 oed (yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru o'r disgwyliadau statudol ar ysgolion Categori 3 Uwchradd).
- Parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Bydd Y Saesneg yn parhau i gael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu rhai elfennau trawsgwricwlaid.
- Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynyddoedd 2-9) sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg gael eu cyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwrwiclwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd.
- Bydd plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol yn unol â'r Polisi hwn.
- **Prif newidiadau arwyddocaol a gynigir i'r Polisi iaith presennol yw dileu dwyieithrwydd a dysgu dwyieithog. Mae'r polisi yn nodi'n glir mai Cymraeg fydd prif iaith yr addysgu.**

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1: Mae Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn rhan o strategaeth ehangach gan y Cyngor, i sicrhau fod plant a phobl ifanc hyd at 18 oed yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn Y Gymraeg ac yn Saesneg, fel eu bod yn hyfedr ddwyieithog.

4.2: Fel rhan o Ddeddfwriaeth Addysg (2013), bu'n ofynnol i bob awdurdod lleol gytuno *Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)* gyda Llywodraeth Cymru – cynllun sy'n weithredol am gyfnod o ddeng mlynedd (2023-2033). Amlinellir y prif egwyddorion cyfredol sy'n gysylltiedig â pholisïau iaith addysg Cyngor Gwynedd yn y *CSCA*.

4.3: Yn 2016, cyhoeddwyd strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* (Llywodraeth Cymru). Pwysleisia'r ddogfen bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â phwysigrwydd cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae nodau'r strategaeth yn cyd-fynd â'r nodau strategol mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn eu hyrwyddo ers nifer o ddegawdau.

4.4: O fewn *Deddf Cwrwiclwm ac Asesu (Cymru)* (Llywodraeth Cymru; 2021) nodir bod y Gymraeg yn ofyniad gorfodol. Rhan o'r elfennau gorfodol hyn yw:

- Cymraeg
- Saesneg: o 7 oed.

4.5: Disgwylir, yn ogystal, i strategaethau addysg Cyngor Gwynedd roi ystyriaeth i'r dogfennau canlynol: *Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb* (Llywodraeth Cymru; 2023) a

Canllaw gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, atebolrwydd a gwella (Llywodraeth Cymru; 2024). Yn y dogfennau hyn, rhoddir dyletswydd ar yr awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru i gynllunio'n briodol ar gyfer cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad y Gymraeg, ac sy'n gwneud hynny'n ddyddiol.

4.6: Datblygiad arall yw bwriad Llywodraeth Cymru i roi ar y Llyfr Statud ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datblygu ymhellach agweddau ar Addysg Gymraeg – *Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)*. Nodir ynddo y "*Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol.*"

4.7: Un o fwriadau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) fydd troi'r broses o gategoreiddio ysgolion yn un statudol, a bydd yn seiliedig ar y ddarpariaeth a'r niferoedd o ddisgyblion a fydd yn derbyn addysg cyfrwng Gymraeg mewn ysgol, a hynny hyd at 16 oed. Mae pob ysgol yng Ngwynedd, yng Nghategori 3, arwahân i ddwy ysgol Uwchradd (Tywyn, Friars) ac un ysgol gynradd (Ein Harglwyddes), sydd yng Nghategori 3T (Trosiannol).

4.8: Yn y sector uwchradd, bydd pwyslais ar gynyddu'r nifer o feysydd astudio fydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dilyn cyrsiau hyd at 16 oed, trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf, ac mae rheidrwydd statudol ar i'r Awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y twf hwn.

4.9: Un o amcanion y newidiadau arfaethedig i'r Polisi Iaith Addysg presennol, yw cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd disgwyl i'r addysgu sy'n digwydd yn ysgolion Gwynedd, am 70% o'r amser, fod drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r 30% sy'n weddill i gael ei ddefnyddio ar gyfer addysgu Saesneg, fel pwnc, ac fel cyfrwng dysgu rhai elfennau trawsgwricwlaidd.

4.10: Yn sgîl unrhyw newidiadau y cytunir arnynt, ac yn sgîl yr angen i ymgorffori'r Ddeddf yn y Polisi Iaith Addysg, fe fydd yn bolisi statudol. Polisi enghreifftiol yw'r Polisi Iaith Addysg presennol.

4.11: Fel rhan o ffurfio'r Polisi byddwn fel Adran yn llunio Asesiad Cydraddoldeb manwl ac Asesiad Ardrowiad Iaith o'i weithredu.

4.12: Byddwn hefyd yn cynnal proses Ymgynghori Cyhoeddus.

5. Ymgynghori(Ymgysylltu)

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ar draws y tri rhanbarth dros gyfnod o ddau fis Hydref a Rhagfyr 2024. Treuliwyd amser hefo cynrychiolaeth o benaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac ysgolion gydol oes:

Ysgolion Cynradd:

Arfon: Ysgol Ein Harglwyddes, Ysgol Hiracl, Ysgol Llandygai, Ysgol Llanllechid, Ysgol Rhosgadfan.

Dwyfor: Ysgol y Gorlan, Ysgol Trefarthyr, Ysgol Llanbedrog

Meirionnydd: Ysgol Cefn Coch, Ysgol, Talsarnau, Ysgol y Traeth

Ysgolion Arbennig: Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

Ysgolion Uwchradd:

Arfon: Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Brynrefail, Ysgol Tryfan ac Ysgol Friars, Ysgol Dyffryn Nantlle

Dwyfor: Ysgol Botwnnog, Ysgol Eifionydd, Ysgol Glan y Môr

Meirionnydd: Ysgol Y Moelwyn, Ysgol Ardudwy, Ysgol Tywyn

Ysgolion Gydol Oes: Ysgol Bro Idris, Ysgol Godre'r Berwyn.

- 5.1** Yn ogystal, croesawyd disgyblion i'r cyfarfodydd ymgysylltu i drafod y polisi iaith. Paratowyd deunyddiau cefndirol addas a phwrpasol ar gyfer ystod oed gwahanol ddysgwyr. Sicrhawyd hefyd fod llais croes doriad o blant a phobl ifanc Gwynedd yn cael gwrandawid yn y cyfarfodydd. Dewiswyd plant o ysgolion yng nghadarnleoedd y Gymraeg yng Ngwynedd, ynghyd â'r ardaloedd fwy seisnigedig gan gynnwys ysgol yn y categori trosiannol yng nghydestun darpariaeth Cyfrwng Gymraeg yr ysgol.

Dysgwyr Ysgolion Cynradd: Ysgol Cymerau, Ysgol Bro Hedd Wyn ac Ysgol Cae Top

Dysgwyr Ysgolion Uwchradd: Ysgol Botwnnog, Ysgol y Moelwyn, Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Tywyn

Dysgwyr Ysgolion Arbennig: Ysgol Hafod Lon.

- 5.2** Hefyd cynhaliwyd cyfarfod ymgysylltu ar gyfer cynrychiolwyr canlynol:

Mudiadau iaith:

Cylch yr iaith

Cymdeithas yr iaith

Dyfodol yr iaith

RHAG-Cymdeithas Rhieni ac Athrawon dros Addysg Gymraeg

- 5.3** Croesawyd hefyd gynrychiolwyr o **Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi Gwynedd:**
Cynghorwyr: Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Beth Lawton, Richard Glyn Roberts a Rhys Tudur

- 5.4** Hefyd croesawyd y Cynghorwyr canlynol i gynrychioli'r **Pwyllgor Iaith:**
Cynghorwyr: Menna Baines, Meryl Roberts, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans ac Olaf Cai Larsen.

- 5.5** Trefnwyd cyfarfod hefyd hefo cynrychiolwyr o blith **Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd** ynghyd â chyfarfod hefo swyddogion y Comisiynydd iaith.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 6.1** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.
- 6.2** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.
- 6.3** O ran **cydweithio a chynnwys** eraill, rydym eisoes wedi cynnal sesiynau ymgysylltu rhwng Hydref a Rhagfyr 2024, gweler pwynt 5 am ragor o wybodaeth,
- 6.4** Roedd cynnal y broses ymgysylltu yn cydnabod yr angen i ddiwygio'r polisi iaith presennol yng ngoleuni datblygiadau diweddar gan gynnwys ystadegau cyfrifiad 2021. Mae gweithredu rŵan yn gyfle i ymateb i'r sefyllfa a cheisio **atal** llithriad pellach yn niferoedd dysgwyr 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg.
- 6.5** Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc Gwynedd yn datblygu'n ddinasyddion hyderus dwyieithog yn gwella cyfleoedd iddynt yn addysgol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yn yr **hirdymor** ac yn cyfoethogi eu profiad o fyw a gweithio trwy'r Gymraeg yng Ngwynedd.
- 6.6** Mae grymuso Polisi iaith Addysg y sir yn sylfaen gadarn i ddatblygu dinasyddion dwyieithog ac yn cydymffurfio hefo statws yr iaith Gymraeg yng nghyd-destun Cyrff Cyhoeddus.

7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

- 7.1** Cynhelir Astudiaeth Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o lunio'r Polisi iaith terfynol. Rhoddir ystyriaeth i'r holl sylwadau a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghori, gan addasu'r Polisi iaith Addysg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel sy'n briodol yn sgil y sylwadau a dderbynnir.

8. Camau Nesaf

- 8.1** Cabinet Cyngor Gwynedd 13/5/25 neu 10/6/25

Atodiadau

Atodiad 1 - Drafft Polisi Iaith Addysg Cryno

Atodiad 2 - Strategaeth i Gefnogi Polisi Addysg Cyngor Gwynedd

Atodiad 3 - Polisi Un dudalen

Atodiad 4 – Adroddiad Prif Negeseuon Cyfarfodydd Ymgysylltu Polisi Iaith

Atodiad 5 - Cwestiynau Ychwanegol

Cyngor Gwynedd: Polisi Iaith Addysg Drafft

1. Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023 – 2033

Nod

Rydym yn bwriadu creu strategaeth gynhwysol, gyda'r prif nod o gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn nifer helaeth o wahanol gyd-destunau. Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o'r iaith ym mhob rhan o'u bywydau, byddwn hefyd gobeithio yn cynyddu'r cymhelliant i eraill ddysgu'r iaith. Rydym am roi sylw penodol i ddefnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys rhoi sylw i'w defnydd o'r Gymraeg gyda thechnoleg, dangos iddynt werth yr iaith fel sgil i'r byd gwaith, a cheisio cynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol.

2. Polisi Iaith Addysg Diwygiedig Cyngor Gwynedd

Prif nod y Polisi hwn yw sicrhau bod ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau gan Gyngor Gwynedd i ysgolion gydymffurfio â'r disgwyliadau a nodir yn y drefn newydd o gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth ieithyddol. Disgwylir i ysgolion a chyrff llywodraethol fod yn gwbl ymwybodol o'r diffiniadau a geir yn y ddogfen honno wrth gynllunio'u darpariaeth addysgol.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Mae'r polisi hwn yn rhan o strategaeth ehangach gan Gyngor Gwynedd i gynnal y Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn y sir.

Fel rhan o'r polisi hwn bydd disgwyl i Benaethiaid a Llywodraethwyr ysgolion gynllunio'n fwriadus i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir.

Amcanion:

Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethol yn sicrhau:

- bod eu hysgol yn cydymffurfio â'r diffiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru o ysgol Categori 3 a bod y wybodaeth berthnasol am gyfrwng yr addysgu yn yr ysgol yn cael ei gyfleu yn glir i rieni a darpar rieni'r ysgol.
- bod pob disgybl yn meddu ar sgiliau priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn cyrraedd diwedd cyfnod o addysg statudol.

- bod darpariaeth addas ar gael i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n derbyn addysg drochi ar ba bynnag gyfnod mae hynny'n digwydd.
- bod pob disgybl sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei annog i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd.
- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith a Safonau Iaith lle bo hynny'n berthnasol, yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd **ac allgyrsiol**.

Darpariaeth addysg cyn-ysgol

Bydd holl leoliadau addysg cyn-ysgol yn darparu trwy gyfrwng Y Gymraeg.

Cynradd

Mae pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgysraedd at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion cynradd.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Nod y Polisi Iaith Addysg yn y sector cynradd yw datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn eu bod yn 11 oed, gan ddatblygu sgiliau ieithyddol disgyblion a darparu cyfleoedd **i'w defnyddio** mewn sefyllfaoedd real ac ystyrlon.

Cymraeg yw prif gyfrwng addysg disgyblion a chyfathrebu mewnol ysgolion cynradd Gwynedd. Bydd cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg a Chymreig, a fydd yn cefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Blwyddyn 2

Mae pob disgybl yn cael ei addysgu **a'i asesu** drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 2. **Bydd ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson, y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol.**

Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6

O flwyddyn 3 ymlaen, mewn cyd-destun o feithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd llawn, bydd o leiaf 80% o weithgareddau addysgol y disgybl (cwrwclwaid ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. O flwyddyn 3 ymlaen, bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu trawsgwricwlaidd.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynnyddoedd 2-6) sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwrwclwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd.

Uwchradd

Mae pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgysraedd at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Ar gyfer pob ysgol yn y categori hwn, y Gymraeg fydd prif iaith yr addysg i'r holl ddisgyblion hyd at 16 oed (yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru o'r disgygliadau statudol ar ysgolion Categori 3 Uwchradd).

Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Bydd Y Saesneg yn parhau i gael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu rhai elfennau trawsgwricwlaidd.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynnyddoedd 7-9) sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwrwclwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd. Bydd ysgolion yn darparu'n ieithyddol briodol ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd yn cyrraedd yr ysgolion fel hwyrddfyodiaid ym mlynnyddoedd 10 ac 11.

Cymraeg fydd y brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofawyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Bydd gan bob

ysgol ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

3. Anghenion Dysgu Ychwanegol Ysgolion Prif ffrwd ac Ysgolion Arbennig.

Mae plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol yn unol â'r Polisi hwn. Mae **rhaidd** rhoi sylw i Ddeddf ADY a Tribiwnlys Cymru (2018) wrth ddehongli'r polisi hwn. Lle mae Darpariaeth Dysgu Ychwanegol wedi ei nodi mewn Cynllun Datblygu mewn cyfrwng iaith penodol ar gyfer y cyfathrebu ac ymyrraeth, mae rhaid rhoi sylw i roi hynny mewn lle, a chyd-fynd gyda chyngor arbenigol. Mae'n rhaid rhoi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb yn ogystal.

4. Cynlluniau Cynnydd Y Gymraeg (Ysgolion Unigol)

Bydd disgwyl i bob ysgol a chorff Llywodraethol gyflwyno'u blaenoriaethau datblygu'r Gymraeg i Gynllun Cynnydd Y Gymraeg. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gytuno gyda Chyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn unol â Deilliannau'r CSGA.

Pwysleisir yn nogfennaeth y Llywodraeth mai lleiafswm yw'r canrannau a nodir yn y diffiniad o Ysgolion Categori 3.

Strategaeth i Gefnogi Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd

1.Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023 – 2033

Nod

Rydym yn bwriadu creu strategaeth gynhwysol, gyda'r prif nod o gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn nifer helaeth o wahanol gyd-destunau. Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o'r iaith ym mhob rhan o'u bywydau, byddwn hefyd gobeithio yn cynyddu'r cymhelliant i eraill ddysgu'r iaith. Rydym am roi sylw penodol i ddefnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys rhoi sylw i'w defnydd o'r Gymraeg gyda thechnoleg, dangos iddynt werth yr iaith fel sgil i'r byd gwaith, a cheisio cynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol.

2.Polisi Iaith Addysg Gwynedd 2024-2034

Cefndir

Cyfrifiad 2021

Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd **73,560 o bobl** (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd sy'n cyfateb i **64.4%**.

Yn 2011 roedd nifer y siaradwyr yng Ngwynedd yn **77,000** a'r ganran gyfatebol yn **65.4%**. Felly mae'r gyfran o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Ngwynedd rhwng 2011 a 2021 wedi gostwng o 1%.

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu cynlluniau mewn nifer o feysydd polisi statudol cenedlaethol, ac yn gweithredu cynlluniau ar lefel leol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau'r sir, ac sy'n ymwneud mewn nifer o ffyrdd â'r ymdrechion i geisio cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)
- Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd
- Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy

- Cynlluniau Adfywio Ardal Ni

3. Defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

O safbwynt cynllunio ieithyddol, mae sawl ffactor allweddol yn effeithio ar ddefnydd iaith unigolion.

- **cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg** – mae ansawdd a hwylustod cyfleoedd yn gallu effeithio'n fawr ar ddefnydd a chynnal defnydd o'r iaith i'r dyfodol.
- **dilyniant mewn defnydd o'r Gymraeg**– parhad profiadau a chyfleoedd o'r cartref i addysg gynradd i uwchradd; o addysg uwchradd i addysg bellach neu uwch; o addysg i fyd gwaith, hamdden, magu teuluoedd, yn ogystal â rhwng profiadau cymdeithasol a chymunedol a rhwng dysgu Cymraeg a dod yn rhugl.
- **agweddau tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd** – mae'n bwysig ystyried sut mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo am eu gallu a'u defnydd o'r iaith a'r modd maen nhw'n gweithredu ar hynny neu ddim, a sut mae pobl ddi-gymraeg yn teimlo am yr iaith a'r modd y caiff hyn ei gyfleu a'i ganfod.
- **hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd** - mae hyder siaradwyr Cymraeg yn gallu amrywio yn ôl sefyllfa (e.e. ffurfiol ac anffurfiol) ac felly mae angen ystyried sut a ble i dargedu cefnogaeth yn effeithiol.

O safbwynt yr heriau sydd wedi eu hadnabod yng Ngwynedd, dyma rai o'r prif rai ar hyn o bryd:

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Defnydd iaith pobl ifanc
- Statws y Gymraeg yn y gymuned
- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Creu siaradwyr newydd
- Dylanwad technoleg
- Sylfaen tystiolaeth a'r gallu i fesur effaith cynlluniau ac ymyraethau
- Heriau demograffig a daearyddol yn cynnwys mudoedd pobl
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Yn sicr ddigon, cael pobl i ddefnyddio'r sgiliau a'r gallu sydd ganddyn nhw i siarad Cymraeg, a hynny mewn cymaint â phosibl o gyd-destunau, yw'r ffactor allweddol i ffyniant yr iaith yng Ngwynedd.

4. Camau datblygu yn strategaeth iaith y Cyngor ym maes addysg

Targed

- Sicrhau fod pob disgybl yn dod yn rhugl ddwyieithog
- Cynnydd cyffredinol yn y defnydd rheolaidd o'r Gymraeg.
- Llawer mwy o ddisgyblion yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at lefel arholiad allanol (16oed)
- 100% o blant Gwynedd yn cael y cyfle i siarad Cymraeg a defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

5. Y Cyd-destun

Wrth lunio Polisi Iaith Addysg newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd, rhaid edrych bellach ar gyd-destun ehangach na rôl a gwaith y Cyngor ei hun. Bu Cyngor Gwynedd yn arloesi'n gyson wrth ddatblygu cyfundrefn addysg flaengar dros y degawdau diwethaf gan arwain llawr o ddatblygiad ym maes darparu a hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithog. Wrth adeiladu ar yr arloesi hwn ar gyfer y dyfodol rhaid bellach ystyried yn ofalus y datblygiadau sy'n digwydd ym maes addysg Gymraeg a dwyieithog ar lefel Cymru gyfan gan fod nifer o gamau arloesol a statudol yn digwydd bellach ar y lefel honno.

Ers i'r broses o ddatganoli grymoedd i Lywodraeth Cymru gael ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan gynyddol allweddol wrth lunio'r cyd-destun deddfwriaethol cenedlaethol o ran iaith ac addysg yng Nghymru. Fel y cam cyntaf wrth i'r Llywodraeth ymgymryd â'i gyfrifoldeb ym maes addysg a'r Gymraeg, cyhoeddodd y Llywodraeth ei **Strategaeth Addysg Gymraeg** gyntaf yn 2010 gan osod targedau penodol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth.

<https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/11114/14/100420welshmediumstrategygy Redacted.pdf>

Yn 2013 gosododd **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/contents/welsh> y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) ar sail statudol a hynny fel dilyniant i'r Cynlluniau Addysg Gymraeg a oedd yn ofynnol gan awdurdodau lleol o dan **Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**.

6. Cytuno Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg

Fel rhan o Ddeddfwriaeth 2013, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) statudol cyntaf ar gyfer y cyfnod 2014-2017. Yn 2018 penderfynwyd diwygio'r rheoliadau ar gyfer y cynlluniau hyn a'u newid o fod yn gynlluniau strategol 3 blynedd i fod yn gynlluniau dros gyfnod o 10 mlynedd. Cytunwyd CSGA diweddaraf Cyngor Gwynedd gyda Llywodraeth Cymru yn 2022 ac mae'n weithredol dros y cyfnod 2023-2033.

Nodir yn y Canllaw ar gyfer llunio'r CSGA mai:

Diben y rheoliadau hyn yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyfrannu at gyflawni'r disgwyliad o ran twf addysg cyfrwng Cymraeg, nawr ac yn y dyfodol. Bydd gwella'r ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chynllunio hefyd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgais genedlaethol hirdymor ar gyfer y Gymraeg a amlinellir yn ein strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>

Fel dilyniant i hyn yn 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ddiweddaraf ar gyfer y Gymraeg, strategaeth iaith a fyddai'n cwmpasu'r tri degawd nesaf hyd at y flwyddyn 2050: **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith ynghyd â'r defnydd ohoni

Nodau Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

	Nod	Targed
1.	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	1 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050
2.	Cynyddu defnydd o'r Gymraeg	Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20%
3.	Creu amodau ffafriol -seilwaith a chyd-destun	

Nodir yn y strategaeth hefyd nifer o dargedau penodol eraill sy'n berthnasol i Bolisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd:

Addysg:

- ***Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant i 30% erbyn 2031, ac yna i 40% erbyn 2050.***
- ***Gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70% o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.***

- ***Cynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 ac i 5,200 erbyn 2050;***
- ***Cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 ac i 1,200 erbyn 2050; 4***
- ***Cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 ac i 4,200 erbyn 2050.***

Pwysleisia'r ddogfen strategol *Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ond hefyd pwysleisir hefyd fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig.

Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol..... Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) mae cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg – mae 84 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.

Yn y dogfennau hyn oll rhoddir dyletswydd ar yr awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru i gynllunio'n briodol ar gyfer cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad y Gymraeg ac sy'n gwneud hynny'n ddyddiol.

7. Bil Addysg Gymraeg

Datblygiad arall sydd ar droed yw bwriad Llywodraeth Cymru i roi ar y Llyfr Statud ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datblygu ymhellach agweddau ar Addysg Gymraeg. Nodir yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn, mai'r bwriad yw y :

Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol. Ymhlith y prif gynigion mae:

- *Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith*
- *Creu un continwrm sgiliau Cymraeg i ddisgrifio lefelau sgiliau fel bod dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr yn dod i ddealltwriaeth gyffredin o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg*
- *Sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith*

- ***Dros amser, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Gymraeg penodedig***
- *Gofyniad i Weinidogion Cymru greu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, a'i adolygu bob tymor Seneddol*
- ***Diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodir gan Weinidogion Cymru***
- ***Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Gymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr; a***
- *Rhoi cymorth arbenigol i ysgolion o ran dysgu Gymraeg*

O'r hyn a nodir yn y Papur Gwyn, gellir gweld yn glir fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf hyn a bod rheidrwydd statudol ar i'r awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y twf hwn. Disgwylir bod gan yr awdurdodau addysg gynlluniau yn eu lle er mwyn cefnogi ysgolion wrth iddynt gynyddu'r ddarpariaeth hon.

Felly, wrth fwrw ati i ddiwygio Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd, mae llawer mwy o ddylanwad gan ddeddfau a strategaethau Llywodraeth Cymru ar gynnwys polisiâu iaith awdurdodau lleol nag a fu'n flaenorol. Bellach mae'r llywodraeth yn nodi'n ddigon clir ei dyhead i weld y Gymraeg ac Addysg yn y Gymraeg yn ffynnu ac yn datblygu yng Nghymru a hynny drwy gydol y cyfnod mae disgyblion mewn addysg statudol a thu hwnt.

Mae'r Bil Addysg Gymraeg yn chwarae rhan allweddol yn yr hyn sydd i'w gynnwys mewn Polisi Iaith Addysg, yn benodol iawn oherwydd y newidiadau sydd wedi digwydd i'r broses o gategoreiddio holl ysgolion Cymru yn ôl eu natur ieithyddol.

Mae pob ysgolion gynradd ac uwchradd yn disgyn i un o dri chategori. Defnyddir y rhifau 1, 2 a 3 i ddynodi'r categorïau. Yn y cynradd bydd Categori 1 yn cyfeirio at ysgolion sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg, Categori 2 ar ysgolion dwy iaith a Chategori 3 at ysgolion sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

<https://senedd.wales/media/r3cm5xcm/pri-ld16583-w.pdf>

I'r ysgolion hynny nad ydynt yn cyrraedd yn llawn y diffiniad o'r categori ieithyddol y mae dymuniad iddynt fod ynnddi, bydd cyfnod trosiannol ynghyd â chynllun dyblygu'n cael ei gytuno gyda'r awdurdod lleol a'i gynnwys fel rhan o'r diwygiadau i'r CSGA a gytunir gyda'r llywodraeth. Y bwriad a'r uchelgais yw y bydd holl ysgolion cynradd Gwynedd yn ysgolion Categori 3 Cynradd.

Yn y sector uwchradd bydd 3 chategori hefyd ond mae'r diffiniad o'r rhain ychydig yn wahanol i'r diffiniad ar gyfer y sector gynradd. Mae'r pwyslais, bellach, ar gynyddu'r nifer o bynciau sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg a **phwyslais hefyd ar gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau i ddilyn cyrsiau hyd at 16 oed trwy gyfrwng y Gymraeg.**

Yn ei ragair i'r ddogfen *Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (2021) nododd y Gweinidog Addysg:

O edrych ar y cyd-destun byd-eang – dwyieithrwydd yw'r norm. Rwy'n falch ein bod ni yng Nghymru yn cefnogi system wirioneddol ddwyieithog sy'n adlewyrchu demograffeg ddwyieithog Cymru a statws swyddogol y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, yn ogystal â'n nod llesiant o sicrhau bod 'y Gymraeg yn ffynnu'.

Rwyf am i bob dysgwr gael y cyfle i fod yn ddinesydd dwyieithog, ond mae hefyd yn bwysig i mi ein bod ni'n creu dysgwyr sy'n defnyddio'r iaith. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Rwyf am sicrhau bod pobl nid yn unig yn gallu dod yn siaradwyr Cymraeg ond eu bod hefyd yn teimlo'n hapus i'w defnyddio ym mhob agwedd ar eu bywydau. Dyma fy ngweledigaeth i.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Nodir yn y ddogfen uchod wrth gyflwyno'r trefniadau newydd mai un o'r prif egwyddorion fydd yr egwyddor o beidio darparu llai nag a ddarparwyd cynt:

*Un o'r egwyddorion craidd wrth gyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol. **Rydym am sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddio eu Cymraeg mewn cymaint o gyd-destunau gwahanol â phosibl yn ystod y diwrnod ysgol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i'n dysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.***

8. Cwricwlwm i Gymru (2021)

O fewn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 sy'n amlinellu'r Cwricwlwm i Gymru **nodir bod y Gymraeg yn ofyniad gorfodol.**

Noda'r ddeddfwriaeth sy'n gosod y rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm newydd i Gymru fod yna (yn ogystal â phedwar diben y cwricwlwm) elfennau mandadol sy'n rhychwantu'r continwwm dysgu 3 i 16 oed, sef:

- Sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- Enwau'r meysydd dysgu a phrofiad
- Addysg cydberthynas a rhywioldeb
- Crefydd, gwerthoedd a moeseg
- **Cymraeg**
- **Saesneg— o 7 oed.** Gall penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir arfer eu disgresiwn wrth benderfynu a fyddan nhw'n cyflwyno Saesneg i ddysgwyr rhwng 3 a 7 oed, ac i ba raddau. Diben hyn yw hwyluso'r broses o drochi

dysgwyr y blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg. Felly, disgwylir y bydd ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn parhau i gynnwys Saesneg yn eu cwricwla

Mae Polisi Iaith Addysg Gwynedd hefyd yn cymryd i ystyriaeth y dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- *Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb Llywodraeth Cymru (2023)*
- *Canllaw gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, atebolrwydd a gwella (Statudol yn 2024)*

9. Proffil ieithyddol ac addysgol Gwynedd.

Mae ystadegau cyfrifiad 2021 yn dangos fod **86.2%** o blant 3-15 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn ganran sylweddol yn uwch na chanran siaradwyr Cymraeg ymhlith y boblogaeth gyffredinol, sef canran o 64.4%.

Dwy ffordd sydd o gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg, a hynny un ai drwy'r cartref neu drwy gyfrwng y gyfundrefn gofal ac addysg. Mae'r niferoedd hyn yn dangos fod Polisi Iaith Addysg ysgolion Gwynedd wedi cael effaith gadarnhaol iawn drwy gynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn y sir. Yng Ngwynedd hefyd mae'r nifer mwyaf a'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021. Gwelwyd y lleihad lleiaf o bob awdurdod lleol yn y ganran hon rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021.

O edrych ar lwyfan ehangach, ac o edrych ar sefyllfa ieithoedd nad ydynt yn ieithoedd gwladwriaeth, mae Gwynedd gyda'r gorau o ran marchnata ei hiaith leiafrifol. Mae'n dra thebyg y gellir dweud fod Gwynedd yn fwy llwyddiannus am gynnal ei sefyllfa ieithyddol o ran y Gymraeg nag unrhyw ranbarth yn y byd ar wahân i'r sefyllfa yng Nghatalonia, iaith sydd ag iddi oddeutu 10 miliwn yn ei siarad, a hynny ar draws sawl gwladwriaeth. Felly gall Cyngor Gwynedd ymfalchïo yn ei pholisi iaith a pholisïau addysg ar hyd y degawdau diwethaf gan eu bod wedi chwarae rhan allweddol yn y llwyddiant ieithyddol hwn. Ond cred Cyngor Gwynedd fod lle pellach i arloesi a gwella gyda'i Pholisi Iaith Addysg ysgolion.

10. Hyder ieithyddol mewn dwy iaith

Fel nodwyd eisoes, mae gwella sgiliau ieithyddol yn un ffordd o fesur llwyddiant polisi o hyrwyddo dwyieithrwydd. Ond er mwyn i ddwyieithrwydd sefydlog fod yn llwyddiannus, rhaid sicrhau bod gan bobl ifanc yr hyder i siarad y ddwy iaith, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gwbl rugl mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Oherwydd bod cymdeithas yn newid yn sylweddol ar hyn o bryd a llawer o bobl ifanc yn byw mewn cartrefi nad oes neb, neu un rhiant yn unig, yn siarad y Gymraeg, nid oes cymaint o gyfleodd i siarad Cymraeg yn y cartref neu gyda'r teulu estynedig ag a fu. Er hynny gall y gyfundrefn addysg gyflwyno llawer o sgiliau ieithyddol i blant a phobl ifanc a'u gwneud yn gwbl rugl yn y ddwy iaith. Ond er mwyn i'r Gymraeg a sgiliau dwyieithog ffynnu ac i'r hyder

ymysg ei siaradwyr gynyddu, rhaid i'r iaith gael ei siarad yn ddyddiol ac mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd, ffurfiol ac anffurfiol. Dyna'r rheswm paham fod ail brif darged y ddogfen *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yn pwysleisio'n benodol yr angen i gynyddu defnydd ymarferol o'r Gymraeg. Yno nodir y pwysigrwydd o gynyddu defnydd cymdeithasol o'r iaith, y defnydd yn y cartref, mewn gweithleoedd ac wrth gynnig gwasanaethau yn gyffredinol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n amlwg na all y gyfundrefn addysg ar ei phen ei hun gyflawni'r holl ofynion neu ddisgwyliadau hyn. Rhaid felly gynllunio strategaeth ehangach na pholisi addysg yn unig. Bydd y strategaeth addysg wrth gwrs yn ganolog i strategaeth llawer mwy holistaidd a fyddai'n ystyried sut y gellir ehangu'r cyfleoedd i bobl yng Ngwynedd ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gwbl hyderus mewn unrhyw sefyllfa.

11. Hyrwyddo Dwyieithrwydd ac Addysg Ddwieithog

Nod y polisi hwn yw hyrwyddo sgiliau dwyieithog pob disgybl o fewn yr awdurdod, a hynny mewn sir sydd â'r ganran uchaf a'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Bu Gyngor Gwynedd yn awdurdod arloesol iawn o ran hyrwyddo addysg Gymraeg/dwyieithog ers degawdau. Gwelwyd llwyddiant digamsyniol y polisi hwn yn y niferoedd o bobl ifanc sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn holl rhugl o fewn y sir. Ond er mwyn diogelu'r datblygiadau hyn rhaid cynllunio'n fwriadus er mwyn parhau i gynnal a gwella sgiliau ieithyddol disgyblion sy'n byw o fewn y sir. I gynnal a datblygu'r lefel uchel o hyfedredd yn y ddwy iaith sydd wedi ei ddatblygu rhaid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn colli tir a hynny mewn cyd-destun o symudedd pobl a globaleiddio cyffredinol.

Yr hyn sy'n amlwg bellach yw bod yn rhaid cynllunio'n fwriadus a gofalus er mwyn cynnal hyfedredd dwyieithog ein pobl ifanc. Un o'r dulliau mwyaf effeithiol i wneud hyn fydd rhoi mwy o gyfleodd iddynt dderbyn eu haddysg a'u profiadau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg a hynny at 16 oed. Rhaid parhau felly i gynllunio'r broses o drochi ieithyddol sy'n digwydd yn hynod effeithiol yn y cynradd ac ymestyn y broses honno yn fwy trwyadl i'r sector uwchradd. Er mwyn cyrraedd dwyieithrwydd llawn mae'r holl dystiolaeth yn dangos ei bod hi'n hynod fuddiol i ddisgyblion barhau a chanran uchel o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg tra eu bod o fewn y gyfundrefn addysg statudol ac ôl statudol. Nod y polisi hwn yw cyfrannu at y gynhaliath ieithyddol hon sydd yn sicrhau hyfedredd dwyieithog cadarn a chynhaliol. Bydd dilyn y trywydd hwn yn heriol i rai ysgolion, ond bydd cefnogaeth ar gael gan Gyngor Gwynedd wrth fynd ati i gynllunio ac i fonitro llwyddiant y datblygiadau hyn wrth iddynt fynd yn eu blaen ac wrth i ysgolion uwchradd fanteisio ar y cyfleodd y mae'r polisi newydd hwn yn ei gynnig.

12. Polisi Iaith Addysg Diwygiedig Cyngor Gwynedd

Prif nod y Polisi hwn yw sicrhau bod ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau gan Gyngor Gwynedd i ysgolion gydymffurfio â'r disgwyliadau a nodir yn y

drefn newydd o gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth ieithyddol. Disgwylir i ysgolion a chyrff llywodraethol fod yn gwbl ymwybodol o'r diffiniadau a geir yn y ddogfen honno wrth gynllunio'u darpariaeth addysgol.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Mae'r polisi hwn yn rhan o strategaeth ehangach gan Gyngor Gwynedd i gynnal y Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn y sir.

Fel rhan o'r polisi hwn bydd disgwyl i Benaethiaid a Llywodraethwyr ysgolion gynllunio'n fwriadus i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir.

Amcanion:

Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethol yn sicrhau:

- bod eu hysgol yn cydymffurfio â'r diffiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru o ysgol Categori 3 a bod y wybodaeth berthnasol am gyfrwng yr addysgu yn yr ysgol yn cael ei gyfleu yn glir i rieni a darpar rieni'r ysgol.
- bod pob disgybl yn meddu ar sgiliau priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn cyrraedd diwedd cyfnod o addysg statudol.
- bod darpariaeth addas ar gael i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n derbyn addysg drochi ar ba bynnag gyfnod mae hynny'n digwydd.
- bod pob disgybl sy'n hwyrddyfodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei annog i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd.
- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith a Safonau Iaith lle bo hynny'n berthnasol, yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd **ac allgyrsiol**.

Darpariaeth addysg cyn-ysgol

Bydd holl leoliadau addysg cyn-ysgol yn darparu trwy gyfrwng Y Gymraeg.

Cynradd

Mae pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgysylltu at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion cynradd.

[<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf)

Nod y Polisi Iaith Addysg yn y sector cynradd yw datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn eu bod yn 11 oed, gan ddatblygu sgiliau ieithyddol disgyblion a darparu cyfleoedd **i'w defnyddio** mewn sefyllfaoedd real ac ystyrlon.

Cymraeg yw prif gyfrwng addysg disgyblion a chyfathrebu mewnol ysgolion cynradd Gwynedd. Bydd cyfathrebu â rhieni a gofalmwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg a Chymreig, a fydd yn cefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Blwyddyn 2

Mae pob disgybl yn cael ei addysgu **a'i asesu** drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 2. **Bydd ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson, y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, yn gwrwnglaidd ac yn allgyrsiol.**

Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6

O flwyddyn 3 ymlaen, mewn cyd-destun o feithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd llawn, bydd o leiaf 80% o weithgareddau addysgol y disgybl (cwrwnglaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. O flwyddyn 3 ymlaen, bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu trawsgwrwnglaidd.

Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod ac ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwmo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynnyddoedd 2-6) sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwrwnglwrm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd.

Uwchradd

Mae pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgysraedd at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Ar gyfer pob ysgol yn y categori hwn, y Gymraeg fydd prif iaith yr addysg i'r holl ddisgyblion a hynny yng nghyd-destun datblygu'n llawn sgiliau dwyieithog pob disgybl. Cymraeg hefyd fydd y brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalmwr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Bydd ysgolion uwchradd Gwynedd yn sicrhau dilyniant a pharhad i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd pob disgybl yn parhau i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd hyd at 16 oed, (yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru o'r disgwyliadau statudol ar ysgolion Categori 3 Uwchradd), ar wahân i ddisgyblion sy'n cael eu cynnwys o fewn Polisi Eithriadau'r Cyngor.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynnyddoedd 7-9) sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd.

13. Anghenion Dysgu Ychwanegol Ysgolion Prif ffrwd ac Ysgolion Arbennig

Mae plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol yn unol â'r polisi hwn.

Mae **rhaidd** rhoi sylw i Ddeddf ADY a Tribiwnlys Cymru (2018) wrth ddehongli'r polisi hwn. Lle mae Darpariaeth Dysgu Ychwanegol wedi ei nodi mewn Cynllun Datblygu mewn cyfrwng iaith penodol ar gyfer y cyfathrebu ac ymyrraeth, mae rhaid rhoi sylw i roi hynny mewn lle, a chyd-fynd gyda chynghor arbenigol. Mae'n rhaid rhoi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb yn ogystal.

14. Cynlluniau Datblygu Ysgolion Unigol (Y Gymraeg)

Bydd disgwyl i bob ysgol a chorff Llywodraethol gyflwyno'u blaenoriaethau datblygu'r Gymraeg i Gynllun Cynnydd Y Gymraeg. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gytuno gyda Chynghor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn unol â Deilliannau'r CSGA.

Pwysleisir yn nogfennaeth y Llywodraeth mai lleiafswm yw'r canrannau a nodir yn y diffiniad o Ysgolion Categori 3.

15: Diffiniad o Garfannau Iaith

Er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ar y continwmm ieithyddol, bydd ysgolion cynradd yn asesu gallu ieithyddol disgyblion yn unol â diffiniadau'r Garfannau Iaith. Cyfrifoldeb yr

Ysgolion Uwchradd yw darparu dilyniant a pharhad priodol er mwyn bod y disgyblion yn datblygu yn hyfedr ddwyieithog.

A	Mae sgiliau Cymraeg a Saesneg y disgyblion yma yn gadarn, ac maent yn hyderus i gwblhau eu gwaith dosbarth drwy gyfrwng y ddwy iaith.
B	Mae sgiliau Cymraeg y disgyblion yma yn gryfach na'u sgiliau Saesneg. Mae'u sgiliau Saesneg yn wan.
C1	Er bod sgiliau Saesneg y disgyblion yma yn gryfach na'u sgiliau Cymraeg, mae ganddynt y gallu i gwblhau eu gwaith dosbarth drwy gyfrwng y Gymraeg.
C2	Mae sgiliau Cymraeg y disgyblion yma yn gyfyng. Mae'n bur debyg eu bod yn hwyrddyfodwyr / siaradwyr newydd.
CH	Mae defnydd y disgyblion yma o'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfyng.

16. Is-gategoriâu Trosiannol

Mae tair ysgol mewn categori trosiannol yng Ngwynedd. Bydd cynllun gweithredu yn sgil y penderfyniad hynny wedyn yn cael ei gytuno rhwng yr awdurdod a'r ysgol ar gyfer symud yr ysgol unigol ar hyd y continwrm ieithyddol fel bod rhagor o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu a hynny dros orwel penodol a rhesymol.

Pwysleisia dogfennaeth y Llywodraeth mai'r bwriad gyda'r cyfnodau trosiannol yw annog cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nodir:

Pwysleisiwn yma mai cynyddu'r ddarpariaeth o'r Gymraeg, a hynny er mwyn symud i'r categori nesaf, yw nod yr is-gategoriâu trosiannol. Ni ddylai categorïau trosiannol fod yn barhaol. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gytuno ar gynlluniau i gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac ymgorffori hyn yn eu CSGA. Disgwylir i awdurdodau lleol gynllunio'n ddwys yn ystod pum mlynedd cyntaf eu Cynllun. Yn yr un modd, disgwylir i benderfyniadau fydd yn symud ysgol ar hyd y continwrm gael eu gwneud yn ystod y pum mlynedd cyntaf. Ni ddylai unrhyw gategori trosiannol bara mwy na 10 mlynedd.

Nodir hefyd

Bydd angen sicrhau bod cynllun yn cael ei gytuno rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgol i baratoi at gynnydd yn eu darpariaeth o'r Gymraeg. Dylai unrhyw ysgol sydd mewn is-gategori trosiannol nodi hynny yn eu prospectws ysgol. Hefyd o ran awdurdodau lleol, rhaid amlinellu hynny yn eu prospectws cyfansawdd sirol.

Bydd Cyngor Gwynedd felly yn trafod gyda'r tair ysgol trosiannol hynny sydd ar hyn o bryd yn cynnig llai o Gymraeg a chyfrwng Cymraeg nag a nodir yn y trothwyon ar gyfer Ysgolion Categori 3, ac yn llunio a chytuno ar gynllun dros orwel o rhwng 5-10 mlynedd i sicrhau eu bod yn cynnig y math o ddarpariaeth sydd yn cyd-fynd â gofynion diffiniad o Ysgolion Categori 3.

17. Cynllun datblygu ardal Bangor

Oherwydd natur y ddarpariaeth addysgol/ieithyddol a gynigir yn ardal Bangor, ac oherwydd natur wahanol yr ardal o ran symudedd pobl i'r ardal o'i gymharu â gweddill sir Gwynedd, bwriedir cynnal adolygiad strategol o Bolisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd yn ardal Bangor. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y camau nesaf posibl er mwyn cyfarfod â bwriadau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymaint o ddisgyblion â phosibl yn dod yn hyderus ddwyieithog yn holl ardaloedd Cyngor Gwynedd dros y degawd nesaf.

18. Gwybodaeth i rieni

Bydd disgwyl i ysgolion rhoi gwybodaeth yn eu llawlyfrau i rieni ynghylch y drefn newydd o gategoreiddio ysgolion gan wneud yn siŵr fod y wybodaeth yn glir ac yn hawdd i'w ddeall. Bydd ysgolion hefyd o 2024 ymlaen yn cynnwys y wybodaeth hon yn eu ffurflenni CYBLD.

19. Hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg

Er mwyn i bolisi iaith Addysg Gwynedd fod yn gynhwysol darperir gwasanaeth arbenigol o fewn y sir sef Y Gyfundrefn Addysg Drochi. Mae'r gyfundrefn drochi ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn gryfder yma yng Ngwynedd. Ers ei sefydlu ar ei newydd wedd yn Ionawr 2023 ceir chwe lleoliad strategol ar draws y sir sy'n darparu gwasanaeth rhagorol i hwyrddyfodiaid i gaffael y Gymraeg.

Rhanbarth Arfon:

Uned Drochi Gynradd Maesincla, Caernarfon-(dysgwyr bl 2-4)

Uned Drochi Bontio Cynradd/Uwchradd Tryfan(dysgwyr bl 5-9)

Rhanbarth Dwyfor:

Uned Drochi Gynradd Cymerau, Caernarfon-(dysgwyr bl 2-4)

Uned Drochi Bontio Cynradd/Uwchradd Eifionydd(dysgwyr bl 5-9)

Rhanbarth Meirion:

Uned Drochi Gynradd Bro Idris, Caernarfon-(dysgwyr bl 2-4)

Uned Drochi Bontio Cynradd/Uwchradd Tywyn(dysgwyr bl 5-9)

Mae Gwynedd wedi arloesi ym maes trochi iaith ers degawdau pan sefydlwyd yr uned iaith gyntaf ddeugain mlynedd yn ôl a chenedlaethau o blant wedi datblygu'n siaradwyr newydd o ganlyniad i'r cyrsiau trochi llwyddiannus yn y canolfannau trochi iaith. O ddilyn cwrs dwys am gyfnod o ddeg wythnos arfogir dysgwyr gyda'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ymdoddi a ffynnu yn ôl yn y prif-lif mewn cyd destun ffurfiol ac anffurfiol o fewn cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog.

20. Eithriadau

Bydd eithriadau i'r Polisi Iaith Addysg yn ymwneud yn bennaf â disgyblion Uwchradd sy'n hwyrddfyodiaid i gyfundrefn addysg ysgolion Gwynedd, neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

21. Monitro'r ddarpariaeth.

Cyfrifoldeb cyrff Llywodraethwyr ysgolion yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru a lle bo hynny'n berthnasol, â pholisïau Cyngor Gwynedd ym maes addysg. Bydd Cyngor Gwynedd yn casglu data gan ysgolion ynghylch eu cydymffurfriad â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd pob ysgol a chorff Llywodraethol yn cyflwyno'u blaenoriaethau datblygu'r Gymraeg i Gynllun Datblygu Clwstwr Cynradd/Uwchradd. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gytuno gyda Chyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn unol â Deilliannau'r CSGA ynghyd â'i fonitro.

Bydd gan Gyngor Gwynedd ddiddordeb arbennig yn y nifer a'r canran o ddisgyblion sydd yn sefyll arholiadau allanol yn 16 oed trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, ac wrth ystyried cynlluniau ehangach y Llywodraeth i fonitro'r datblygiadau hyn, nodir yng nghanllaw'r Llywodraeth:

Defnyddir cynlluniau datblygu ysgolion unigol gan Estyn i ddarparu cyd-destun cyn ymweliadau arolygu a monitro. Bydd sicrhau bod cynlluniau ysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol yn golygu y gellir nodi ac ystyried cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'i datblygiad yn gywir fel rhan o brosesau monitro Estyn. Bydd hyn yn dod yn fwy perthnasol fyth wrth i Estyn geisio rhoi mwy o sylw i asesu'r ystod lawn o brofiadau sydd ar gael i ddysgwyr yn y Gymraeg fel rhan o'i fframwaith asesu.

22. Hyfforddiant.

Er mwyn gwireddu egwyddorion polisi iaith Addysg Cyngor Gwynedd, darperir hyfforddiant a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu.

23. Y Siarter Iaith/Strategaeth Iaith Uwchradd

Mae Fframwaith Genedlaethol y Siarter Iaith yn gynllun statudol ar gyfer ysgolion ym mhob sector. Nod y Siarter Iaith yw sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu fel iaith fyw y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Trwy'r gweithgareddau hyn daw plant Gwynedd yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r ddwy iaith yn gymdeithasol ac yn broffesiynol yn yr ysgol ac wedi gadael yr ysgol. Bellach, gyda'r drefn newydd o gategoreiddio ysgolion, bydd cyfle i integreiddio gwaith y Siarter Iaith i weithgaredd craidd pob ysgol a gweld y Siarter fel rhan hanfodol o hyrwyddo sgiliau dwyieithog disgyblion.

Disgwylir i ysgolion felly:

- ymgorffori gofynion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd fel rhan annatod o Gwricwlwm yr ysgol er mwyn cyflawni gofynion y strategaeth iaith sirol.
- sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'i sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer ei defnyddio'n gymdeithasol, i baratoi ar gyfer byd gwaith, ac i arddangos agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.
- cynllunio i wreiddio ac ehangu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg fel rhan integredig a chreiddiol o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd.

Bydd Cyngor Gwynedd yn cydweithio'n agos hefyd gyda sefydliadau eraill a Menter Iaith Gwynedd er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cymdeithasol yn y Gymraeg ar gyfer disgyblion oed ysgol.

24. Addysg a hyfforddiant ôl 16 oed.

Er nad yw addysg a hyfforddiant ôl 16 oed yn statudol, dymuniad Cyngor Gwynedd yw bod yr un ymrwymiad o ran hyrwyddo addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a hwyluso dwyieithrwydd yn parhau yn y sector ôl statudol. Bydd Cyngor Gwynedd yn trafod gydag ysgolion a cholegau a darparwyr prentisiaethau o fewn yr awdurdod eu cynlluniau ynglŷn ag adeiladu ar y polisi iaith addysg hwn yng nghyd-destun cynnal a datblygu sgiliau dwyieithog pob disgybl.

POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD

DARPARIAETH ADDYSG CYN YSGOL	ADY: YSGOLION PRIF FFRWD AC YSGOLION ARBENNIG
Bydd holl leoliadau addysg cyn-ysgol yn darparu trwy gyfrwng Y Gymraeg.	Mae plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol yn unol â'r Polisi hwn. Mae rhaid rhoi sylw i Ddeddf ADY a Tribiwnlys Cymru (2018) wrth ddehongli'r polisi hwn. Lle mae Darpariaeth Dysgu Ychwanegol wedi ei nodi mewn Cynllun Datblygu mewn cyfrwng iaith penodol ar gyfer y cyfathrebu ac ymyrraeth, mae rhaid rhoi sylw i roi hynny mewn lle, a chyd-fynd gyda chyngor arbenigol. Mae'n rhaid rhoi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb yn ogystal.
YSGOLION CYNRADD	YSGOLION UWCHRADD
Mae pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgynraedd at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion cynradd. Nod y Polisi Iaith Addysg yn y sector cynradd yw datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn eu bod yn 11 oed, gan ddatblygu sgiliau ieithyddol disgyblion a darparu cyfleoedd i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd real ac ystyrlon. Cymraeg yw prif gyfrwng addysg disgyblion a chyfathrebu mewnol ysgolion cynradd Gwynedd. Bydd cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg a Chymreig, a fydd yn cefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun yn yr ysgol a'r tu allan iddi. <u>Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Blwyddyn 2</u> Mae pob disgybl yn cael ei addysgu a'i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 2. Bydd ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson, y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol. <u>Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6</u> O flwyddyn 3 ymlaen, mewn cyd-destun o feithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd llawn, bydd o leiaf 80% o weithgareddau addysgol y disgybl (cwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. O flwyddyn 3 ymlaen, bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu trawsgwricwlaidd. Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynnyddoedd 2-6) sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd.	Mae pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgynraedd at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd. Ar gyfer pob ysgol yn y categori hwn, y Gymraeg fydd prif iaith yr addysg i'r holl ddisgyblion hyd at 16 oed (yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru o'r disgwyliadau statudol ar ysgolion Categori 3 Uwchradd). Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Bydd Y Saesneg yn parhau i gael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu rhai elfennau trawsgwricwlaidd. Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynnyddoedd 7-9) sy'n hwyrddfyodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd. Bydd ysgolion yn darparu'n ieithyddol briodol ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd yn cyrraedd yr ysgolion fel hwyrddfyodiaid ym mlynnyddoedd 10 ac 11. Cymraeg fydd y brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Cyfarfodydd Ymgysylltu Polisi Iaith Addysg Gwynedd.

Yr adborth a gasglwyd yn ystod cyfres o gyfarfodydd gyda thrawstoriad eang o ran-ddeiliaid yn y sector addysg statudol yng Ngwynedd

1. Y Polisi Iaith Addysg Presennol

- Cefnogaeth amlwg oedd i'w deimlo tuag at y Gymraeg, yn gyffredinol, tuag at y polisi iaith, a thuag at yr awydd i weld diweddarau'r polisi hwnnw ar draws y Sir.
- Ymdeimlad bod y polisi yn ymdrech i warchod y Gymraeg mewn cadarnle fel Gwynedd.
- Y Gymraeg oedd y norm i'r mwyafrif o ddisgyblion – doedden nhw ddim yn cwestiynu hynny, dim ond ei dderbyn fel rhywbeth cwbl naturiol.
- Yr awydd i weld newid a chryfhau'r polisi ond ddim oherwydd nad ydi'r polisi presennol yn 'gweithio' neu'n 'llwyddo'. Cydnabyddiaeth fod y polisi presennol yn perthyn i gyfnod lle'r oedd y Gymraeg ychydig yn 'gryfach' yn y Sir na'r hyn ydyw hi erbyn hyn yn 2024.
- Er bod cefnogaeth amlwg i'w weld i ddiweddarau'r polisi, ni chafwyd adborth pendant yn cynnig sut y dylid ei ddiwygio'n union.
- Mynegwyd ymdeimlad amlwg o falchder tuag at y Gyfundrefn Addysg Drochi ac awydd i'w gryfhau a'i ehangu.
- Y brif neges, felly, yn un cadarnhaol: Mae angen newid, ond nid oes angen am chwyldroi'r polisi, ond yn hytrach adeiladu ar gryfderau'r polisi presennol

2. Prif Negeseuon

Themâu - Pum is-bennawd: Cynradd, Uwchradd, Llais y Dysgwr/disgybl, Anghysondebau, Cefnogaeth

- Y sector cynradd yn arbennig o gryf o ran cynnal a datblygu sgiliau ieithyddol disgyblion
- Canmoliaeth i'r sector cynradd o ran cynnal y Gymraeg ychydig yn gryfach na'r hyn oedd hi i'r Uwchradd.
- Gwaith arbennig i greu siaradwyr hyfedr, dwyieithog, cyn trosglwyddo i flwyddyn 7, ond sefyllfa ieithyddol fwy amrywiol yn digwydd unwaith i'r trosglwyddo ddigwydd i'r Uwchradd.
- Diffyg eglurder a chysondeb o ran gweithredu'r polisi yn rhannol gyfrifol am hynny.
- Arwain at drafodaeth o'r hyn sydd wedi'i nodi yn y polisi o ran y canran o bynciau y disgwylir i ddisgyblion eu hastudio trwy gyfrwng Y Gymraeg.
- Nodwyd yr angen i angen ehangu'r capasiti i gefnogi datblygiad disgyblion wedi blwyddyn 9 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad i'w sgiliau ieithyddol i alluogi astudio pynciau cynyddol drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Llais y Dysgwyr yn gadarnhaol.
- Teimlad o anghysondeb yn y modd y gweithredir y polisi ar draws y Sir, o un ardal i'r llall, o un ysgol i'r llall.
- Awydd a dymuniad i weld newid.
- Ysgol Friars ac Ysgol Uwchradd Tywyn - barn amrywiol ynghylch sut i gynllunio ar gyfer datblygiad ieithyddol y ddwy ysgol wrth gynllunio at y dyfodol, anodd cyflwyno unrhyw gasgliad pendant o'r sgysiau.
- Pwysleisiwyd droeon yr angen i gael un polisi sirol, ond nodwyd yr angen am gynllunio'n strategol gyda phob ysgol dros gyfnod o amser i gyd-fynd â pholisi newydd o'r fath.
- Angen mwy o her yn nhargedau'n CSGA er mwyn sicrhau cynnal a chryfhau'r ddarpariaeth bresennol.

- Bod angen i'r Cyngor ddangos mwy o atebolrwydd am y polisi a chryfhau grym yr Adran Addysg i fonitro hyn.

3. Y Prif Themâu

- Angen am hyfforddiant.
- Her recriwtio i wireddu'r polisi.
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, a rôl y gymdeithas ehangach.
- Dirywiad yn nefnydd iaith plant o ganlyniad i ddylanwadau allanol.
- Awydd i weld polisi â chynnwys clir i gymunedau'r Sir i hybu ethos o gydweithio gyda mudiadau a chlybiau.
- Pwysigrwydd gweithgarwch y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd.

4. Polisi diwygiedig

- Yr angen i fonitro'r modd y mae'n cael ei weithredu.
- Pawb yn gweithio gyda'r un meini prawf.
- Cefnogaeth a chynlluniau gweithredu mesuredig.
- Targedau cyflawni clir.
- Pontio cynradd/uwchradd yn anghyson ar draws y sir - gwendid yn y modd y mae'r polisi presennol wedi bod yn cael ei ddadansoddi a'i ddehongli.

5. Hyfforddiant

- Galw am hyfforddiant penodol i benaethiaid i gynllunio tuag at unrhyw newid posib.
- Angen i'r Sir fod yn glir o'r gefnogaeth fyddai ar gael i gefnogi unrhyw newid.
- Heriau recriwtio sydd mewn rhai ardaloedd.
- Hyfforddiant i Lywodraethwyr i ddeall oblygiadau unrhyw newid.
- Hyfforddiant staff addysgu a staff ategol gweithredu'r newid.
- Hwrwyddo a marchnata newid.

6. Sylwadau'r Aelodau etholedig o'r Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Craffu Addysg.

- Y polisi presennol ddim yn cynnig gwarchodaeth ddigonol i ddiogelu'r Gymraeg.
- Polisi presennol yn ddim yn cynorthwyo cynnal defnydd iaith na chynyddu defnydd iaith yn sgil y newid mewn demograffeg.
- Gwendid o ran dilyniant o un cyfnod addysgol i'r llall.
- Angen am atebolrwydd i weithredu polisi ac i fonitro gweithrediad polisi.
- Diffyg gweledigaeth yn nhargedau'r Sir i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sydd yn dilyn pynciau TGAU a Safon Uwch.
- Galwad clir am yr angen i fonitro.
- A ddylai'r polisi gyfeirio at Y Gymraeg yn unig?
- Hynny'n cefnogi penaethiaid i wrthwynebu ceisiadau i newid cyfrwng pynciau.
- Oes angen ystyried cynnwys cyfeiriad at sut mae sicrhau gweithlu digonol?

- Cyflwyno manteision a phwysigrwydd dwyieithrwydd.
- Ysgolion Friars a Thywyn: barn gymysg.
- Ymwybyddiaeth o heriau daearyddol Tywyn o ran recriwtio.
- Angen cynllunio tuag at newid yn fwy strategol.
- Dim awgrym nag ateb pendant i sut y dylai polisi diwygiedig edrych.
- Neges glir: angen am newid

7. Ystyriaethau wrth adolygu

- Her o sut mae cadw'r cymunedau mor Gymraeg a phosib drwy'r Sir.
- Angen am strategaeth i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ar rieni i hybu ac annog defnydd eu plant o'r Gymraeg yn yr ysgol a thu allan iddi.
- Categoriaddio ysgolion – amlinellu'r angen i sicrhau dealltwriaeth o'r diffiniadau er mwyn cael gwaelodlin yn sail i unrhyw bolisi.
- Y Cyngor i ystyried beth all ei gyflawni o fewn y diffiniadau hynny.

8. Crynhoi

- Yr angen i nodi'r cyd-destun ar gyfer unrhyw newidiadau
- Llwyddiant digamsyniol y polisi presennol yn gyffredinol ond angen ei ddiweddarau i wynebu'r sefyllfa ieithyddol gyfredol
- Yr angen am bolisi cryno, clir a chadarn
- Bod angen polisi cryno sy'n cael ei esbonio gan ddogfen gefndirol sy'n cynnwys cyfarwyddid sut mae gweithredu'r polisi
- Bod angen i'r ddogfen gefndirol gyfeirio at faterion sydd y tu hwnt i gylch gwaith yr adran addysg ac addysg statudol a fyddai'n cynnwys rôl rhieni ac addysg cyn ysgol. Dadansoddiad mwy manwl o'r ddarpariaeth a'r drefniadaeth ynghylch addysg drochi
- Datblygu cynlluniau cymorth i ehangu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg hyd at 16 oed
- Sicrhau dilyniant effeithiol rhwng pob cyfnod addysg gan gynnwys y sector ôl 16 oed

Atodiad 5

Cwestiynau ychwanegol Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 10-4-25

1. Sut ydych wedi asesu grym gweithredol geiriad y Polisi Iaith newydd er mwyn sicrhau ei fod yn gosod trefn a meini prawf y mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â hwy?

Yn dilyn cais gan benaethiaid ysgolion Gwynedd yn ystod y broses ymgysylltu yng nghyd destun diwygio'r Polisi Iaith gofynnwyd yn benodol am ddogfen gryno. I'r perwyl hwn felly rydym wedi llunio dogfen gryno a chadarn sy'n amlinellu amcanion y polisi ym mhob cyfnod o addysg statudol plentyn. Mae'r polisi yn gosod trefn a meini prawf penodol i ysgolion gydymffurfio â hwy. Yn ogystal rydym wedi llunio Polisi un tudalen yn benodol ar gyfer staff ysgolion er mwyn rhoi trosolwg cyflym o nodau ac amcanion y polisi.

2. Sut byddwch yn monitro bod ysgolion yn gweithredu yn unol â'r Polisi Iaith newydd?

Cyfrifoldeb cyrff Llywodraethwyr ysgolion yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisïau Cyngor Gwynedd ym maes addysg. Bydd Cyngor Gwynedd yn casglu data gan ysgolion ynghylch eu cydymffurfiaid â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd pob ysgol a chorff Llywodraethol yn cyflwyno'u blaenoriaethau datblygu'r Gymraeg i Gynllun Datblygu Clwstwr Cynradd/Uwchradd. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gytuno gyda Chyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn unol â Deilliannau'r CSGA ynghyd â'i fonitro.

Yn y cyd-destun hwn, ac wrth ystyried cynlluniau ehangach y Llywodraeth i fonitro'r datblygiadau hyn, nodir yng nghanllaw'r Llywodraeth:

Defnyddir cynlluniau datblygu ysgolion unigol gan Estyn i ddarparu cyd-destun cyn ymweliadau arolygu a monitro. Bydd sicrhau bod cynlluniau ysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol yn golygu y gellir nodi ac ystyried cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'i datblygiad yn gywir fel rhan o brosesau monitro Estyn. Bydd hyn yn dod yn fwy perthnasol fyth wrth i Estyn geisio rhoi mwy o sylw i asesu'r ystod lawn o brofiadau sydd ar gael i ddysgwyr yn y Gymraeg fel rhan o'i fframwaith asesu.